

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
i ddefnyddwyr ynni



2021-22

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon



2021-22

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 14 Gorffennaf 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-3544-8

E02765355

07/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ofgem



Mae gan Ofgem, fel rheoleiddiwr, ddwy her sydd yr un mor bwysig â'i gilydd – diogelu defnyddwyr heddiw er mwyn sicrhau eu bod yn cael chwarae teg, a diogelu defnyddwyr yn y dyfodol drwy fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i gryfhau ein presenoldeb yng Nghymru. Wrth i system ynni Prydain Fawr drawsnewid i fodel mwy datganoledig, felly hefyd y mae'n rhaid i'n galluedd addasu i dirwedd ynni sy'n newid.

Mae hyn yn cynnwys gwrando ar leisiau defnyddwyr a rhanddeiliaid ledled Cymru.



Rhagymadrodd Cymru

Martin Cave

Mae Ofgem wedi dangos ei hymrwymiad i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru

drwy barhau i dyfu ei phresenoldeb yng Nghymru, ac mae tua 20 o bobl bellach yn gweithio yn ein swyddfeydd hyb yn Nhŷ William Morgan yng Nghaerdydd, gyda mwy i ddod fwy na thebyg. Fodd bynnag, er bod hyn yn newyddion da o ran y flwyddyn ddiwethaf, ni allaf ond pryderu ynghylch pa mor anodd y mae pethau wedi bod i ddefnyddwyr ynni yng Nghymru.

Mae hyn yn rhywbeth rwy'n hynod ymwybodol ohono gan fod ein presenoldeb cynyddol yng Nghymru wedi galluogi Ofgem i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o rhanddeiliaid ynni ledled y wlad yn fwy effeithiol nag erioed o'r blaen. Wrth wneud hynny, rydym wedi cyfarfod â'r diwydiant, arloeswyr, gwleidyddion, peirianwyr a grwpiau defnyddwyr. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag ynni, gan gynnwys gweithgor bord gron chwarterol, Grŵp Defnyddwyr Mawr Ofgem, a'n Grŵp Cyngori Sero Net. Hefyd, mae Ofgem yn falch o gael ei chynrychioli ar Grŵp Cyngori ar Dlodi Tanwydd a Grŵp Cyfeirio Hydrogen Llywodraeth Cymru, ac edrychwn ymlaen at ymuno â Fforwm Rheoleiddwyr Cymru cyn bo hir. Mae ein prif beiriannydd yn aelod o grŵp cynllunio rhwydwaith Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ledled Cymru. Fel y pwynt cyswllt ar lefel y bwrdd ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru, rwyf wedi treulio amser dros y flwyddyn ddiwethaf yn cyfarfod ag arbenigwyr a ffigurau dylanwadol ym maes ynni ledled Cymru – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, diwydiant a grwpiau defnyddwyr – mewn ymgais i feithrin fy nealltwriaeth o'r dirwedd ynni yng Nghymru.

Ochr yn ochr â hyn, mae ein Prif Swyddog Gweithredol, Jonathan Brearley, wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn glŷn â'r argyfwng yn y farchnad ynni a'r newidiadau i'r cap ar brisiau, ac mae swyddogion Ofgem wedi cwrdd yn rheolaidd

ag aelodau o Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt wrth i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â phrisiau ynni ddatblygu.

Wrth i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ddychwelyd, edrychwn ymlaen at groesawu uwch-Weinidogion Llywodraeth Cymru i sesiynau'r bwrdd yn y dyfodol, ac rwy'n gobeithio y bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae tîm cyfathrebu Ofgem yn rheoli rhaglen sylweddol o weithgarwch ymgysylltu i sicrhau y caiff llais Ofgem ei glywed yng Nghymru, ac y caiff llais Cymru ei glywed yn Ofgem. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd dwyochrog, digwyddiadau yn Senedd Cymru, ymweliadau safle, a chyfarfodydd bord gron chwarterol â thîm gwledydd datganoledig BEIS.

Mae ymrwymiad Ofgem i Gymru yn amlwg yn ein Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwasanaethau a'r adroddiadau a ddarperir gennym yn Gymraeg ar hyn o bryd, ac mae'n ymwneud â'r canlynol: Trefnu a Darparu Gwasanaethau; Blaengynllunio a Chaffael; Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg; Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Gwasanaethau Dwyieithog; Gwasanaethau ar Gontract yn Gymraeg; Cwynion; ac Achwynion.

Gwnaethom ddechrau arni y llynedd drwy wneud buddsoddiad sylweddol yn y rhwydweithiau dosbarthu trydan lleol ledled Cymru drwy ein rhaglen Adferiad Gwyrdd er mwyn helpu i bontio'n gyflymach i Sero Net ond, erbyn yr hydref, daeth yn amlwg y byddai pris nwy yn cael effaith negyddol hirdymor ar ddefnyddwyr.

Daeth y gaeaf â'r heriau arferol i'r rhwydwaith hefyd. Nid oedd yr ymateb i Storm Arwen yn ddigon da, ac roedd bron i filiwn o gwsmeriaid ledled Cymru, yr Alban a gogledd Lloegr heb bŵer y llynedd – a hynny am tua wythnos mewn rhai achosion.

Comisiynodd Ofgem adolygiad a dechreuodd weithio ar wneud gwelliannau cyn iddo gael ei gyhoeddi. Rwy'n falch bod rhai o'r gwelliannau hynny ar waith yn barod a byddwn yn parhau i weithio'n galed cyn y gaeaf i sicrhau na chaiff cwsmeriaid eu siomi eto.



Y cynnydd digynsail ym mhris nwy

Byddwn yn siarad â chwsmeriaid yng Nghymru yn rheolaidd, felly rydym yn gwybod pa mor anodd yw hi i lawer o aelwydydd a busnesau yn sgil y prisiau ynni cynyddol. I rai, mae methu â fforddio biliau ynni cynyddol yn fater o fywyd a marwolaeth.

Wrth ymateb i'r argyfwng costau byw digynsail hwn, ein cyfrifoldeb ni – fel y rheoleiddiwr ynni – yw gwneud popeth o fewn ein gallu i ofalu am gwsmeriaid. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi ceisio diogelu cyflenwad ynni a balansau credyd mwy na 4 miliwn o bobl ledled Prydain drwy ein proses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall (**SoLR**), ein proses Cyfundrefn Gweinyddu Arbennig (**SAR**), a'r cap ar brisiau sydd wedi diogelu defnyddwyr rhag cynnydd mewn prisiau yn y tymor byr na ellir ei gyfiawnhau.

Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud i ddiogelu defnyddwyr yng Nghymru. Dyna pam y gweithredodd Ofgem yn gyflym er mwyn symud y farchnad fanwerthu i sefyllfa sy'n fwy cadarn er mwyn iddi allu addasu'n well i farchnad gyfanwerthu sy'n newid. Rydym yn rhoi mesurau rheoli llymach a thynnach ar waith ar gyfer y farchnad fanwerthu er mwyn lleihau'r risg y bydd cyflenwyr yn methu ac i sicrhau na chaiff risg amhriodol ei throsglwyddo i ddefnyddwyr.

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol gan Oxera o'r rhesymau sylfaenol dros yr achosion diweddar o gyflenwyr yn methu, a chyfraniad trefniadau rheoleiddio at hyn. Ym mis Mai 2022, gwnaethom gyhoeddi'r adolygiad yn llawn ac rydym wedi llunio cynllun gweithredu llawn ar gyfer rhoi'r argymhellion ar waith, ac mae llawer o'r camau hyn eisoes yn mynd rhagddynt.

Fodd bynnag, mae cwsmeriaid busnes, y diwydiant ynni a defnyddwyr – yn enwedig pobl mewn sefyllfa fregus – yn cael eu rhoi dan straen eithriadol felly rhaid i bob un ohonom wneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu. Bydd angen meddwl mewn llawer o ffyrdd arloesol a chreadigol er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o helpu cwsmeriaid, ond rydym i gyd yn barod i wynebu'r her.

Grid Ynni Cymru

Un o themâu allweddol gwaith ymgysylltu Ofgem â rhanddeiliaid ynni yng Nghymru yw'r ffordd y gall cwmnïau rhwydwaith fuddsoddi ymlaen llaw cyn prosiectau'r dyfodol a rheoli'r risg y bydd asedau'n mynd i anawsterau. Fel arfer, bydd seilwaith grid yn dilyn datblygiad prosiectau cynhyrchu ynni ac, fel y cyfryw, bydd datblygwyr yn ceisio cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru neu ddosbarthu, a bydd rhwymedigaeth ar y cwmnïau rhwydwaith i gynnig telerau ar gyfer cysylltu, a fydd yn cynnwys gwaith lleol ac unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol er mwyn gallu cael mynediad i'r farchnad drydan ehangach.

Yn nodweddiadol, mae'r seilwaith grid wedi cael ei lywio gan ddatblygiad prosiectau cynhyrchu. Bydd datblygwyr yn ceisio cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru neu ddosbarthu, a bydd rhwymedigaeth ar y cwmnïau rhwydwaith i gynnig telerau ar gyfer cysylltu, a fydd yn cynnwys gwaith lleol ac unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol er mwyn gallu cael mynediad i'r farchnad drydan ehangach.

Rôl Ofgem yw sicrhau y caiff cwmnïau eu hariannu i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn, ac rydym wedi rhoi dulliau ystwyth ar waith i ddarparu cyllid lle y ceir gofynion newydd.

Mae Ofgem yn ymrwymedig i foderneiddio'r grid ynni yng Nghymru ac, i'r perwyl hwnnw, rydym yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru a gweithredwyr rhwydwaith i ddatblygu dull strategol o gynllunio rhwydweithiau trydan er mwyn llywio'r grid ynni hyd at 2050.

Bydd RIIO-2, sef systemau newydd Ofgem i reoli prisiau cwmnïau'r rhwydwaith, hefyd yn gwneud cyfraniad mawr at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd drwy sicrhau y caiff mwy o arian ei fuddsoddi mewn seilwaith ynni, gan gadw taliadau biliau'n sefydlog ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf.



Mae pecyn Dosbarthu Nwy RIIO-2 yn cynnwys cynlluniau mwy cadarn i ysgogi newid sylweddol mewn cyllid a mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus, gan gynnwys gwerth £132 miliwn o gyllid ledled Prydain Fawr – tua £12.55m yn ardal rhwydwaith Wales & West Utilities.

Fel rhan o'r adolygiad o Reoli Prisiau Dosbarthu Trydan, cynhaliodd Ofgem chwe Gwrandawiad Agored ym mis Mawrth 2022 – un ar gyfer pob un o'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu (DNO). Mae hyn yn cynnwys DNOs Cymru, sef Western Power Distribution ar 18 Mawrth 2022 ac SP Energy Networks ar 24 Mawrth 2022.

Llywodraethu systemau ynni

Roedd cryn dipyn o Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru o Ynni Adnewyddadwy yn canolbwyntio ar strwythurau sefydliadol a llywodraethu. Wrth i'r system ynni fynd drwy gyfnod pontio heb ei debyg o'r blaen, mae'n briodol edrych o'r newydd ar y strwythurau hyn – gan gynnwys rôl Ofgem ei hun – ac ystyried a yw'r strwythurau hynny'n addas at y diben o hyd.

Er mwyn hwyluso'r broses o bontio i system ynni sero net fwy hyblyg sy'n defnyddio data, credwn fod achos o blaid goruchwyliaeth strategol gryfach a gwell cydgysylltu drwy'r system gyfan, sy'n debygol o law am newidiadau i weithdrefnau llywodraethu, codau, safonau a threfniadau trwyddedu presennol.

Mae Ofgem hefyd yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i gyhoeddi Datganiad Polisi Strategol ar gyfer Ofgem a fydd, ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod, yn nodi blaenoriaethau'r llywodraeth ynghylch ynni sy'n berthnasol i Ofgem. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Tasglu Digideiddio Ynni, BEIS a Llywodraeth Cymru i benderfynu ar y ffordd orau o adlewyrchu eu hargymhellion yn ein gwaith.

Erys diogelu defnyddwyr yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol i Ofgem

Wrth wraidd ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr yng Nghymru mae gweithredu a chynnal ein cap ar brisiau, sy'n parhau i ddiogelu tua dwy ran o dair o ddefnyddwyr yng Nghymru rhag newidiadau annheg mewn prisiau. Ond er bod llawer o waith Ofgem i ddiogelu defnyddwyr yn digwydd ar lefel Prydain Fawr, rydym hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau y caiff defnyddwyr yng Nghymru eu cynrychioli.

Un o'r ffyrdd gorau o sicrhau y gwnawn hyn yw gwranddo'n uniongyrchol ar ddefnyddwyr, ac ar y cyrff defnyddwyr sy'n eu cynrychioli. Y flwyddyn hon, rydym wedi cyfarfod â nifer o sefydliadau ynni yng Nghymru, gan gynnwys yr elusen tlodi tanwydd, National Energy Action Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru, sef cwmni buddiannau cymunedol sy'n gweithio i leihau tlodi tanwydd. Mae hyn yn ein galluogi i glywed yn uniongyrchol am brofiadau rheng flaen i gefnogi defnyddwyr a all fod yn ei chael hi'n anodd talu am eu hynni.

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22 yn nodi sut mae Ofgem yn diogelu defnyddwyr yng Nghymru a ledled Prydain Fawr, yn cynnal sicrwydd cyflenwadau ac yn buddsoddi ar gyfer y dyfodol, ac yn hwyluso statws sero net am y gost leiaf i ddefnyddwyr. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid yng Nghymru i gyflawni'r nodau hyn.

Martin Cave

Martin Cave
Cadeirydd



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	6
Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol	7
Adroddiad ar Berfformiad	9
Adroddiad ar Atebolrwydd	39
Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliadt	68
Cyfrifon Adnoddau	78
Atodiadau	100
Atodiad I – Dangosyddion Perfformiad Allweddol	101
Atodiad II – Ymchwiliadau a Champau Gorfodi 2021-22	103
Atodiad III – Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000	111





Rhagair y Cadeirydd

Martin Cave

Mae'r newidiadau rydym wedi'u gweld mewn prisiau nwy yn rhai na welir ond unwaith mewn cenhedlaeth. Yn Ofgem, gwyddom drwy gysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr fod hyn yn creu sefyllfa hynod anodd iddynt, yn enwedig aelwydydd sydd mewn sefyllfa fregus, lle rydym eisoes yn gweld tystiolaeth o hunanddogni ynni sy'n peri pryder. Bydd hyn yn arwain at heriau aruthrol o ran cefnogi cwsmeriaid, ac mae'r llywodraeth, Ofgem a'r sector ynni wedi gorfod cynyddu eu hymdrechion i wynebu'r heriau hyn, a hynny'n gyflym ac ar raddfa fawr.

Ar ran Bwrdd Ofgem, ac yn bersonol hefyd, hoffwn dalu teyrnged i'r staff rheng flaen yn y sector sy'n gwneud eu gorau glas i helpu cwsmeriaid bob dydd, ac yn gwneud gwahaniaeth dan amgylchiadau anodd iawn. O ran Ofgem, rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y caiff cwsmeriaid eu trin yn deg ac na fyddant yn talu mwy na phris teg am eu hynni, a hynny'n bennaf drwy ein trefn drwyddedu gadarn, dulliau atal credadwy, a systemau rheoli prisiau.

Yn unol ag arferion da ym maes llywodraethu corfforaethol, cynhaliwyd Adolygiad annibynnol o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn gynnar yn y flwyddyn. Er i'r Adolygiad dynnu sylw at lawer o bethau sy'n gweithi'n dda yn ein trefniadau llywodraethu presennol, mae hefyd wedi tanlinellu rhai meysydd ar gyfer gwella, ac rydym wedi bod yn gwneud hynny dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Ionawr, gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o'r rhesymau sylfaenol dros yr achosion diweddar o gyflenwyr yn methu, a chyfraniad trefniadau rheoleiddio at hyn. Rydym wedi llunio cynllun gweithredu llawn ar gyfer rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith, ac mae llawer o'r camau hyn eisoes yn mynd rhagddynt.

Yn ogystal â goruchwyllo ymateb y sefydliad i'r argyfwng, mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd strategaeth gadarn er mwyn helpu Ofgem i sicrhau system ynni fforddiadwy, ddibynadwy a charbon isel ar gyfer y dyfodol sy'n cyflawni'r gwaith o bontio i sero net am y gost isaf er budd defnyddwyr.

Yn erbyn y cefndir heriol hwn, rydym wedi canolbwyntio ar ein pum rhaglen strategol lle credwn y gallwn gael yr effaith fwyaf o ran hwyluso'r newid i sero net er budd defnyddwyr ynni, a dwy flaenoriaeth barhaus i ddiogelu defnyddwyr a chwarae ein rhan yn y meysydd hynny. y gwaith o gyflawni cynlluniau trydan a gwres adnewyddadwy, cynlluniau effeithlonrwydd ynni a chynlluniau cymdeithasol.

I gefnogi hyn, mae Bwrdd Ofgem, drwy ei Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, wedi parhau i chwarae rhan amlwg yn y broses barhaus o drawsnewid y sefydliad, gan gynnwys ein hymrwymiad i sicrhau bod 50% o'n huwch-reolwyr a'n huwch-arweinwyr yn fenywod a bod 9% yn fenywod BAME erbyn 2025, yn ogystal ag atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu, cydymffurfiaeth a rheoli risg drwy ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rwy'n falch iawn bod y Bwrdd wedi llwyddo i ailddechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb ledled Prydain Fawr yn ddiweddar, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd pwysig gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r trafodaethau hyn dros y flwyddyn i ddod.

Hoffwn hefyd ddiolch i Paul Grout a ymddiswyddodd o'r Bwrdd eleni. Mae ei gyfraniad dros gyfnod o bron i ddegawd o wasanaeth, ac wrth gadeirio Pwyllgor RIIO y Bwrdd, wedi bod yn amhrisiadwy a dymunwn yn dda iddo at y dyfodol.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi defnyddwyr drwy'r cyfnod heriol hwn – ac i achub ar y cyfleoedd yn y flwyddyn allweddol sydd i ddod.

Gan weithio'n agos gyda'r llywodraeth a'r diwydiant, edrychaf ymlaen at barhau â gwaith pwysig Ofgem i ddiogelu defnyddwyr mewn marchnad heriol, llywio system ynni fodern sy'n lanach ac yn fwy ymatebol i newidiadau mewn galw, a darparu cyflenwad mwy sicr o drydan a nwy am y gost isaf i ddefnyddwyr.

Martin Cave

Martin Cave
Cadeirydd





Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Jonathan Brearley

Yn ystod blwyddyn anodd, a gyda chyfaddawdau anodd i'w gwneud, mae Ofgem wedi bod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi cwsmeriaid.

Rwy'n hynod ymwybodol o ba mor heriol y mae'r cyfnod hwn wedi bod i'n cydweithwyr ym mhob rhan o Ofgem, i'r sector ynni, ac i'r cwsmeriaid rydym yn eu gwasanaethu. Byddaf yn siarad â chwsmeriaid yn rheolaidd, ac rwy'n gwybod pa mor anodd yw hi i lawer o aelwydydd a busnesau yn sgil y prisiau ynni cynyddol.

Mae Ofgem erioed wedi gorfod pwyso a mesur materion cymhleth ar ran defnyddwyr, a bydd angen parhau i sicrhau ei bod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion defnyddwyr gwahanol. Er enghraifft, rhwng defnyddwyr nawr ac yn y dyfodol, grwpiau incwm gwahanol ac ardaloedd daearyddol gwahanol. Dyna fu'r sefyllfa erioed, ond bu'n rhaid i ni wneud llawer mwy o benderfyniadau yn llawer cyflymach wrth ymateb i'r argyfwng y flwyddyn hon. O ystyried bod y farchnad ynni yn parhau i wynebu heriau mawr, rydym yn disgwyl i hyn barhau a byddwn yn addasu ein gwaith er mwyn ymateb i hyn.

Diogelu defnyddwyr

Ein cyfrifoldeb ni fel y rheoleiddiwr ynni yw gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu cwsmeriaid. Yn yr argyfwng hwn, mae hyn wedi golygu newid cryn dipyn o weithgareddau arfaethedig ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22, a hoffwn ddiolch i'r diwydiant, y llywodraeth, cyrff anllywodraethol, a staff Ofgem am y gwaith caled y maent yn ei wneud i gefnogi pobl.

Mae ein Cap ar Brisiau Tariffau Diofyn wedi diogelu 23 miliwn o aelwydydd, ac mae ein prosesau ar gyfer cyflenwyr sy'n ymadael â'r farchnad wedi sicrhau bod mwy na 4 miliwn o ddefnyddwyr wedi cael eu trosglwyddo i gyflenwr newydd ynghyd â'u balansau credyd, heb ddim tarfu ar eu cyflenwad ynni, pan ymadawodd eu cyflenwyr â'r farchnad.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gwersi y bydd angen eu dysgu, ac rydym yn parhau i weithio'n gyflym i atgyfnerthu cyfundrefn reoleiddio Ofgem er mwyn tynhau trefniadau rheoleiddio ariannol yn y farchnad fanwerthu, diwygio'r cap ar brisiau er mwyn ei wneud yn fwy addasadwy, a goruchwyllo cyflenwyr ynni yn well er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni rhwymedigaethau eu trwyddedau.

Nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, rydym yn disgwyl i safonau gwasanaeth cwsmeriaid gael eu cynnal ac i gwsmeriaid gael eu trin yn deg, ac yn disgwyl i gwmnïau gyrraedd safonau uwch am berfformiad cyffredinol o ran gwasanaeth cwsmeriaid.

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi camau gweithredu pellach er mwyn symud y farchnad fanwerthu i sefyllfa sy'n fwy cadarn, yn diogelu buddiannau defnyddwyr ac yn gallu addasu'n well i farchnad gyfanwerthu sy'n newid.

Gwnaethom hefyd lansio cyfres o adolygiadau trwyadl o gydymffurfiaeth, gan ddechrau ag asesiad trylwyr i ganfod a yw cytundebau Debyd Uniongyrchol cwsmeriaid yn cael eu llunio'n briodol, gydag adolygiadau eraill i ddilyn er mwyn asesu agweddau eraill ar fregusrwydd, fforddiadwyedd a gwasanaeth.

Cyflawni Sero Net

Mae'r argyfwng nwy hwn ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi newid hanfodion economaidd y sector ynni. Roedd llawer o ddulliau cynhyrchu ynni carbon isel eisoes wedi dod yn rhatach na dulliau cynhyrchu confensiynol ond, gan fod prisiau nwy bellach mor anwadal, mae'r achos economaidd yn llawer cryfach.

Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd newid i gynhyrchu pŵer rhatach a glanach yma yn y wlad hon. Mae sicrhau'r newid hwn mewn modd dibynadwy a sicr am y gost isaf i gwsmeriaid yn flaenoriaeth allweddol i Ofgem o hyd, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant, y llywodraeth a chyrrff anllywodraethol, i wneud y newidiadau y bydd eu hangen i'r farchnad er mwyn cyflawni'r broses bontio hon yn gyflym ac er budd cwsmeriaid.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen ailystyried y ffordd rydym yn cynllunio ac yn gweithredu, a bydd angen i ni roi'r trefniadau rheoleiddio a'r strwythurau cywir ar waith i sicrhau system fwy deallus a strategol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein setliad â chwmnïau rhwydweithiau dosbarthu trydan, sef RIIO-ED2, gyda'r nod o wella gwasanaeth cwsmeriaid a chydnerthedd i atal toriadau pŵer, fel y rhai a welwyd y gaeaf diwethaf, cyflawni gwaith ehangu mawr i'n rhwydwaith trawsyrro i sicrhau bod ynni yn cyrraedd y mannau lle y mae ei angen, a pharatoi'r ffordd ar gyfer cynhyrchu mwy o ynni cartref rhatach a gwyrddach i leihau biliau yn yr hirdymor.



Rydym hefyd yn gweithio i wella gallu cyflenwadau pŵer i wrthsefyll stormydd amlach, gan gynnwys dysgu gwersi o'r ymateb i Storm Arwen.

Mewn partneriaeth ag Innovate UK, mae Ofgem yn chwarae rhan amlwg yn y gwaith o feithrin y technolegau a'r datblygiadau newydd y bydd eu hangen drwy ein Cronfa Arloesedd Strategol flaenllaw, gan ddarparu gwerth £450 miliwn o adnoddau i fynd i'r afael â phedair her strategol fawr, gan gynnwys integreiddio system gyfan – neu 'o'r pwerdy i'r plwg' – data a digideiddio, gwres, a thrafnidiaeth.

Trawsnewid Ofgem

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn lansio Prydain Sero Net, ein syniadau ar y diwygiadau ynni y mae angen eu gwneud, yn ein barn ni, erbyn 2030 i sicrhau bod y sector pŵer yn gydnerth ac yn sero net erbyn 2035 am y gost isaf i ddefnyddwyr, gan edrych ar y gwaith o reoli systemau, gwella diogelwch a chyfranogiad defnyddwyr, a ffyrdd o wneud y system yn fwy effeithlon.

Er mwyn wynebu'r heriau aruthrol o'n blaenau, bydd angen i Ofgem ei hun newid hefyd.

Dyna pam rydym yn parhau i gyflawni cynllun trawsnewid mewnol uchelgeisiol, gan gynnwys parhau â'n hymdrechion i ddod yn fwy cynrychioladol o'r defnyddwyr rydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi recriwtio tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant arbennig i ddatblygu'r gwaith hwn, a byddwn yn cyhoeddi strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yn ystod y misoedd nesaf.

Rydym hefyd wedi parhau i wneud cynnydd o ran atgyfnerthu gwaith Ofgem ei hun ym meysydd llywodraethu, cydymffurfiaeth a sicrwydd. Mae rhagor o waith i'r wneud i aeddfedu a gwreiddio'r gwaith hwn, yn enwedig o ran rheoli risg, a byddwn yn parhau i'w atgyfnerthu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Edrych ymlaen

Gan edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyflwyno'r setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan er mwyn hwyluso grid mwy deallus a hyblyg, gan roi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr a'u galluogi i ddefnyddio ynni o'r grid am gyfraddau rhatach pan fydd y galw'n isel.

Bydd system fwy deallus a strategol sy'n gallu defnyddio pypiau gwres, mannau gwefru cerbydau trydan a theclynau deallus eraill i symud y galw yn lleihau'r angen am safleoedd cynhyrchu newydd costus a mwy o gapasiti yn y grid, gan arbed hyd at £4.5 biliwn y flwyddyn i gwsmeriaid.

Bydd system fwy deallus a strategol sy'n gallu symud y galw yn lleihau'r angen am gapasiti cynhyrchu a grid newydd a chostus, gan arbed hyd at £10 biliwn y flwyddyn i gwsmeriaid yn yr hirdymor, helpu i reoli costau a chyflawni ein nodau o ran newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen system gwbl wahanol ar gyfer y galw am ynni a'r cyflenwad ohono – a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ar ei Hadolygiad cynhwysfawr o Drefniadau'r Farchnad Drydan (REMA).

Rydym yn falch bod Llywodraeth y DU wedi derbyn ein hargymhelliad y dylid sefydlu Gweithredwr System ar gyfer y Dyfodol (FSO), i oruchwylio'r rhwydwaith ar lefel genedlaethol, ac rydym wedi lansio adolygiad o'r trefniadau y gall fod eu hangen ar lefel leol i ysgogi perchenogaeth ac atebolrwydd yn lleol.

Hefyd, mae'n debygol y bydd angen gwneud newidiadau ehangach i'n marchnad drydan gyfanwerthol er mwyn adlewyrchu gwahanol amodau lleol, ynghyd â ffordd wahanol o reoleiddio ein marchnad fanwerthu, a byddwn yn cyflwyno rhagor o syniadau dros y misoedd nesaf.

Mae'r rhagolygon yn anwadal o hyd, a gwyddom y bydd cyfnodau heriol i ddefnyddwyr yn y dyfodol.

Yn ystod blwyddyn anodd, mae Ofgem wedi bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi cwsmeriaid, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid eraill i sicrhau system ynni ratach, fwy amrywiol a charbon isel sy'n diogelu defnyddwyr ac yn gweithio iddynt.

Jonathan Brearley
Prif Weithredwr



Adroddiad ar Berfformiad

Trosolwg o'r fframwaith strategol

Mae'r Adroddiad hwn ar Berfformiad yn nodi cyflawniadau o ran cyflawni'r gweithgareddau ym Mlaenraglen Waith Ofgem ar gyfer 2021-22, yn seiliedig ar strwythur ein Fframwaith Strategol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Ofgem ei [Fframwaith Strategol](#). Helpodd y fframwaith ni i lywio ein gwaith cynllun busnes mewnol ar gyfer 2021-22 ac fe'i cyhoeddwyd yn allanol yn ein [Blaenraglen Waith](#). Mae'r fframwaith, a gafodd gryn dipyn o gefnogaeth gan randdeiliaid yn ystod y flwyddyn, yn cyfeirio adnoddau Ofgem tuag at weithgareddau sy'n cefnogi pum **Rhaglen Newid Strategol** a dwy **Flaenoriaeth Barhaus**.

Mae Blaenoriaethau Parhaus Ofgem yn crynhoi ein cyfrifoldebau rheoleiddio craidd, sef diogelu cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol, a chyflawni cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol y llywodraeth yn effeithiol. Mae'r Rhaglenni Newid Strategol yn canolbwyntio ar ble y gall Ofgem sicrhau'r effaith fwyaf i ddefnyddwyr, gan gynnwys pontio i sero net am y gost isaf. Mae rhaglenni newid strategol Ofgem yn anelu at wneud y canlynol:

Marchnad Fanwerthu yn y Dyfodol



Darparu **market fanwerthu yn y dyfodol** sy'n gweithio dros bob defnyddiwr a'r blaned.

Seilwaith Carbon Isel



Hwyluso buddsoddiad mewn **seilwaith carbon isel** am gost deg.

Hyblygrwydd y Gadwyn Gyflawn



Sicrhau **hyblygrwydd y gadwyn gyflawn** o ran y ffordd rydym yn cynhyrchu, yn defnyddio ac yn storio ynni.

Llywodraethu Systemau Ynni



Sicrhau bod trefniadau **llywodraethu systemau ynni**, gan gynnwys Ofgem, yn addas ar gyfer y dyfodol.

Data a Digiddeiddio



Gwireddu buddiannau **data a digideiddio**.



Ymateb i'r argyfwng nwy

Yn ystod 2021-22, gwelwyd cynnydd uwch nag erioed o'r blaen mewn prisiau nwy a thrydan mewn ymateb i farchnadoedd bydeang tynn ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin, gan roi marchnadoedd ynni dan straen difrifol a chynyddu prisiau i ddefnyddwyr ynni. Ymatebodd Ofgem yn gyflym i hyn, ym mis Hydref, gan nodi elfennau allweddol ei hymateb.

Drwy gydweithio â'r llywodraeth, y diwydiant ynni a chyrrff defnyddwyr, gwnaethom gyflwyno mesurau i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, cynnig mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr, a meithrin cadernid yn y sector. Er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn y sefyllfa, gwnaeth Ofgem newidiadau i'w gweithgareddau rheoleiddio craidd a Rhaglen Newid Strategol Dyfodol Manwerthu, gan gynnwys:

- rheoli'r broses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall, sy'n sicrhau y caiff cwsmeriaid eu trosglwyddo i gyflenwr ynni newydd pan fydd cwmnïau'n ymadael â'r farchnad
- gwella trefniadau monitro, cydymffurfio a gorfodi ar gyfer rhwymedigaethau trwyddedau cyflenwyr ynni, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn dilyn model busnes cynaliadwy a sicrhau cyn lleied â phosibl o risg i ddefnyddwyr a'r farchnad
- addasu methodoleg y cap ar brisiau er mwyn gallu addasu i'r amgylchiadau mwy anwadal yn y farchnad.

Er mwyn ymateb i'r cynyddiadau digynsail hyn mewn prisiau trydan a nwy, roedd angen ailflaenoriaethu adnoddau Ofgem er mwyn canolbwyntio ar y diwygiadau hyn a diwygiadau brys eraill, fel y nodir isod.

O ganlyniad i hynny, cafodd yr adnoddau ar gyfer cyflawni rhai gweithgareddau yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2021-22 eu hatal dros dro yn ystod hydref 2021. Cyhoeddwyd Blaenraglen Waith Ofgem ar gyfer 2022-23 ddiwedd mis Mawrth 2022, ac mae'n ystyried y newidiadau hyn ac yn nodi ein blaenoriaethau wedi'u diweddarau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Sicrhau gwerth yn 2021-22

Un o flaenoriaethau allweddol Ofgem yw diogelu defnyddwyr ynni a sicrhau gwerth iddynt. Nid yw bob amser yn hawdd meintoli'r buddiannau i ddefnyddwyr yn sgil y penderfyniadau a wneir gan Ofgem, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar ragdybiaethau a wneir, ond gwnawn hynny er mwyn deall effaith y penderfyniadau mawr a wneir gan Ofgem yn well. Felly, mae Ofgem wedi cyfrifo mai cyfanswm y buddiannau i ddefnyddwyr yn ystod y flwyddyn ariannol hon yw ~£1.5 biliwn. Mae hyn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol amrywiaeth o benderfyniadau a wnaed.

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau mawr a wnaed eleni wedi cael eu meintoli drwy asesiadau effaith ffurfiol, sydd wedi crynhoi'r holl fuddiannau lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn wedi galluogi Ofgem i ddeall yn well ble y gellir cynhyrchu mwy o werth.

Uchafbwyntiau allweddol:

- Ers mis Awst 2021, mae prosesau Ofgem ar gyfer cyflenwyr sy'n ymadael wedi diogelu mwy na **4 miliwn** o ddefnyddwyr, gan wneud yn siŵr, hyd yn oed pan fydd cyflenwr yn methu, y caiff cwsmeriaid eu trosglwyddo i gyflenwr ynni newydd heb ddim tarfu ar eu cyflenwad ynni, ac y caiff balansau credyd aelwydydd eu hanrhydeddu.
- Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod cwsmeriaid ar y cap ar brisiau wedi arbed **£647** yn ystod gaeaf 2021-22, a thalwyd gwerth **£1.9 miliwn** mewn iawndaliadau i gwsmeriaid yr effeithiodd achosion o ddiffyg cydymffurfio arnynt, gyda chyfanswm o **£4.57 miliwn** mewn taliadau unioni.
- Darparwyd mwy na **£50 miliwn** o gyllid i brosiectau ynni gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, gan gynnwys **£11 miliwn** am fwy na 200,000 o dalebau tanwydd.
- Goruchwyliodd Ofgem y broses o osod **3.8 miliwn** o fesuryddion deallus ac uwch yn ystod blwyddyn galendr 2021 (o gymharu â 3.2 miliwn yn 2020), gan olygu bod cyfanswm o 27.8 miliwn o fesuryddion deallus bellach wedi cael eu gosod, sy'n helpu i hybu lefelau ymgysylltu ymhlith defnyddwyr ac yn lleihau biliau defnyddwyr ac allyriadau carbon.
- Defnyddiodd 80 o arloeswyr wasanaeth 'Adborth Cyflym a Gonest' Ofgem i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.
- Gwrthododd Ofgem **£1.16 miliwn** o'r costau yr aeth y cwmni Data Communication Company (DCC) iddynt a **£317.22m** o'r costau a ragwelwyd ganddo, a chaiff yr arian hwnnw ei drosglwyddo'n ôl i'r diwydiant ac, yn ei dro, i'r defnyddwyr.
- Er mwyn helpu i gefnogi'r adferiad economaidd ac ysgogi arloesedd, darparodd Ofgem **£300 miliwn** o gyllid drwy ei system rheoli prisiau dosbarthu trydan i Brosiectau Cynlluniau Adferiad Gwyrdd.
- Buddsoddodd y Gronfa Arloesedd Strategol newydd mewn 40 o brosiectau yn y sectorau trawsyrru a dosbarthu, er mwyn cyflymu'r broses o bontio i sero net.
- Helpodd polisïau a rhaglenni Ofgem i gynyddu cynhwysedd rhyng-gysylltwyr i bron i **10 gigawat** ar gyfer trydan, gan helpu i leihau allyriadau carbon a chostau i ddefnyddwyr.
- Amcangyfrifir y bydd cyflwyno'r setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan yn 2025 yn sicrhau buddiannau gwerth rhwng **£1.6 biliwn** a **£4.6 biliwn** i fusnesau domestig a microfusnesau erbyn 2045.
- Drwy leihau buddsoddiad niweidiol ac ystumio gweithredol, disgwylir i newidiadau'r Adolygiad o Daliadau Wedi'u Targedu arbed ~**£300m** y flwyddyn i ddefnyddwyr, a rhagwelir y bydd defnyddwyr yn arbed cyfanswm o ~**£5bn** yn ystod y cyfnod tan 2040, wrth i ni symud tuag at sero net.



Cyfrifoldebau newydd 2021-22

Yn ogystal ag ymateb i'r argyfwng nwy, a nodi diwygiadau ar gyfer y farchnad ynni fanwerthu, gwnaeth Ofgem ymgymryd â chyfrifoldebau newydd o ran rheoleiddio a chynlluniau, neu baratoi i wneud hynny.

Rheoleiddio

Rhwydweithiau gwres

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ei bwriad i benodi Ofgem yn rheoleiddiwr economaidd ar gyfer Rhwydweithiau Gwres, drwy basio'r Ddeddf Diogeled Ynni. Bydd Ofgem yn dylunio fframwaith rheoleiddio ar gyfer rhwydweithiau gwres ac yn ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod defnyddwyr rhwydweithiau gwres – yn enwedig pobl mewn sefyllfa fregus – yn cael cyflenwad dibynadwy o wres i'w cartrefi am bris teg.

Prosiectau cynhyrchu trydan niwclear newydd

Ym mis Mawrth 2022, daeth y Ddeddf Ynni Niwclear (Ariannu) i rym, a oedd yn ffurfioli rôl Ofgem fel y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan niwclear newydd. Drwy roi model Seiliedig ar Asedau Rheoleiddio ar waith, bydd Ofgem yn gweithio i sicrhau'r gwerth gorau am arian i ddefnyddwyr.

Rhwydweithiau storio a chludo carbon deuocsid

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd BEIS ei bwriad i benodi Ofgem yn rheoleiddiwr economaidd ar gyfer rhwydweithiau storio a chludo carbon deuocsid, a disgwylir i hynny gael ei gadarnhau pan gaiff deddfwriaeth berthnasol ei phasio.

Mae Ofgem yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei hamcanion cyfredol ar gyfer y sector ynni, fel y'u nodir yn y Papur Gwyn ar Ynni a'r Strategaeth Sicrwydd Ynni, gan fod yn ymatebol i newidiadau yn y dyfodol ar yr un pryd, gan gynnwys Datganiad Strategaeth a Pholisi arfaethedig y llywodraeth ar gyfer Ofgem.

Cynlluniau amgylcheddol

Cynllun uwchraddio boeleri

Bydd y cynllun, a lansiwyd ym mis Hydref 2021, yn cynnig grantiau o fis Mai 2023 ymlaen, i leihau'r costau cyfalaf ymlaen llaw i gwsmeriaid a busnesau bach er mwyn cefnogi'r broses o osod technolegau gwresogi carbon isel.

Cynllun cymorth nwy gwyrdd

Bydd y cynllun, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021, yn rhoi cymorth ariannol i gyflenwyr nwy sydd am gynyddu'r gyfran o nwy adnewyddadwy yn y grid nwy, ac er mwyn hybu arloesedd yn y sector gwres adnewyddadwy.

Rhwymedigaeth cwmnïau ynni – ECO4

Cyflwynwyd y cynllun am y tro cyntaf yn 2013, a chafodd y bedwaredd fersiwn ei datblygu yn ystod y flwyddyn, i ddisodli ECO3, a gaeodd i ymgeiswyr newydd ar 31 Mawrth 2022. Mae cynllun ECO yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyflenwyr ynni mawr i roi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith ar gyfer safleoedd domestig.

Blaenoriaethau Parhaus

Mae ein Blaenoriaethau Parhaus, sy'n rhan hanfodol o'n Fframwaith Strategol ac sydd ar waith drwy gydol y flwyddyn gyflawni, yn cynnwys:

1. Ein swyddogaethau rheoleiddio craidd i reoleiddio'r sector a diogelu buddiannau defnyddwyr
2. Cyflawni cynlluniau presennol y llywodraeth a rhai newydd er mwyn cefnogi defnyddwyr mewn sefyllfa fregus ac ysgogi'r broses ddatgarboneiddio.

Cyflawni swyddogaethau rheoleiddio craidd

Yn ystod 2021-22, gwnaethom gyflawni yn erbyn ein prif amcan a'n hamcanion statudol drwy sicrhau:

- Bod defnyddwyr yn parhau i dalu pris teg am eu hynni drwy weithredu'r cap prisiau ar dariffau diodyn yn effeithiol
- Bod defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfa fregus, yn cael eu trin yn deg gan gyflenwyr
- Pan fydd cyflenwyr yn gadael y farchnad, bod defnyddwyr yn cael eu diogelu drwy ein proses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall
- Drwy ein rheolaethau prisiau, modelau cystadleuaeth a phrosesau tendro, bod rhwydweithiau ynni yn parhau i gynnig gwerth am arian i ddefnyddwyr
- Bod nodau sero net yn cael eu cefnogi drwy system ynni sy'n gweithredu mewn ffordd fwy hyblyg
- Drwy ein gweithgarwch gorfodi, ein bod yn cynnig ffordd gredadwy o atal diffyg cydymffurfiaeth
- Bod newidiadau i'r codau ynni o fudd i ddefnyddwyr a bod ein proses drwyddedu yn gadarn
- Bod gweithredwyr rhwydwaith yn gallu gwrthsefyll bygythiadau seiber, drwy ein rôl fel Awdurdod Cymwys ar y cyd â BEIS, sy'n golygu arolygu Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol ac ymgysylltu â nhw.

Yn ogystal, ac ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, buom yn gweithio gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid ynni yn y DU ac yn Ewrop i roi'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU ar waith fel y mae'n berthnasol i ynni.

Ceir manylion yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein gweithgareddau rheoleiddio craidd yn yr adrannau ar y Rhaglenni Newid Strategol cysylltiedig o'r Adroddiad hwn ar Berfformiad.



Cynnal Cynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol

Yn ogystal â phum rhaglen newid strategol Ofgem a'i gweithgareddau rheoleiddio craidd, mae Ofgem yn gweinyddu amrywiaeth o gynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar ran y llywodraeth, sy'n werth £9 biliwn y flwyddyn gyda'i gilydd. Mae'r cynlluniau yn dod o dan dri phrif gategori.

Cynlluniau Gwres Adnewyddadwy

Cynllun Uwchraddio Boeleri

Cynllun Uwchraddio Boeleri

Penodwyd Ofgem yn weinyddwr i'r Cynllun Uwchraddio Boeleri ym mis Hydref 2021, fel rhan o becyn ehangach y Llywodraeth o bolisiau i annog technolegau gwresogi carbon isel. Mae gan y cynllun gyllideb o £450 miliwn dros dair blynedd, a fydd yn helpu i dalu am dechnolegau gwresogi carbon isel mewn hyd at 90,000 o gartrefi ledled Cymru a Lloegr. Bydd y cynllun yn cynnig grantiau o fis Mai 2023 ymlaen, i leihau'r costau cyfalaf ymlaen llaw i gwsmeriaid a busnesau bach. Disgwylir iddo hefyd helpu i leihau dibyniaeth y Deyrnas Unedig ar danwyddau ffosil a pha mor agored ydyw i gynnydd sydyn mewn prisiau byd-eang. Prif ffocws y cynllun yw gosod pypiau gwres, a bydd yn parhau i ddatblygu'r farchnad ar gyfer y dewisiadau amgen profedig hyn yn lle systemau gwresogi sy'n llosgi tanwyddau ffosil – a gefnogwyd yn flaenorol gan gynllun Cymhellion Gwres Adnewyddadwy Ofgem.

Cynllun Cymorth ac Ardoll Nwy Gwyrdd

Lansiwyd y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd ym mis Tachwedd 2021, er mwyn rhoi cymorth ariannol i gyflenwyr nwy sydd am gynyddu'r gyfran o nwy adnewyddadwy yn y grid nwy, ac er mwyn hybu arloesedd yn y sector gwres adnewyddadwy. Dros oes y cynllun, disgwylir iddo arwain at arbedion carbon sy'n cyfateb i 8.2 miliwn o dunelli o nwyon tŷ gwydr. Caiff y cyllid ei ariannu drwy ardoll ar gyflenwyr tanwyddau ffosil, a elwir yn Ardoll Nwy Gwyrdd, ac roedd y taliad cyntaf yn ddyledus ym mis Mai 2022. Mae cyflenwyr sydd ond yn cyflenwi nwy gwyrdd wedi'u heithrio rhag talu'r ardoll hon.

Cynlluniau Gwres Adnewyddadwy sydd wedi cau (i newydd-ddyfodiaid)

Yn ystod oes y cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy hyd at fis Mawrth 2022:



Taliadau gwerth tua **£155 miliwn** wedi'u gwneud i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun (RHI Gogledd Iwerddon)



6.65 MtCO₂ o arbedion carbon wedi'u rhagweld (DRHI)



63 TWh o wres thermol wedi'i gynhyrchu (NHRHI-GB and DRHI)



5,481 MW o gapasiti gwres thermol wedi'i achredu (NDRHI-GB)



Dros 335 mil o daliadau gwerth tua **£145 miliwn** (RHI Domestig) wedi'u rhoi yn ystod 2021-22



Dros 75 mil o daliadau gwerth tua **£800 miliwn** (NDRHI-GB) wedi'u rhoi yn ystod 2021-22



2,841 GWh o wres wedi'i gynhyrchu (RHI Gogledd Iwerddon – yn ystod oes y cynllun hyd at fis Mawrth 2021, caewyd y cynllun i geiswyr newydd ym mis Chwefror 2016)

Sefydlwyd cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy i helpu defnyddwyr – domestig ac annomestig – i oresgyn y costau sy'n gysylltiedig â gosod systemau gwresogi adnewyddadwy, o gymharu â systemau gwresogi tanwydd ffosil mwy confensiynol. Mae'r cynlluniau wedi helpu mabwysiadwyr cynnar i gyfrannu at nodau'r DU o sicrhau statws sero net, drwy osod technolegau fel pypiau gwres a chwistrellu bionwy.

Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig

- Caewyd y cynllun hwn i geisiadau newydd ar 31 Mawrth 2022.
- 36,384 o geisiadau wedi dod i law yn ystod 2021-21
- Bydd Ofgem yn parhau i helpu cyfranogwyr ac yn gwneud taliadau lle bo hynny'n briodol yn ystod eu cyfnod cymhwysedd (sef hyd at saith mlynedd).

Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig

- Er bod y cynllun bellach wedi cau, caniatwyd estyniadau deddfwriaethol er mwyn cydnabod y problemau a wynebier gan y diwydiant o ganlyniad i bandemig COVID-19, a chawsant eu hestyn ymhellach yn 2021.
- Bydd Ofgem yn parhau i helpu cyfranogwyr ac yn gwneud taliadau lle bo hynny'n briodol yn ystod eu cyfnod cymhwysedd. Bydd cyfranogwyr sy'n defnyddio estyniadau yn cael cymorth tan 31 Mawrth 2041.

Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni a Chymdeithasol

Yn ystod oes y cynlluniau Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni hyd at fis Mawrth 2022:



Dros 3.48m o fesurau wedi'u gosod i 2.39 miliwn o aelwydydd



Cyfraniad amcangyfrifedig o **58.31 MtCO₂** mewn arbedion carbon



Amcangyfrif o **£19.3 biliwn** o arbedion biliau gydol oes yn gyflawnadwy i aelwydydd sydd mewn sefyllfa fregus

Yn ystod oes y cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes hyd at fis Mawrth 2021:



£3.15 biliwn o gymorth i gwsmeriaid sydd mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu risg o dlodi tanwydd



23.1 miliwn o ad-daliadau biliau ynni

Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni

Cynllun effeithlonrwydd ynni yw'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni ('ECO'), a gyflwynwyd gyntaf yn 2013. Mae ECO yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyflenwyr ynni mawr i roi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith ar gyfer safleoedd domestig. Mae'n canolbwyntio ar fesurau inswleiddio a gwresogi ac yn cefnogi grwpiau defnyddwyr sydd ar incwm isel ac sydd mewn sefyllfa fregus, gan helpu i gyflawni ymrwymadau tlodi tanwydd y llywodraeth. Cafodd cynllun ECO3 ei agor yn 2018, a'i gau ar 31 Mawrth 2022, ar ôl rhoi mwy na 930,000 o fesurau ar waith yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod y flwyddyn, bu Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddatblygu ECO4, a bwriedir i'r rhwymedigaeth fod mewn grym o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2026. Er y bu rhywfaint o oedi deddfwriaethol ac oedi mewn prosesau datblygu, mae Ofgem wedi drafftio canllawiau cyflwyno interim, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. Mae i ECO4 ffocws gwahanol (o gymharu ag ECO3), gyda dull 'tŷ cyfan' er mwyn sicrhau y caiff y caiff eiddo eu gwella er mwyn ennill isafswm sgôr effeithlonrwydd ynni.

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Mae'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes hefyd yn parhau i roi cymorth gyda chostau ynni i'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu risg o dlodi tanwydd, yn bennaf ar ffurf ad-daliad o £150 (wedi'i gynyddu o £140 eleni).

Cynlluniau trydan adnewyddadwy

Cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy:



26,599 o orsafoedd cynhyrchu yn rhan o'r cynllun ym mis Mawrth 2021



35.4 GW o gapasiti trydan adnewyddadwy wedi'i achredu ym mis Mawrth 2021



80.3 TWh o gyfanswm y cyflenwad o ffynonellau adnewyddadwy wedi'i gynhyrchu¹ yn ystod 2020-21

Yn ystod oes y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan hyd at fis Mawrth 2021:



869,976 o osodiadau achrededig



£11.08 biliwn o daliadau wedi'u gwneud i gynhyrchwyr ynni

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Lansiwyd y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn 2002 fel un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau trydan adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cefnogi ~30% o'r trydan adnewyddadwy a gyflenwir yn y DU; sy'n sylweddol uwch na'r 3% pan ddechreuodd. Caiff prosesau cynhyrchu ynni adnewyddadwy carbon isel ar raddfa lai eu cefnogi'n bennaf drwy'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, sy'n gwneud taliadau i gyfranogwyr sy'n gosod gosodiadau cynhyrchu trydan, fel paneli ffotofoltäig.

Er bod y ddau gynllun bellach wedi rhoi'r gorau i dderbyn ymgeiswyr newydd, bydd Ofgem yn parhau i'w gweithredu nes i'r holl daliadau a thystysgrifau cymwys gael eu cyflwyno. Bydd tystysgrifau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn parhau i gael eu cyflwyno tan fis Mawrth 2037, a gwneir taliadau Tariff Cyflenwi Trydan hyd at fis Mawrth 2040.

¹ Cyfwerth â 31% o gyflenwad y DU

Gwaith Rheoleiddio Ofgem



Dyfodol Manwerthu - Rhaglen newid a gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd cysylltiedig

Mae defnyddwyr yn dod i gysylltiad â'r system ynni yn gyntaf oll drwy'r farchnad fanwerthu. Nod Ofgem yw bod y farchnad fanwerthu yn sicrhau canlyniadau da i bob defnyddiwr, p'un a ydynt yn ymgysylltu i wneud penderfyniadau gweithredol i newid eu cyflenwr neu eu tariff ai peidio. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau marchnad deg sy'n gweithredu ac sy'n cyflenwi cynhyrchion sy'n diwallu eu hanghenion, a sbarduno gwelliannau sylweddol yn y mesurau i ddiogelu defnyddwyr.

Yn ystod 2021-22, heriwyd y nod hwn gan effaith cynnydd cyflym mewn prisiau nwy cyfanwerthol, a achosodd gryn dipyn o darfu ar y farchnad a nifer sylweddol o achosion o gyflenwyr yn ymadael â'r farchnad, ac a waethygodd y pwysau o ran prisiau ar ddefnyddwyr ynni.

Aeth Ofgem ati i gynnal adolygiad cyflym o'i rhaglen waith ar gyfer 2021-22 a'i hailflaenoriaethu, er mwyn canolbwyntio ar ddiogelu defnyddwyr ac uniondeb y farchnad mewn ymateb i'r cynyddiadau digysail hyn mewn prisiau ynni. Ymhlith y gweithgareddau diwygiedig roedd cyfres o fesurau newydd i hybu cadernid ariannol yn y sector ynni, gan gynnwys datblygu profion straen newydd i gyflenwyr, a datblygu asesiadau cydymffurfiaeth ar gyfer y farchnad gyfan a ddechreuodd ym mis Ionawr 2022.

Mae Ofgem yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarganfod pa ddiwygiadau pellach y bydd eu hangen er mwyn mynd ati yn y ffordd orau bosibl i sicrhau marchnad fanwerthu a fydd yn cynnig prisiau teg i ddefnyddwyr, yn cefnogi'r broses o bontio i sero net am y gost isaf, yn diogelu defnyddwyr mewn ffordd effeithiol ac yn gallu gwrthsefyll newid.

Cyflawni rhaglenni newid strategol

Cyflenwyr yn darparu cyflenwad ynni sefydlog a gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr; defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfa fregus, yn cael eu trin yn deg gan gyflenwyr

Cyhoeddodd Ofgem lythyr agored i'r diwydiant ynni ym mis Hydref 2021, gan nodi newidiadau y bydd yn eu gwneud ar unwaith i amodau trwyddedu a diwygiadau ehangach i fframweithiau rheoleiddio. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd cynllun gweithredu ar gyfer cadernid ariannol ym mis Rhagfyr.

Er mwyn ymateb i'r cynyddiadau digysail hyn mewn prisiau ynni, mae Ofgem wedi gwneud y canlynol:

Diwygio model economaidd a model busnes cyflenwyr heb gronfeydd cyfalaf digonol wrth gefn

Drwy lacio'r model rheoleiddio ar gyfer trwyddedu cyflenwyr ynni yn y 2010au, cyflawnwyd y nod o'i gwneud hi'n haws i gyflenwyr newydd ymuno â'r farchnad, a llwyddwyd i gynyddu cystadleuaeth yn y farchnad fanwerthu, ond gwnaeth gormod o'r cyflenwyr newydd ddilyn modelau busnes anghynaliadwy ac ymrwymo cyfalaf annigonol i allu gwrthsefyll digwyddiadau annisgwyl.

Yn sgil pwysau diweddar ar y farchnad, mae nifer o gyflenwyr a oedd wedi'u cyfalafu'n annigonol wedi ymadael â'r farchnad. Ymhlith diwygiadau Ofgem mae cynigion i glustnodi ardollau ynni adnewyddadwy a balansau credyd cwsmeriaid (gan gynnwys argymhellion o'r Adolygiad o Drwyddedu Cyflenwyr sy'n dal i fynd rhagddo) gyda'r bwriad o feithrin cadernid ariannol a mesurau rheoli ehangach, i'w rhoi ar waith yn 2022-23. Hefyd, ymatebodd Ofgem drwy wneud y canlynol:

- cyflwyno gofyniad i gyflenwyr sicrhau bod pob tariff ar gael i gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol
- cyflwyno tâl sefydlogi'r farchnad er mwyn cymell rhagfantoli cyfrifol gan gyflenwyr a lleihau'r risg o achosion costus o gyflenwyr yn ymadael â'r farchnad pan fydd prisiau'n gostwng.
- atal cyflenwyr newydd rhag ymuno â'r farchnad dros dro
- estyn cyfnod asesu ceisiadau newydd am drwydded, er mwyn gallu cynnal asesiad mwy trwyadl o fodelau busnes ymgeiswyr, eu hadnoddau a'u haddasrwydd i ymuno â'r farchnad a gweithredu ynddi.



Datblygu fframwaith rheoleiddio ariannol cadarn a'i roi ar waith

Mae Ofgem wedi cyflwyno rheoliadau ariannol o'r brif i lawr er mwyn sicrhau bod cyflenwyr ynni:

- wedi rhoi trefniadau rheoli risg digonol ar waith a bod ganddynt ddigon o gyfalaf ar gael i reoli risgiau rhesymol yn y farchnad
- wedi rhoi prosesau llywodraethu addas ar waith
- yn cael eu rhedeg gan arweinwyr cymwys a phriodol.

Mae Ofgem wedi symud tuag at safbwynt mwy rhagweithiol ynghylch rheoleiddio a chydymffurfiaeth, gan ddatblygu profion straen ac asesiadau cydymffurfiaeth ar gyfer y farchnad gyfan a gaiff eu rhoi ar waith yn ystod 2022-23, er mwyn profi iechyd ariannol cyflenwyr, ac a ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau i ddefnyddwyr, yn rheolaidd. Bydd hyn yn galluogi Ofgem i ymateb yn gyflymach drwy ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfiaeth, a chomau gorfodi lle bo hynny'n briodol. Ym mis Ionawr 2022, gwnaeth Ofgem hefyd benderfyniadau er mwyn atgyfnerthu asesiadau a'i gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gyflwyno adroddiadau ychwanegol sy'n ystyried gweithgareddau masnachol sylweddol, megis gwerthiannau masnach neu newidiadau i uwch-bersonél, er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn briodol.

Diwygio'r cap ar brisiau er mwyn gwella ei allu i wrthsefyll prisiau ynni uchel ac anwadal

Ar ôl ymgynghori, gwnaethom gynnig ym mis Mai 2022 ddiweddarau'r cap ar brisiau bob chwarter yn hytrach na dwywaith y flwyddyn. Daeth yr ail ymgynghoriad hwn i ben ym mis Mehefin, a byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad yn ddiweddarach eleni. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ddiwygiadau ac addasiadau er mwyn sicrhau y gall methodoleg y cap ar brisiau barhau i ddiogelu defnyddwyr ar adegau pan fydd prisiau'n anwadal, wrth i Ofgem fonitro newidiadau yn ymddygiad y farchnad ynni ac ymateb iddynt.

Defnyddwyr yn ymgysylltu ac yn manteisio ar farchnad fanwerthu gystadleuol a newid technolegol i gefnogi'r broses ddatgarboneiddio

Rhwydweithiau Gwres

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd BEIS ei bod yn bwriadu penodi Ofgem yn rheoleiddwr y Rhwydweithiau Gwres, ac ers hynny mae wedi ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rhwydweithiau gwres. Bydd hyn yn helpu'r sector rhwydweithiau gwres i dyfu a datgarboneiddio, gan sicrhau ar yr un pryd y caiff defnyddwyr eu diogelu rhag safonau gwael a phrisiau anghymesur. Ers y cyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2021, mae Ofgem wedi dechrau datblygu ein dull rheoleiddio, gan ystyried y ffyrdd gorau y gall dull rheoleiddio modern a digidol reoleiddio'r sector rhwydweithiau gwres sy'n tyfu, ac wedi gweithio'n agos gyda BEIS a Llywodraeth yr Alban i ddiffinio rhyngweithiadau rhwng cyfundrefn drwyddedu'r Alban a fframwaith BEIS.

Newid cyflenwr yn gyflymach ac mewn modd mwy dibynadwy

Nod y rhaglen newid cyflenwr yw lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i newid cyflenwr ynni, a lleihau nifer y prosesau newid sy'n methu, drwy fuddsoddi mewn systemau canolog ar gyfer y diwydiant. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd profion ar integreiddio'r system, profion defnyddwyr, a phroffion ar y broses o'r dechrau i'r diwedd. Ym mis Mawrth 2022, cyrhaeddodd y rhaglen ei cham pontio, cyn iddi gael ei rhoi ar waith yn llawn ym mis Gorffennaf 2022. Yn ystod 2021-22, cwblhaodd Ofgem yr holl ymgynghoriadau a oedd yn weddill, a datblygodd y newidiadau i godau a thrwyddedau er mwyn cefnogi'r broses weithredu.

Gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd

Cyflenwyr yn darparu cyflenwad ynni sefydlog a gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr

Drwy gydol 2021-22, bu Ofgem yn monitro sefyllfa ariannol cyflenwyr ynni manwerthol sydd mewn perygl o adael y farchnad yn ofalus, a rhoesom ein prosesau ar gyfer cyflenwyr sy'n ymadael â'r farchnad ar waith er mwyn diogelu mwy na 4 miliwn o ddefnyddwyr.


Ers mis Awst, 2021, mae 28 o gyflenwyr wedi ymadael â'r farchnad, yn sgil cynnydd mawr yng nghost ynni cyfanwerthol, gan effeithio ar tua 2.4 miliwn o gwsmeriaid. Methodd un cyflenwr mawr

hefyd, sef Bulb, gan olygu y bu angen i Ofgem, drwy gydweithio'n agos â'r llywodraeth, ddefnyddio ei phwerau o dan y Gyfundrefn Gweinyddu Arbennig (SAR) i ddiogelu 1.6 miliwn o gwsmeriaid.

Mae'r prosesau hyn wedi sicrhau, hyd yn oed pan fo cyflenwr yn methu, fod cwsmeriaid wedi cael eu trosglwyddo i gyflenwr ynni newydd heb ddim tarfu ar eu cyflenwad ynni, a bod balansau credyd aelwydddd wedi cael eu hanrhydeddu.

Defnyddwyr yn talu pris teg am ynni ac yn cael budd o hawliau a mesurau diogelu

Cap ar Brisiau Tariffau Diofyn



Mae'r cap ar brisiau yn sicrhau mai dim ond pris teg y gall cyflenwyr ynni ei godi ar gwsmeriaid sydd ar eu tariff diofyn, yn seiliedig ar gost wirioneddol cyflenwi trydan a nwy – a dim mwy. Mae'r cap ar brisiau wedi arbed ~£1 biliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr ers iddo gael ei gyflwyno yn 2019. Gwnaeth y cap ar brisiau hefyd ohirio a lliniaru effaith y cynnydd mewn prisiau ynni ond, serch hynny, mae wedi codi i lefel uwch nag erioed. Roedd y newidiadau i'r cap ar brisiau yn ystod y 12 mis diwethaf fel a ganlyn:

- Ar 1 Ebrill 2021, cododd y cap ar brisiau 9% i £1,138 er mwyn adlewyrchu cynnydd mewn costau cyfanwerthol, costau rhwydweithiau a pholisïau, ac addasiad ar gyfer COVID-19.
- Ar 1 Hydref 2021, cododd y cap ar brisiau 12% i £1,277. Cododd costau cyfanwerthol o ganlyniad i gyfuniad o fewnforio llai o gyflenwad o nwy yn sgil yr adferiad byd-eang ar ôl COVID-19, a chynnydd yn y galw yn Asia a'r cyfnodau oer estynedig dros y gaeaf.
- Ar 1 Ebrill 2022, cododd y cap ar brisiau 54% i £1,971. Costau cyfanwerthol oherwydd llawer o alw er mwyn ail-lenwi lefelau isel o nwy wedi'i storio ledled Ewrop, costau ychwanegol yr aeth cyflenwyr iddynt, a chynnydd mewn costau rhwydwaith, a achoswyd yn sgil adennill costau ardoll Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall.



Cydymffurfiaeth Manwerthwyr

Mae Ofgem wedi parhau i ddwyn cyflenwyr ynni manwerthu i gyfrif, er mwyn sicrhau bod y farchnad ynni yn parhau i fod yn deg i ddefnyddwyr. Gwnawn hyn drwy ymgysylltu â chyflenwyr drwy drefniadau rheoli cyfrifon effeithiol, a hefyd gyda phartion eraill er mwyn casglu gwybodaeth am berfformiad cyflenwyr, gan ymyrryd lle bo angen a hyrwyddo arferion da. Pan ddeuir o hyd i risgiau neu broblemau, bydd Ofgem yn cyflwyno 'Ceisiadau am Wybodaeth' ffurfiol. Ar gyfer y cyfnod 2021-22, mae Ofgem wedi gwneud y canlynol:

- Ymchwilio i 69 o achosion newydd o ddiffyg cydymffurfio posibl, y symudodd 25 ohonynt ymlaen i'r cam ymgysylltu â chyflenwyr ynghylch cydymffurfio.
- Cwblhau 29 o achosion o ymgysylltu ynghylch cydymffurfio, mewn perthynas â 25 o gyflenwyr gwahanol, a arweiniodd at iawndaliadau i gwsmeriaid, taliadau unioni i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni, neu'r ddau.
- Sicrhau ad-daliadau, iawndal a thaliadau unioni gwerth dros £1.9 miliwn o gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt, gyda chyfanswm gwerth taliadau unioni o £4.57 miliwn.
- Ymgysylltu'n agos â phob cyflenwr a benodwyd drwy'r broses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall (SoLR) er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid newydd yn cael eu cofrestru cyn gynted ac mor effeithlon â phosibl, ac er mwyn datrys unrhyw broblemau sydd gan ddefnyddwyr yn sgil penodi'r SoLR.

Nodir manylion am ymchwiliadau a gweithgarwch gorfodi yn Atodiad II i'r adroddiad hwn.

Mwy o ddefnyddwyr yn rheoli eu defnydd o ynni mewn ffordd hyblyg drwy fesuryddion deallus

Setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan

Bydd setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan (MHHS) yn ffordd hanfodol hwyluso hyblygrwydd drwy gymell cyflenwyr i gynnig tariffau a chynhyrchion newydd sy'n annog defnydd mwy hyblyg o ynni ac yn helpu defnyddwyr i ostwng eu biliau. Yn dilyn y cyhoeddiad bod Ofgem wedi penderfynu bwrw

ymlaen â model gweithredu MHHS ym mis Ebrill 2021, cafodd y sail reoleiddiol ar gyfer rhoi'r rhaglen ar waith ei chyhoeddi ym mis Awst a chafodd y rhwymedigaethau ar gyfer trwyddedau a chodau eu diweddarau ym mis Hydref 2021.

Goruchwyllo'r broses o gyflwyno mesuryddion deallus

Mae gan Ofgem oruchwyliaeth reoleiddiol dros y broses o gyflwyno mesuryddion deallus a gaiff ei chyflawni gan gyflenwyr ynni. Mae mesuryddion deallus yn elfen allweddol o'r gwaith o gyflawni amcanion y Cynllun Systemau Deallus a Hyblygrwydd, a luniwyd ar y cyd gan Ofgem a BEIS ac a fydd yn galluogi defnyddwyr i newid eu patrymau defnyddio er mwyn cyd-fynd â'r adegau pan fydd trydan rhatach a charbon isel ar gael, drwy roi mwy o reolaeth iddynt dros eu defnydd o ynni. O ystyried y tarfu ar y farchnad ynni yn ystod y flwyddyn, caniatodd BEIS estyniad pellach er mwyn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer y broses, a fydd bellach yn dechrau yn ystod blwyddyn adrodd 2022.

System rheoli prisiau flynyddol DCC a'r adolygiad o'r system rheoli prisiau

Mae'r Data Communications Company (DCC) wedi'i gontractio i gynnal y rhwydwaith cyfathrebu ar gyfer mesuryddion deallus ledled Prydain Fawr. Mae Ofgem yn rheoleiddio DCC fel unig ddarparwr drwy ddefnyddio system rheoli prisiau er mwyn sicrhau gwerth am arian. Yn ystod 2021, ymgysylltodd Ofgem â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau posibl i fframwaith rheoleiddio DCC, ond cafodd hyn ei oedi hefyd oherwydd y tarfu ar y farchnad. Cyhoeddwyd penderfyniad blynyddol Ofgem ar gostau DCC ym mis Hydref 2021, a gwrthodwyd gwerth £1.16 miliwn o gostau yr aed iddynt a £317.22m o gostau a ragwelwyd. Caiff y rhain eu trosglwyddo'n ôl i'r diwydiant ac, yn eu tro, i'r defnyddwyr.

² Mae'r lefel a ddangosir ar gyfer y cap yn cynrychioli cwsmer tanwydd dwbl sy'n talu drwy ddefnyddio uniongyrchol, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r Gwerthoedd Defnydd Domestig Nodweddiadol (TDCVs) diweddaraf.



Seilwaith Carbon Isel - Rhaglen newid strategol a gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd cysylltiedig

Er mwyn pontio i sero net, bydd angen trawsnewid y sector ynni yn sylweddol, gan gynnwys y seilwaith ffisegol sy'n cludo gwres a phŵer i'n cartrefi ac i ddiwydiannau. Bydd y trawsnewid hwn yn galw am lawer o fuddsoddiad. Yn ogystal â gwerth £30 biliwn o fuddsoddiad a gymeradwywyd yn ddiweddar yn systemau rheoli prisiau rhwydweithiau trawsyrtrydan a nwy Ofgem, cyflwynwyd amrywiaeth o dulliau newydd, gan gynnig hyblygrwydd i gymeradwyo mwy na £10 biliwn o wariant sero net dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hefyd angen gwariant ychwanegol ar rwydweithiau dosbarthu trydan, prosiectau cynhyrchu pŵer newydd a defnyddio technolegau carbon isel, megis pypiau gwres; ac ar rwydweithiau trydan y tu hwnt i systemau rheoli prisiau Ofgem, megis cysylltiadau a rhyng-gysylltwyr gwynt ar y môr.

Yn ystod 2021-22, chwaraeodd Ofgem ran flaenllaw yn y gwaith o hwyluso'r buddsoddiad hwn a sicrhau ei fod yn cael ei wario'n effeithlon. Cyflawnodd y rhaglen Seilwaith Carbon Isel flwyddyn gyntaf rhaglen tair blynedd i wneud y canlynol:

- trawsnewid y rhwydwaith trydan ar y tir mewn modd effeithlon, gan gysylltu a galluogi

ffynonellau cynhyrchu carbon isel newydd (e.e. cynhyrchu gwynt ar y môr) er mwyn cyrraedd targedau sero net

- cefnogi'r broses o ehangu'r rhwydwaith a'r rhyng-gysylltwyr ar y môr, gan gynnwys hwyluso dull cydgysylltiedig o ddatblygu rhwydweithiau ar y môr
- rhoi cyngor a datblygu dulliau rheoleiddio er mwyn galluogi buddsoddiad mewn dal, defnyddio a storio carbon, cludo a storio a phŵer niwclear newydd, lle bo'r llywodraeth yn gofyn am hynny
- paratoi rhwydweithiau nwy ar gyfer pontio i ddyfodol carbon isel, gan helpu i ddeall dichonoldeb a chostau hydrogen yn y grid nwy
- datblygu dulliau rheoleiddio newydd ac arferion gorau er mwyn rheoli risgiau seiber i seilwaith ynni.

Mae'r gweithgareddau y mae Ofgem wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2021-22 wedi cyflawni'r pethau canlynol ac wedi cyfrannu at ganlyniadau ein fframwaith strategol fel a ganlyn:

Cyflawni rhaglenni newid strategol

Caiff systemau rheoli prisiau effeithiol ar gyfer rhwydweithiau ar y tir eu rhoi ar waith

Yn ystod 2021-22, parhaodd Ofgem i ddatblygu'r system rheoli prisiau nesaf ar gyfer dosbarthu trydan (RIIO-2 ED), a fydd yn pennu'r allbynnau ar gyfer y 14 o Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu (DNOs) yn y DU. Mae'r system rheoli prisiau yn nodi'r hyn y bydd angen i'r DNOs ei gyflawni ar gyfer ei defnyddwyr a'r referniw y bydd ganddynt hawl i'w gasglu.

Yn dilyn her annibynnol gan Grŵp Herio RIIO-2 a Grwpiau Ymgysylltu â Defnyddwyr (CEGs), cyflwynodd y DNOs eu cynlluniau busnes terfynol i gael eu hasesu ym mis Rhagfyr 2021. Cafodd adroddiadau terfynol y CEGs ar y cynlluniau hyn eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2022, ac wedyn cyhoeddwyd adroddiad terfynol Grŵp Herio RIIO-2 ym mis

Chwefror 2022. Yr adroddiadau hyn a'r dystiolaeth ehangach gan randdeiliaid ar y cynlluniau terfynol a lywiodd y gyfres o Wrandawiadau Agored cyhoeddus a gynhaliwyd gyda phob un o'r DNOs ym mis Mawrth 2022. Bydd Ofgem yn cyhoeddi ei Phenderfyniadau Drafft yn ystod haf 2022 ac, yn dilyn cyfnod o ymgynghori, bydd yn cyhoeddi ei Phenderfyniadau Terfynol erbyn mis Rhagfyr 2022.

Mae buddsoddiad yn rhwydweithiau'r dyfodol yn cynnig gwerth am arian ac yn sbarduno canlyniadau sero net

Adolygu polisiâu rhyng-gysylltwyr

Yn ystod haf 2021, ymgynghorodd Ofgem ar argymhellion a chynigion ar gyfer ei dull gweithredu mewn perthynas â rhyng-gysylltwyr trydan newydd,



er mwyn cyflawni uchelgais y llywodraeth o sicrhau gwerth 18GW (gigawat) o ryng-gysylltiad erbyn 2030, a helpu i hwyluso uchelgeisiau sero net gwerth hyd at 50GW o wynt ar y môr erbyn 2030. Mae penderfyniad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn nodi y bydd angen i fuddsoddiad wedi'i dargedu o'r fath ar gyfer rhyng-gysylltwyr, gan gynnwys rhyng-gysylltwyr amlbwrpas (MPIs), fod yn seiliedig ar waith dadansoddi sydd wedi'i integreiddio o fewn prosesau cynllunio drwy'r system gyfan. Mae Ofgem wedi ymrwmo i gynnal trydydd cyfnod gwneud cais Cap a Therfyn Isaf a rhaglen beilot MPI yn ystod 2022.

Adolygiad o Rwydweithiau Trawsyrru ar y Môr

Lansiwyd yr Adolygiad o Rwydweithiau Trawsyrru ar y Môr (OTNR) ym mis Gorffennaf 2020, a'i nod yw sicrhau y caiff prosesau trawsyrru a rhyng-gysylltu ar y môr eu cydgysylltu'n well, gyda'r bwriad o daro gwell cydbwysedd rhwng costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, er mwyn helpu i gyflawni 50GW o wynt ar y môr erbyn 2030. Cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021 er mwyn ceisio barn pobl ar lefelau uwch o gydgysylltu er mwyn cyflawni amcanion OTNR, gan ganolbwyntio ar dair prif ffrwd waith:

- eysfleoedd cynnar i hwyluso buddsoddiad rhagflaenorol
- llwybr at 2030, gan ganolbwyntio ar fodelau busnes er mwyn cydgysylltu asedau trawsyrru ar y môr ar gyfer prosiectau Scotwind a Phedwerydd Cylch Prydlesu Ystad y Goron
- sut y gellir addasu'r fframwaith trwyddedu presennol i fanteisio ar MPIs.

Gwnaeth Ofgem benderfyniadau 'o fwriad' ar bob ffrwd waith yng ngwanwyn 2022, a bydd yn gwneud penderfyniadau terfynol ac yn eu rhoi ar waith o haf 2022 ymlaen.

Adolygiad Cynllunio Rhwydweithiau Trawsyrru Trydan

Ym mis Tachwedd 2021, gwnaeth Ofgem hefyd gyhoeddi ymgynghoriad³ i ystyried yr angen i wella gwaith cynllunio rhwydweithiau trawsyrru trydan yn well, er mwyn helpu i gyrraedd targedau datgarboneiddio.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynnig i gyflwyno model Cynllunio Rhwydweithiau Strategol Canolog newydd, dan arweiniad y Gweithredwr System annibynnol. Cyhoeddir penderfyniad ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Cefnogi'r broses o bontio i sero net

Prosiectau cynhyrchu trydan niwclear newydd

Parhaodd Ofgem i roi cyngor ar y gwaith o ddylunio model sail asedau a reoleiddir (RAB) ar gyfer prosiectau niwclear newydd a'i roi ar waith. Bydd model RAB yn sail i fframwaith rheoleiddio economaidd ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau cynhyrchu trydan niwclear newydd. Ym mis Mawrth 2022, pasiwyd y Ddeddf Ynni Niwclear (Ariannu), a fydd yn golygu y bydd modd rhoi model RAB ar waith, ac sy'n cadarnhau rôl Ofgem fel y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y sector. Bydd Ofgem yn parhau i weithio gyda BEIS i ddatblygu model gweithredu ymarferol ar gyfer cyfundrefn RAB yn 2022-23.

Dal, defnyddio a storio carbon

Gwnaeth Ofgem hefyd barhau i weithio gyda BEIS i roi cyngor ar y broses o ddylunio modelau RAB ar gyfer rhwydweithiau cludo a storio ar gyfer dal, defnyddio a storio carbon, a'u rhoi ar waith, er mwyn gallu gwireddu uchelgais BAIS o sefydlu o leiaf ddau glwstwr diwydiannol ar gyfer dal, defnyddio a storio carbon erbyn canol y 2020au. Ym mis Ionawr 2022, penderfynodd BEIS mai Ofgem oedd yr endid mwyaf addas i ymgymryd â rôl y rheoleiddiwr economaidd. Disgwylir i BEIS gyflwyno deddfwriaeth newydd yn ystod haf 2022, er mwyn sefydlu fframwaith rheoleiddio economaidd newydd ar gyfer cludo a storio carbon deuocsid.

Hydrogen

Cyhoeddodd Ofgem benderfyniad 'o fwriad' ym mis Mawrth 2022, i ariannu dwy astudiaeth ddylunio fanwl, er mwyn helpu i greu pentref a wresogir gan hydrogen erbyn 2025. Os cânt eu cymeradwyo, bydd yr astudiaethau'n helpu i gasglu'r dystiolaeth y bydd eu hangen i'r llywodraeth benderfynu a ddylid hyrwyddo hydrogen, wedi'i gludo drwy'r rhwydwaith nwy presennol, i ddatgarboneiddio gwres mewn adeiladau.

³ Ymgynghoriad ar ganfyddiadau cychwynnol ein Hadolygiad o Gynllunio Rhwydwaith Trawsyrru Trydan | Ofgem

Gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd

Mae'r rhwydweithiau ar y tir sydd eisoes yn bodoli yn cynnig gwerth am arian ac yn sbarduno buddsoddiad mewn sero net

Gweithredu a Monitro RIIO-2

Cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei Benderfyniadau Terfynol ynghylch apeliadau RIIO-2 ar gyfer Systemau Rheoli Prisïau Dosbarthu a Thrawsyrro Nwy ym mis Hydref 2021, gan gadarnhau'r mwyafrif o'r materion a oedd yn destun apêl, a chafodd y canfyddiadau eu rhoi ar waith yn y setliad RIIO-2 terfynol.


Bydd perchenogion rhwydweithiau a Gweithredwr y System Drydan (ESO), a reoleiddir drwy RIIO-2, yn

cyflwyno adroddiadau ar eu perfformiad yn erbyn y systemau rheoli prisïau, ar gyfer y flwyddyn 2021-22, i Ofgem am y tro cyntaf yn 2022.

Cau a Monitro RIIO-1

O ystyried natur ansicr rhai elfennau o'r systemau rheoli prisïau, dim ond pan fydd yr holl gostau a pherfformiad gwirioneddol yn hysbys y gellir setlo rhai meysydd. Ym mhob sector, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriadau ar y ffordd y byddai RIIO-1 yn cael ei chau. Cyhoeddwyd crynodebau blynyddol o berfformiad hefyd, gan gwmpasu meysydd fel perfformiad yn erbyn allbynnau, buddsoddiadau cwmnïau rhwydwaith ac effeithiau biliau.

Y Gronfa Arloesedd Strategol



Yn ystod y flwyddyn, bu Ofgem yn gweithio mewn partneriaeth ag Innovate UK, sy'n rhan o UK Research & Innovation, i gyflwyno'r Gronfa Arloesedd Strategol i gefnogi'r ESO a'r sectorau trawsyrro trydan a thrawsyrro a dosbarthu nwy, er mwyn datblygu prosiectau arloesol sydd â'r potensial i gyflymu'r broses o bontio rhwydweithiau ynni i sero net. Disgwylir i'r Gronfa fuddsoddi hyd at £450 miliwn ar arloesedd mewn rhwydweithiau ynni rhwng 2021 a 2026. Yn y flwyddyn ariannol newydd, caiff prosiectau eu hasesu er mwyn cael £500,000 i ddatblygu eu syniadau.

Mae cwmnïau rhwydwaith yn seibergadarn

Yr Awdurdod Cymwys Seiber

Drwy rôl Awdurdod Cymwys ar y cyd â BEIS, parhaodd Ofgem i gynnal rhaglen o arolygiadau Rheoleiddio Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) er mwyn asesu lefelau seibergadarnid ym mhob rhan o'r sector, gyda'r bwriad o gynnal a gwella safonau. Ym mis Hydref, cyhoeddodd Ofgem gais am fewnbwn ynghylch fersiwn

ddiwygiedig o ganllawiau NIS ar gyfer gweithredwyr nwy a thrydan ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi, ac ymgynghoriad ar ganllawiau gorfodi a pholisi cosbau drafft ar gyfer NIS. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth ar y prosesau a'r gweithdrefnau y bydd Ofgem yn eu rhoi ar waith wrth gymryd camau gorfodi o dan y Rheoliadau NIS. Daeth y canllawiau wedi'u diweddarau yn weithredol ym mis Mawrth 2022.

Mae'r rhwydweithiau ar y môr sydd eisoes yn bodoli yn cynnig gwerth am arian ac yn sbarduno buddsoddiad mewn sero net


Tendrau Perchenogion Trawsyrro Trydan ar y Môr (OFTO)

Mae cyfundrefn trawsyrro ar y môr Ofgem yn sail i dargedau ynni adnewyddadwy'r DU, drwy gysylltu safleoedd cynhyrchu trydan ar y môr â'r grid ar y tir. Mae proses dendro gystadleuol yn rheoli'r broses o werthu asedau trawsyrro ar y môr a rhoi trwyddedau cynhyrchu, er mwyn sicrhau seilwaith newydd am gostau isel.

Ym mis Mehefin 2021, lansiodd Ofgem yr Wythfed Cylch Tendro i ddarpar gynigwyr ar gyfer cysylltu Prosiect Fferm Wynt Hornsea 2 (cynhwysedd gosodedig 1,368 MW), a disgwyliar iddo fod yn werth mwy nag £1.2 biliwn. Ym mis Ionawr 2022, lansiwyd y Nawfed Cylch Tendro ar gyfer asedau trawsyrru Seagreen Cam 1, a disgwyliar iddo fod yn werth rhwng £0.5 biliwn ac £1 biliwn.

Rhyng-gysylltwyr

Mae Prydain Fawr wedi'i chysylltu â gwledydd cyfagos drwy rwydwaith tanfor o geblau – rhyng-gysylltwyr – sy'n ein galluogi i gyfnwied trydan yn rhyngwladol, gan helpu i leihau prisiau cyfanwerthol a chael gafael ar amrywiaeth ehangach o ffynonellau trydan carbon isel.



Yn 2021-22, dechreuodd rhyng-gysylltydd NSL i Norwy weithredu, gan gynyddu cynhwysedd rhyng-gysylltwyr Prydain Fawr o 6GW i 7.4GW. Mae Ofgem yn rheoleiddio rhyng-gysylltwyr drwy ei fframwaith rheoleiddio Cap a Therfyn Isaf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed y cynnydd canlynol er mwyn cynyddu cynhwysedd rhyng-gysylltwyr:

- Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad ar gyfer yr Asesiad Prosiect Terfynol o ddatblygiad rhyng-gysylltydd NeuConnect.
- Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth Ofgem hefyd gyhoeddi ymgynghoriad ar ei Hadolygiad ar ôl Adeiladu o rhyng-gysylltydd IFA2 i Ffrainc, sy'n pennu'r gyfundrefn reoleiddio derfynol ar gyfer y prosiect.
- Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ar yr Asesiad Prosiect Terfynol o brosiect Greenlink i Lwerddon, a alluogodd y prosiect hwnnw i wneud penderfyniad buddsoddi terfynol a dechrau ar y gwaith adeiladu yn ystod gwanwyn 2022. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, Greenlink fydd y trydydd cysylltiad â marchnad drydan Lwerddon.
- Yn 2015, rhoddodd Ofgem ganiatâd ar gyfer cyfundrefn Cap a Therfyn Isaf mewn egwyddor ar gyfer datblygiad rhyng-gysylltydd FAB Link, a gafodd ei ohirio wedyn tan 2020. Cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ym mis Mawrth 2022 yn nodi ailasesiad achos anghenion y datblygiad, sy'n dangos – ar amod – ei bod yn debygol bod y cysylltiad yn dal er budd defnyddwyr ym Mhrydain Fawr nawr ac yn y dyfodol.



Hyblygrwydd y Gadwyn Gyfan - Rhaglen Newid Strategol a gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd cysylltiedig

Caiff y potensial ar gyfer hyblygrwydd ynni i leihau costau wrth i ni bontio i system sero net ei gydnabod yn eang. Wrth i gyfran prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy amrywiadwy gynyddu, ac wrth i'r galw am drydan ym meysydd gwres a thrafnidiaeth dyfu, bydd angen i'r system drydan ddod yn fwy hyblyg er mwyn cadw costau'r system mor isel â phosibl. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Ofgem a BEIS y Cynllun Systemau Deallus a Hyblygrwydd ar y cyd.

Yn ôl y Cynllun, mewn system drydan gwbl hyblyg, gallai pob adnodd cysylltiedig gyfrannu ei botensial llawn er mwyn diwallu anghenion y system a sicrhau arbedion costau gwerth hyd at £10 biliwn y flwyddyn yn 2050, a hynny'n bennaf drwy osgoi buddsoddi mewn safleoedd cynhyrchu a chynhwysedd rhwydweithiau.

Er mwyn hwyluso a chefnogi'r cynnydd hwn mewn hyblygrwydd, bydd angen i fesuryddion deallus fod wedi cael eu gosod yn eang (gweler yr adran ar Waith Cyflawni Rheoleiddiol Craidd Dyfodol Manwerthu) a bydd angen rhoi'r setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan ar waith er mwyn cefnogi tariffau hyblyg a chynhyrchion newydd i ddefnyddwyr.

Er mwyn helpu i sicrhau system fwy hyblyg, cyflawnodd Ofgem y nodau canlynol yn 2021-22:

- cyhoeddi Cynllun Systemau Deallus a Hyblygrwydd wedi'i ddiweddar ar y cyd â BEIS, gan nodi'r camau y bydd angen eu cymryd mewn pedwar maes allweddol: hwyluso hyblygrwydd i ddefnyddwyr, chwalu rhwystrau rhag hyblygrwydd ar y grid, diwygio marchnadoedd er mwyn gwobrwyo hyblygrwydd a digideiddio'r system
- bwrw ymlaen â chamau i integreiddio ffynonellau ynni gwasgaredig llai (gan gynnwys cerbydau trydan a phympiau gwres) er mwyn helpu i ddod â'r ochr galw i mewn i system ynni hyblyg
- cysoni diwygiadau i daliadau (Taliadau Mynediad a Thaliadau sy'n Edrych Tuag at y Dyfodol) â gofynion system fwy hyblyg
- annog ffyrdd o fod yn hyblyg drwy'r system gyfan ymhlith partion a reoleiddir.

Mae'r gweithgareddau y mae Ofgem wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2021-22 wedi cyflawni'r pethau canlynol ac wedi cyfrannu at ganlyniadau ein fframwaith strategol fel a ganlyn:

Cyflawni Rhaglenni Newid Strategol

Caiff statws sero net costeffeithiol ei gefnogi drwy hyblygrwydd, gan gynnal sicrwydd cyflenwad

Diwygiadau hyblyg i'r farchnad gyfanwerthu

Datblygwyd dwy brif elfen o'r Cynllun Systemau Deallus a Hyblygrwydd – cyhoeddwyd cais am dystiolaeth ar Gyfleusterau Storio Trydan Graddfa Fawr a Chyfnod Hir ym mis Ebrill 2022, a rhoddwyd cefnogaeth i BEIS wrth iddi gynnal Adolygiad o Drefniadau'r Farchnad Drydan i ystyried a yw trefniadau'r farchnad gyfanwerthu yn addas ar gyfer sero net.

Gweithredwr System Ddosbarthu a rheoliadau system gyfan

Mae Ofgem wedi gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu enghreifftiau o rolau a swyddogaethau Gweithredwyr Systemau Dosbarthu a llywodraethu lleol, gan nodi

opsiynau i'w hystyried yn ddiweddar mewn cais am fewnbwn. Bydd yr adborth hwn yn ein helpu i ddatblygu'r sefydliadau cywir i gydgyssylltu a rheoli'r broses o weithredu systemau lleol a gwasanaethau hyblyg.

Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd ein penderfyniad i roi amod trwyddedu Systemau Trydan Cyfan ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu, Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol a Pherchennog Trawsyrro trydan ar y tir gydgyssylltu er budd defnyddwyr ynni.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd gweithdai i Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu yn ystod haf 2021 er mwyn helpu i ddatblygu metrigau a chymhellion priodol ar gyfer cyflwyniadau dosbarthu trydan (ED2) rheoli prisiau RIIO-2, ac ymgynghoriad ar set wedi'i diweddarau o gynigion ar gyfer asesu CLASS (Gwasanaeth Systemau Gweithredol Llwythi Cwsmeriaid) fel gwasanaeth cydbwysio yn ED2.



Cerbydau trydan

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Ofgem flaenoriaethau ar gyfer sut y byddwn yn cefnogi'r broses o gyflwyno cerbydau trydan ym Mhrydain, a sut y gall y broses honno sicrhau buddiannau llawn i ddefnyddwyr a'r amgylchedd, a lleihau cost y system ynni. Roedd hyn yn cynnwys pedwar maes gweithgarwch â blaenoriaeth:

- sicrhau bod y rhwydwaith yn barod ar gyfer cerbydau trydan
- lleihau rhwystrau i gysylltiad â'r rhwydwaith
- defnyddio gwefru clyfar
- Cerbyd i Grid a chefnogi cyfranogiad a diogelwch defnyddwyr.

Parhaodd Ofgem i weithio gyda chydweithwyr ym mhob rhan o'r llywodraeth hefyd, gan gynnwys y Swyddfa Cerbydau Dim Allyriadau, yr Adran Drafnidiaeth a BEIS, i gefnogi'r broses o gyflwyno seilwaith codi tâl ledled y DU, ar lefel leol (Cynllun Seilwaith Cerbydau Trydan Lleol) ac ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (Project Rapid).

Cydgysylltu Ewropeaidd

Yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, nid yw Ofgem yn aelod o'r Asiantaeth ar gyfer Cydweithrediad Rheoleiddwyr Ynni (ACER) mwyach. Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag ACER a Rheoleiddiwr Cyfleustodau Gogledd Iwerddon a fydd, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Comisiwn Ewropeaidd, yn caniatáu i Ofgem gydweithredu, darparu cyd-gymorth a chyfnewid gwybodaeth ag ACER, ar bynciau gan gynnwys sicrwydd cyflenwadau, datgarboneiddio nwy, ynni o'r môr, a rhwystro achosion o gamddefnyddio'r farchnad.

Parhaodd Ofgem i weithio gyda'r Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol eraill ledled Ewrop – drwy Gyngor y Rheoleiddwyr Ynni Ewropeaidd (CEER) – ar faterion sydd o fudd i bawb, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chefnogi sero net a sicrhau bod trefniadau trawsffiniol a system gyfan yn parhau.

Gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd

Mae trefniadau taliadau rhwydwaith effeithlon ar waith

Cynnal yr Adolygiad o Daliadau wedi'u Targedu a chymryd camau gweithredu o ran taliadau trawsyrru

Bob blwyddyn, mae defnyddwyr yn talu dros £10 biliwn i dalu am gostau asedau newydd a phresennol y rhwydwaith trydan ac i gadw cydbwysedd o ran y system drydan gymhleth. Er mwyn rheoli hyn, sefydlodd Ofgem yr Adolygiad o Daliadau wedi'u Targedu i sicrhau bod y taliadau gweddilliol sydd eu hangen i dalu am gostau gweithredu, cynnal a chadw ac uwchraddio'r grid trydan yn cael eu gwasgaru'n deg. Cadarnhaodd penderfyniad yr Adolygiad y dylai taliadau gweddilliol y rhwydwaith, gan gynnwys taliadau gweddilliol Galw'r Rhwydwaith Trawsyrru sy'n adennill llawer o gostau'r rhwydwaith trawsyrru, gael eu hadennill drwy daliadau sefydlog a godir ar ddefnyddwyr y rhoddir archeb derfynol iddynt.

Yn ystod hydref 2021, gwnaeth Ofgem 'gais am dystiolaeth' ar y graddau y mae angen diwygio taliadau defnydd system y rhwydwaith trawsyrru. Rhoddodd Ofgem ddiweddariad ym mis Chwefror 2022, a nododd ymrwymiad i ymgymryd â rhaglen sylweddol o waith ar ddiben a strwythur tymor hwy taliadau trawsyrru mewn system ynni sero net. Gofynnwyd i Weithredwr y System Drydan (ESO) arwain Tasgluoedd o dan drefniadau Taliadau'r Dyfodol i wella'r broses o godi tâl o dan y fframwaith cyfredol.

Penderfyniad yr Adolygiad Taliadau Sylweddol ar Fynediad

Datblygodd Ofgem ddiwygiadau pellach i drefniadau Taliadau a Mynediad yn 2021-22, ac ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd ein Penderfyniad Terfynol a'n Cyfarwyddyd ar yr Adolygiad Cod Sylweddol o ran Mynediad. Mae'r penderfyniad yn nodi newidiadau a fydd yn lleihau'r costau yr eir iddynt gan gwsmeriaid y mae angen gwaith uwchraddio rhwydwaith ehangach i'w cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu,



fel hybiau gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan, canolfannau fflyd neu fysiau, drwy symud rhai o'r costau sydd ynghlwm wrth wneud gwaith atgyfnerthu ychwanegol i'r rhwydwaith i'r taliadau rhwydwaith a delir gan bob defnyddiwr trydan yn yr ardal. Mae Ofgem wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r diwydiant roi'r newidiadau ar waith yn unol â'r cyfnod rheoli prisiau nesaf ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu, a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023.

Adolygiad Cod Sylweddol o ran Taliadau Dosbarthu

Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2021, crëwyd Adolygiad Cod Sylweddol ar wahân i adolygu taliadau Defnydd Dosbarthu'r System (DUoS). Disgwylir i'r gwaith ar ddiwygiadau DUoS fynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn, a disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith o 2026.

Y farchnad gapasiti yn sicrhau sefyllfa sero net gosteffeithiol a sicrwydd cyflenwad

Mae'r Farchnad Gapasiti yn ganolog i strategaeth y llywodraeth ar gyfer sicrwydd cyflenwadau trydan ar y gost isaf i ddefnyddwyr. Mae'n niwtral o ran technoleg ac mae cynhyrchwyr ynni presennol yn cystadlu ag amrywiaeth o dechnolegau eraill i sicrhau bod ein cyflenwad trydan yn sicr ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2021 mewn perthynas â chynigion i newid rheolau, cyhoeddodd Ofgem benderfyniadau 'o fwriad' ar gyfer sawl maes polisi i ddiwygio Rheolau'r Farchnad Gapasiti. Roedd hyn yn cwmpasu gwasanaethau cydbwysu perthnasol, cofrestr y Farchnad Gapasiti, gwaith cynllunio a chaniatadau perthnasol, ac uchafswm cyfnod y rhwymedigaeth. Hefyd, gwnaeth Ofgem 'gais am fewnbwn' a oedd yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y broses o sefydlu Grŵp Cynghori'r Farchnad Gapasiti. Unwaith y caiff ei sefydlu, bydd y Grŵp yn gweithio'n agos gydag Ofgem i flaenoriaethu'r cynigion i newid Rheolau'r Farchnad Gapasiti a'u hamseru cystal â phosibl.

Cyflawnir nodau pontio sero net drwy sicrhau bod systemau yn gweithredu'n effeithiol

Ym mis Ebrill 2021, dechreuodd cyfnod rheoli prisiau RIIO-2 ar gyfer yr ESO, a bennwyd gan Ofgem. Bydd y cyfnod rheoli prisiau yn rhedeg o 2021 i 2026. Mae gan yr ESO rôl ganolog i'w chwarae yn ein system ynni. Mae'n gyfrifol am weithrediad amser real y system trawsyrru trydan, gweithgarwch datblygu'r farchnad, rheoli cysylltiadau a llywio buddsoddiad yn y rhwydwaith.

Mae Panel Perfformiad yr ESO ac Ofgem yn monitro perfformiad bob chwe mis. Drwy roi adborth ar berfformiad i'r ESO, mae Ofgem yn sicrhau y bydd yn gallu gweithredu a gwneud unrhyw welliannau sydd eu hangen yn ystod y ddwy flynedd y bydd ei gynllun busnes yn weithredol. Bydd Ofgem yn gwneud penderfyniad terfynol ar sgoriau perfformiad yr ESO erbyn mis Awst 2023, gydag uchafswm gwobr o dan y cynllun cymhellion o £30 miliwn ac uchafswm cosb o £12 miliwn.



Data a Digideiddio - Cyflawni rhaglenni newid

Wrth i'r broses o drawsnewid ynni barhau, mae'r sector ynni'n mynd yn fwy cymhleth, ac mae manteision cyfathrebu'n glir a rhannu data yn tyfu. Mae creu, casglu a defnyddio data ar y system ynni yn hanfodol er mwyn rheoli'r cymhlethdod hwn a manteisio ar ffynonellau gwerth newydd i bob rhanddeiliad ynni, gan gynnwys costau is a gwell mesurau i ddiogelu defnyddwyr.

Yn ystod 2021-22, ymrwymodd Ofgem i ddefnyddio a rhannu data yn effeithiol fel elfen graidd o'n gweithrediadau mewnol a'n penderfyniadau rheoleiddio. O edrych tuag at allan, datblygodd y Rhaglen Newid Strategol ar gyfer data a digideiddio weithgareddau er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau rheoleiddio gwell eu gwneud drwy ddefnyddio data yn well, ac y caiff data eu defnyddio'n fwy effeithiol gan y farchnad, drwy reoliadau data modern.

Prif nodau Ofgem yn ystod 2021-22 oedd:

- dangos arweinyddiaeth a chydweithio er mwyn sicrhau newid ar y raddfa sy'n ofynnol
- sefydlu atebion diodyn o ran data a digideiddio, a sicrhau y caiff y sector ei gymell a'i gydgyssylltu i'w mabwysiadu
- galluogi'r sector, drwy seilwaith newydd a rennir, a'r hyn sydd eisoes yn bodoli, i dyfu a datblygu atebion data ac atebion digidol ar gyfer y dyfodol sy'n gweithio i ddefnyddwyr.

Mae'r gweithgareddau y mae Ofgem wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2021-22 wedi cyflawni'r pethau canlynol ac wedi cyfrannu at ganlyniadau ein fframwaith strategol fel a ganlyn:

Cyflawni rhaglenni newid strategol

Mwy o rannu data, er mwyn galluogi marchnadoedd newydd a mwy effeithlon ac er mwyn i ddefnyddwyr allu manteisio'n fwy ar y data hyn

Ym mis Mehefin 2021, cynhaliodd Ofgem ymgynghoriad ffurfiol ar ddwy set o ganllawiau fel rhan o system rheoli prisiau RIIO-2, gan nodi rhwymedigaethau i gwmnïau rhwydwaith ynni i gydymffurfio â'r arferion gorau ynghylch data a chanllawiau'r 'Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Ddigeiddio'. Yn dilyn hyn, gwnaed penderfyniad terfynol ym mis Tachwedd 2021, yn nodi'r arferion gorau a chynllun gweithredu, ac yn cadarnhau y byddai'r safonau data a digideiddio yn gymwys i bartion a reoleiddir yn ogystal ag Ofgem, gyda'r nod o wneud data systemau ynni yn fwy agored. Gan edrych ymlaen i 2022, mae'r safonau hyn bellach wedi'u gwreiddio yn yr amodau trwyddedu drafft ar gyfer system rheoli prisiau dosbarthu trydan RIIO-2 (ED2), a fydd wedi'u cynnwys yn y Penderfyniadau Drafft ym mis Mehefin 2022.

Gwella gwaith cynllunio a rheoli data ynni, gan gynnwys rheoleiddio monopolïau data

Cwblhaodd Ofgem adolygiad o farchnadoedd digidol, er mwyn:

- helpu i adnabod a deall darparwyr gwasanaethau data a digidol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n dod i'r amlwg yn y sector ynni
- canfod y goblygiadau i ddefnyddwyr ynni
- bod yn ymwybodol o risgiau monopolaid
- llywio datrysiadau rheoleiddio yn y dyfodol yn y maes hwn.

Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2022, a dilynir hyn 'gais am dystiolaeth' yn ystod haf 2022.

Gwnaeth Ofgem hefyd ddatblygu'r dull gweithredu ar gyfer adolygiad sydd ar ddod o gydymffurfiaeth â safonau digideiddio amodau trwyddedu RIIO-2, a ddisgrifir uchod.



Gwella penderfyniadau rheoleiddio, wrth i Ofgem wneud mwy o ddefnydd o ddata a rhannu data

Drwy gydol 2021-22, aeth Ofgem ati i feithrin gallu ein Tîm Data a Dirnadaethau Digideiddio a datblygu cynlluniau gweithredu clir ar gyfer y Rhaglen Newid Strategol Data a Digideiddio. Cynhaliwyd adolygiad arferion gorau o ddulliau rheoleiddio byd-eang ar gyfer rhannu data, cydsynio a rheoleiddio digidol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Newid Strategol hon.

Rhoddwyd canllawiau Arferion Gorau Ofgem ynghylch Data ar waith ym mis Mawrth 2021. Byddwn yn cynnal adolygiad o gynnydd yn ystod haf 2022 er mwyn asesu sut mae sefydliadau perthnasol yn rheoli eu rhwymedigaethau.

Yn sgil y gwaith meithrin gallu hwn, mae'r tîm wedi cefnogi gweithgareddau ehangach o ran yr argyfwng nwy drwy ddarparu gwybodaeth sy'n deillio o'r defnydd mewnol o ddata gan Ofgem, a thrwy wella ein dull rheoleiddio drwy gymhwyso technegau dadansoddol at ddata cymhleth a chyfaint uchel, fel ein dull o fonitro'r farchnad. Roedd hyn yn cynnwys rhoi sicrwydd ynghylch diogelu defnyddwyr ar gyfer tariffau amser defnyddio, dadansoddi 20,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cap prisiau, a gwella'r broses o gyflwyno adroddiadau monitro cwynion.



Llywodraethu'r System Ynni - Rhaglen newid a gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd cysylltiedig

Er mwyn hwyluso'r broses o bontio i system ynni sero net fwy hyblyg sy'n defnyddio data, mae Ofgem o'r farn bod achos o blaid goruchwyliaeth strategol gryfach a gwell cydgysylltu drwy systemau cyfan, sy'n debygol o law am newidiadau i drefniadau llywodraethu presennol (sefydliadau, gweithdrefnau, codau, safonau a threfniadau trwyddedu).

Yn ystod 2021-22, aeth Ofgem ati – gan weithio'n agos gyda BEIS – i ddechrau'r broses o adolygu'r dirwedd sefydliadol a llywodraethu er mwyn ystyried a oedd y strwythurau hynny'n dal yn addas at y diben. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r codau ynni presennol a'u trefniadau llywodraethu, a helpu'r llywodraeth i feddwl yn ehangach am opsiynau ar gyfer gweithredwr system 'system gyfan' i Brydain Fawr.

Mae Ofgem wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r nodau canlynol:

- sefydlu gweledigaeth glir ac integredig ar gyfer llywodraethu'r system ynni (ar y cyd â'r llywodraeth)
- datblygu diwygiadau pwysig a'u rhoi ar waith, yn enwedig y rhai sy'n deillio o'r Adolygiad o Godau Ynni
- pennu nodau tymor canolig a hirdymor Ofgem fel y rheoleiddiwr ynni, a dechrau newid ei siâp, ei swyddogaethau a'i model rheoleiddio er mwyn bod yn gyson â'r nodau hyn.

Mae'r gweithgareddau y mae Ofgem wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2021-22 wedi cyflawni'r pethau canlynol ac wedi cyfrannu at ganlyniadau ein fframwaith strategol fel a ganlyn:

Gweithgarwch rhaglenni newid strategol

Codau o fudd i ddefnyddwyr a thrwyddedu cadarn

Gweithredwr System ar gyfer y Dyfodol

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Ofgem a BEIS ymateb ar y cyd i ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, a oedd yn nodi ymrwymiad i fynd ati i greu Gweithredwr System arbenigol, diduedd ar gyfer y Dyfodol (FSO). Caiff yr FSO ei sefydlu fel corfforaeth gyhoeddus, gyda phob un o brif rolau presennol Gweithredwr y System Drydan a rolau cynllunio yn y tymor hwy, rhagamcanu a marchnadoedd Gweithredwr y System Nwy. Drwy gyflwyno'r FSO, y bwriad yw galluogi gwaith cynllunio systemau cyfan mwy cydgysylltiedig a strategol.

Trefniadau Llywodraethu Gweithredwr System Ddosbarthu – 'Cais am Fewnbwn'

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Ofgem adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau sefydliadol a llywodraethu ar lefel is-genedlaethol, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cynhyrchu gwasgaredig carbon isel

a galw hyblyg yn cael eu hintegreiddio yn y ffordd fwyaf costeffeithiol a dibynadwy. Ym mis Ebrill 2022, nododd Ofgem ei barn gychwynnol ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r fframwaith sefydliadol lefel ddosbarthu, a galwodd am fewnbwn ar opsiynau diwygio gwahanol.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Ofgem y canllawiau cynllun busnes ar gyfer rheoli prisiau dosbarthu trydan RII0-2, a gyflwynodd ddisgwyliad sylfaenol y bydd gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu yn mynd i'r afael â gwrthdaro gwirioneddol a chanfyddedig sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau buddsoddi o ran hyblygrwydd ac atebion rhwydwaith traddodiadol. Mae hyn yn cefnogi atebolrwydd ar lefel weithredol a gwelededd ar lefel bwrdd i weithredwyr rhwydweithiau dosbarthu, fframweithiau clir ac ar wahân ar gyfer gwneud penderfyniadau, a throsolwg annibynnol megis gwaith archwilio allanol.



Codau o fudd i ddefnyddwyr a thrwyddedu cadarn

Diwygio Trefniadau Llywodraethu Codau Ynni

Fel rhan o'r gweithgarwch uchod, ym mis Gorffennaf 2021, dechreuodd Ofgem gynnal ymgynghoriad ar y cyd â BEIS ar Ddiwygio Codau Ynni, a ddaeth i ben ym mis Medi.

Ym mis Ebrill 2022 cyhoeddodd Ofgem a BEIS ymateb ar y cyd a oedd yn nodi pecyn o ddiwygiadau i'r fframwaith codau ynni er mwyn hwyluso trefniadau llywodraethu mwy effeithiol yn y system ynni. Mae hyn yn cynnwys rhoi rôl goruchwyllo strategol newydd i Ofgem ar gyfer y codau ynni, a chyflwyno trwyddedau ar gyfer rheolwyr codau.

Disgwylir i'r diwygiadau hyn gael eu rhoi ar waith drwy ddeddfwriaeth, a bydd Ofgem yn cynnal gweithgareddau paratoadol yn y flwyddyn ariannol newydd, ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol.

Hefyd, fel rhan o ymarfer cyfochrog, cynhaliodd Ofgem adolygiad o'r ffordd y caiff safonau peirianeg eu llywodraethu yn y dyfodol. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd BEIS ei hymateb i'r adolygiad o safonau peirianeg, gan nodi sut roedd yn bwriadu ymateb i'r argymhellion, a nododd na ddylai'r safonau peirianeg gael eu cynnwys yn y Bil Ynni ond, yn hytrach, y dylai diwygiadau gael eu datblygu drwy waith diwygio trefniadau llywodraethu codau, gan roi goruchwyliaeth strategol i Ofgem fel y Corff Codau Strategol.

Gwaith cyflawni rheoleiddiol craidd

Mae codau a thrwyddedu cadarn yn y diwydiant yn fuddiol i ddefnyddwyr

Drwy gydol y flwyddyn, cyflawnodd Ofgem ei swyddogaethau statudol i brosesu ceisiadau trwyddedu, helpu sefydliadau i wneud newidiadau i godau a thrwyddedau, a goruchwyllo trefniadau llywodraethu codau'r diwydiant, gan gynnwys arwain gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda chyrrff a phaneli codau'r diwydiant. Hefyd, diweddarodd Ofgem y canllawiau ar wneud cais am drwydded. Gwnaeth Ofgem barhau i wneud penderfyniadau trwyddedu yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol (mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad I).

Cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad ar y cyd â BEIS i ystyried y gwaith o ddylunio a chyflawni diwygiadau i Godau Ynni ym mis Gorffennaf 2021. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ddechrau mis Ebrill 2022 (gweler y manylion yn yr adran ar Lywodraethu Systemau Ynni).

Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid

Wrth i brisiau ynni godi i lefelau uwch nag erioed o'r blaen, ac wrth i gostau byw gynyddu, mae ein rhanddeiliaid wedi wynebu un o'r blynyddoedd mwyaf heriol erioed. O ganlyniad i hynny, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn bwysicach nag erioed.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi ymgysylltu â'n rhanddeiliaid er mwyn deall eu heriau a'u hanghenion ac wedi casglu gwybodaeth er mwyn llywio ein penderfyniadau a'n polisiau. Yn sgil digwyddiadau proffil uchel yn ystod y flwyddyn, fel yr argyfwng ynni a COP26, gwnaeth ein Prif Swyddog Gweithredol a'r uwch dîm arwain fwy o siarad cyhoeddus a chyfweiliadau â'r cyfryngau nag erioed o'r blaen.

Yr argyfwng ynni a'n hymateb ymgysylltu

Ers i'r argyfwng ynni ddechrau, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ym mhob rhan o'r sector. Mae Martin Cave a Jonathan Brearley, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Manwerthu, Neil Lawrence, wedi bod ar ymweliadau ledled y wlad, gan siarad â sefydliadau, elusennau a defnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effeithiau gwirioneddol yr argyfwng a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu. Mae ein huwch-arweinwyr hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gyda Phrif Swyddogion Gweithredol cyflenwyr drwy gydol yr argyfwng, ac wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach ar lefel uchel er mwyn casglu gwybodaeth a chynnal trafodaethau agored a thryloyw. Rydym wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â'n gweithgorau, megis y Grŵp Defnyddwyr Mawr a'r Grŵp Defnyddwyr Bach ar gyfer defnyddwyr annomestig, gan eu galluogi i roi adborth ar newidiadau arfaethedig i bolisiau ac ymgynghoriadau, a rhannu eu pryderon a'u blaenoriaethau.

Amrywiaeth a Chynhwysiant 50:50

Yn Ofgem, rydym yn blaenoriaethu amrywiaeth a chynhwysiant yn fwy nag erioed. Rydym yn symud yn nes at 50% o gynrychiolaeth gan fenywod ar lefel y Bwrdd ac ar lefel weithredol, ac rydym yn bwriadu cymryd rhagor o gamau sylweddol fel rhan o'n strategaeth feiddgar newydd ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Ym mis Ebrill 2021, gwnaethom gynnal digwyddiad rhithwir Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant traws-sector gydag Energy UK ar y thema 'troi bwriad yn weithred' er mwyn ymgynnull a dysgu o arferion gorau er mwyn gwella amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r sector ynni.

Hefyd, ni oedd un o'r sefydliadau cyntaf yn y sector ynni a'r gwasanaeth sifil i ymuno â Phrosiect Cydraddoldeb 50:50 y BBC. Mae'r prosiect yn helpu sefydliadau i greu cynnwys sy'n adlewyrchu'r byd o'n cwrpas yn well drwy fonitro cynrychiolaeth a chadw golwg ar gynnydd tuag at raniad 50:50 rhwng y rhywiau. Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol drwy gydol y flwyddyn ac, yn ystod Ch4, gwnaethom gyrraedd 50:50 am y tro cyntaf. Ymhlith ein llwyddiannau nodedig roedd gwella cynrychiolaeth menywod yn nigwyddiadau Ofgem ac wrth siarad mewn digwyddiadau allanol, a chodi ymwybyddiaeth o'n hymrwymadau ym mhob rhan o Ofgem.

COP26

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gymryd rhan yn 26ain Gynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig yn Glasgow (COP26), lle y lansiodd Ofgem y Rhaglen Gyflymu Reoleiddiol ar gyfer Trawsnewid Ynni (RETA), ar y cyd â'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol (IEA), yr Asiantaeth Ynni Adnewyddadwy Ryngwladol (IRENA) a Banc y Byd. Nod y fenter fyd-eang hon yw cyflymu'r broses o drawsnewid ynni er mwyn darparu cyflenwadau glân, sicr a fforddiadwy i bawb. Ymunodd 22 o reoleiddwyr ynni rhyngwladol â RETA cyn COP26, ac mae'r nifer wedi parhau i dyfu.

Fel rhan o ymgyrch ymgysylltu a chyfathrebu "Dyfodol gwyrdd, teg" Ofgem yn y cyfnod cyn COP26, gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweminarau ar ynni a oedd yn canolbwyntio ar rai o'r problemau cyffredin y mae rheoleiddwyr yn eu hwynebu wrth alluogi gwaith datgarboneiddio ynni. Daeth y rhaglen hon o ddigwyddiadau â chynrychiolwyr rheoleiddiol rhyngwladol a rhanddeiliaid ehangach ynghyd i rannu syniadau, arferion gorau a heriau er mwyn helpu i sicrhau y caiff newidiadau eu gwneud yn gyflymach, a fydd yn hollbwysig er mwyn cyflawni nodau hinsawdd byd-eang.



Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwmo o hyd i gyflawni Targedau Gwyrddu'r Llywodraeth sy'n cynnwys yr amcanion a ganlyn (yn erbyn gwaelodlin 2009-10):



Gostyngiad o 32% yn gyffredinol carbon



Lleihau tirlenwi i 10% o gyfanswm y gwastraff



Cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu



Lleihau'r defnydd o bapur gan 50%



Gostwng defnydd o ddŵr

Adroddiad Amgylcheddol Mewnol 2021-22

Mae Ofgem yn parhau i fod yn ymrwymedig i Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth sydd wedi cael eu diweddaru â llinell sylfaen, targedau ac is-dargedau newydd. Mae'r targedau newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2021 a 2025. Isod ceir y targedau a'r hyn rydym yn ei wneud i'w cyrraedd.

Y newidiadau allweddol i'r Ymrwymadau o gymharu â 2016-2020 yw:

- Newid y flwyddyn sylfaen darged o 2009-2010 i 2017-2018 er mwyn adlewyrchu ystad bresennol y llywodraeth a sicrhau bod y llywodraeth yn adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud yn barod
- Pennu targedau mwy uchelgeisiol ym meysydd craidd allyriadau, dŵr, gwastraff a hediadau domestig
- Ad-drefnu'r targedau yn brif ymrwymadau ac is-ymrwymadau, fel y gall adrannau ymrwmo i'r un amcanion cyffredinol

Dim ond data ar gyfer ein swyddfa yn Llundain y gallwn eu cael, felly dyna'r data rydym yn adrodd arnynt.

Lliniaru newid yn yr hinsawdd: gweithio tuag at sero net erbyn 2050

Prif darged: Lleihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol o ystad Ofgem a'i gweithrediadau o linell sylfaen 2017-2018:

Ers 1 Chwefror 2022, mae adeilad ein pencadlys, yr ydym yn ei rannu â sawl un o gyrff y llywodraeth,

wedi cael ei gyflenwi â thrydan di-garbon. Rydym yn gweithio gyda rheolwyr yr adeilad i gael gwared ar y boeleri dŵr poeth, sy'n llosgi nwy ac sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr ynni a ddefnyddir, a gosod pypiau gwres ffynhonnell aer yn eu lle, a fyddai'n ein gwneud yn garbon niwtral.

Pan agorwyd ein swyddfa yn Glasgow, hi oedd y swyddfa fwyaf effeithlon ond un yn ystad y llywodraeth (yn ôl adroddiad Cyflwr yr Ystad 2017/18) ar sail ei thystysgrif perfformiad ynni (EPC). Yn ddiweddar, mae Cyngor Dinas Glasgow, sy'n berchen ar yr adeilad, wedi gosod mesuryddion deallus ar ein llawr, ac rydym yn disgwyl y byddwn yn gallu rhoi cyfrif am ein defnydd o ynni o'r swyddfa hon yn yr adroddiad hwn y flwyddyn nesaf.

Yn amlwg, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ffaith nad oes staff wedi bod yn gweithio yn ein swyddfeydd a'r ffaith nad ydym wedi bod yn teithio fawr ddim wedi lleihau ein defnydd o ynni. Fodd bynnag, nid ydym wedi bod yn segur dros y cyfnod hwn, gan ein bod wedi cyflwyno mwy o fesurau arbed ynni yn ein swyddfeydd, megis uwchraddio'r goleuadau a'r systemau rheoli goleuadau ac uwchraddio'r BMS, felly nid ydym yn disgwyl i'r defnydd ddychwelyd i'r lefelau blaenorol.

Is-dargedau:


- Lleihau'r allyriadau o hediadau busnes domestig o leiaf 30% o linell sylfaen 2017-2018, ac adrodd ar y pellter a deithir gan hediadau busnes rhyngwladol, gyda'r bwriad o ddeall allyriadau cysylltiedig yn well a'u lleihau lle bo modd.

Yn yr un modd â'r defnydd o ynni, mae lefelau carbon teithio wedi bod yn isel iawn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar ôl gweithio mor dda gartref, nid ydym yn disgwyl i'r carbon teithio gyrraedd yr un lefelau ag o'r blaen. Rydym yn disgwyl y cyfanswm ein carbon wedi'i rannu bron 50:50 rhwng ynni'r swyddfa a charbon teithio.

Is-dargedau:

- Diweddarau polisiâu teithio'r sefydliad fel eu bod yn ei gwneud yn ofynnol ystyried opsiynau carbon is yn gyntaf yn hytrach na phob hediad a gynllunnir.
- Rydym wedi diweddarau ein polisi teithio a threuliau er mwyn ei gwneud yn glir iawn y dylid ystyried opsiynau carbon is fel teithio ar drên cyn defnyddio opsiynau carbon uwch, fel hedfan.

Defnydd carbon gan FTE



Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Dangosyddion Anariannol (tCO ₂ e)	Cyfanswm yr allyriadau gros	1176	1015	671	278	179
	Fesul CALI	1.28	1.43	0.92	0.23	0.14
	Cyfanswm yr allyriadau net	613	1015	860	278	179
	Cwmpas 1: Allyriadau NTG uniongyrchol	153	49	7	6	5
	Cwmpas 2: Allyriadau NTG anuniongyrchol ynni	736	431	330	273	174
	Cwmpas 3: Allyriadau NTG anuniongyrchol eraill	382	535	334	0	23
Data Defnydd Cysylltiedig (kWh)	Trydan: Adnewyddadwy (k)		1,521	1,292	1,170	
	Nwy (k)	1,775	0	0	0	0
	Gas (k)	798	269	35	30	30



Lleihau gwastraff a hybu effeithlonrwydd adnoddau

Prif darged:


Lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir 15% o linell sylfaen 2017-2018.

Fel y gwelir yn y graffiau, rydym eisoes cyflawni lleihad o fwy na 50% mewn gwastraff. Y prif reswm dros y lleihad hwn yw'r pandemig, felly rydym yn rhagweld cynnydd sydyn y flwyddyn nesaf, yn enwedig gan fod niferoedd y staff wedi cynyddu'n sylweddol, ond bydd patrwm gweithio hybrid yn lliniaru hyn.

Is-dargedau:

- Lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi i lai na 5% o gyfanswm y gwastraff.
- Mae Ofgem wedi bod yn sefydliad nad yw'n anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi ers 2010.
- Cynyddu'r gyfran o wastraff a ailgylchir i 70% o gyfanswm y gwastraff o leiaf.
- Cyrhaeddodd Ofgem y targed hwn cyn y pandemig. Byddwn yn gweithio i gynnal hyn.

- Cael gwared ar blastig untro defnyddwyr o ystad swyddfeydd llywodraeth ganolog.
- Nid oes cwpanau plastig untro yn yr un o'n swyddfeydd
- Mesur gwastraff bwyd ac adrodd arno erbyn 2022, ar gyfer ystadau â mwy na 50 FTE (staff cyfwerth ag amser llawn) a/neu arwynebedd llawr o fwy na 500m² sy'n cynnig gwasanaeth bwyd.
- Nid oes gwastraff bwyd wedi cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod adrodd
- Adrodd ar y broses o gyflwyno cynlluniau aildddefnyddio a'u rhoi ar waith.
- Rydym yn ymrwymedig i bolisiau aildddefnyddio dodrefn ac rydym yn ystyried papur cylchol
- Lleihau defnydd y llywodraeth o bapur o leiaf 50% o linell sylfaen 2017-2018.
- Yn ystod pandemig COVID-19, ni fu fawr ddim argraffu, ond nid ydym yn disgwyl dychwelyd i'r lefelau argraffu a welwyd cyn y pandemig am ein bod yn rhagweld y bydd gweithio hybrid yn lleihau'r angen i argraffu. Rydym hefyd wedi lleihau nifer yr argraffyddion sydd ar gael 25%.



Gwastraff		2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Dangosyddi-on anariannol (tunnell)	Cyfanswm y Gwastraff	149	43	14	14	19
	Cyfanswm y Gwastraff fesul CALI	0.2	0.05	0.02	0.02	0.02
	Gwastraff Peryglus	1	-	-	-	-
	Gwastraff nad yw'n Beryglus	Safleoedd Tirlenwi	23	0	0	0
		Aildddefnyddiwyd/Ailgylchwyd	81	28	11	15
		Llosgwyd/ynni o wastraff	44	16	3	4
Dangosyddi-on Ariannol	Cyfanswm y Gost Gwaredu	£11,845	£9,798	-	-	-


Lleihau ein defnydd o ddŵr

Prif darged: Lleihau'r defnydd o ddŵr o leiaf 8% o linell sylfaen 2017-2018.

Fel y gwelir yn y graff uchod, gwnaethom gyflawni'r nod **8%** cyn y pandemig. Yn ein blwyddyn olaf cyn COVID-19, roeddem wedi lleihau ein defnydd **47%**. Ein nod yw parhau i leihau ein defnydd i lai na **4 metr** ciwbig pan fydd popeth yn dychwelyd yn ôl i'r arfer.

Is-dargedau: Sicrhau bod yr holl ddefnydd o ddŵr yn cael ei fesur.

- Mae hyn eisoes ar waith ac yn cael ei adlewyrchu yn y graff uchod.
- Cynnal asesiad ansoddol er mwyn dangos yr hyn a wneir i annog defnydd effeithlon o ddŵr.
- o Mae ein swyddfa yn Llundain wedi trefnu i gynnal archwiliad dŵr ar ddechrau 2022-2023. Bydd rheolwyr yr adeilad yn gweithio gyda chanlyniadau'r archwiliad hwnnw i leihau'r defnydd o ddŵr ymhellach.



Dŵr			2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2020-22
Dangosyddion Anariannol	Targed		7.36	7.36	7.36	7.36	7.36
	Defnydd o Ddŵr (m ³)	Supplied	7959	3608	3875	896	896
		Per FTE	8.0	5.6	4.2	1.0	1.0
Dangosyddion Ariannol	Costau Cyflenwi Dwr		£25,466	£8,444	-	-	-



Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy

Prif ymrwymiad: Parhau i brynu cynhyrchion a gwasanaethau mwy cynaliadwy gyda'r nod o sicrhau'r gwerth am arian hirdymor cyffredinol gorau i gymdeithas.

Bydd adrannau'n adrodd ar y systemau y maent wedi'u rhoi ar waith a'r camau a gymerwyd i brynu'n gynaliadwy, gan gynnwys:

- gwreiddio cydymffurfiaeth â Safonau Prynu'r Llywodraeth mewn contractau caffael adrannol a chanolog, yng nghyd-destun blaenoriaethau cyffredinol y llywodraeth, sef gwerth am arian a symleiddio prosesau caffael

Yn aros am ymateb gan yr Adran Gaffael.

- deall a lleihau effeithiau a risgiau'r gadwyn gyflenwi

Gan fod Ofgem yn prynu'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n berthnasol i Safon Prynu orfodol sylfaenol y Llywodraeth o gytundebau'r fframwaith Dal a Storio Carbon, cydymffurfir â'r safonau hyn gan y bydd yn rhaid i gyflenwyr fod wedi dangos eu bod yn cyrraedd y safonau hyn o leiaf er mwyn cael bod yn rhan o'r fframwaith Dal a Storio Carbon. Bydd Ofgem hefyd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol am gynaliadwyedd mewn tendrau perthnasol lle bo modd.

Dylid nodi bod y safonau ar gyfer caffael cynaliadwy yn tueddu i fod yn gymwys i gontractau sy'n fwy seiliedig ar nwyddau a gwasanaethau, e.e. gwaith adeiladu, prynu cerbydau ac ati, na fydd Ofgem yn gwario fawr ddim arnynt, os o gwbl. Ar safonau proffesiynol y mae llawer o'n gwariant, ac nid yw caffael cynaliadwy yn yr ystyr hon yn tueddu i fod yn berthnasol i hynny.

Lleihau effeithiau amgylcheddol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a gwasanaethau digidol

Prif ymrwymiad: Dylai adrannau adrodd ar fabwysiadu Strategaeth Gwyrddu TGCh a Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth a thargedau cysylltiedig a sicrhau eu bod yn cynnig aelodaeth i'r tîm Cyngor ac Adroddiadau ar Dechnoleg Gynaliadwy sy'n rheoli ac yn paratoi adroddiadau Ymrwymadau Gwyrddu TGCh y Llywodraeth.

I grynhoi, bydd hyn yn cynnwys cyflwyno data blynyddol ar ôl troed TGCh a digidol, gwastraff ac arferion gorau ar gyfer pob adran a'i sefydliadau partner.



Adolygiad ariannol

Mae Datganiad Ofgem ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol wedi'i nodi ar dudalen 69.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd Ofgem ei chyllideb i gefnogi ei Blaengynllun Gwaith ar gyfer 2021-22, gan wario cyfanswm o £129.9 miliwn ar wariant gweithredu yn erbyn cyfanswm incwm gweithredu o £142.8 miliwn. Felly, ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm alldro adnoddau Ofgem oedd £12.9 miliwn o incwm net.

Mae hyn yn cynnwys:

- gwariant gweithredu net o £0.7 miliwn ar gyfer Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy;
- £0.6 miliwn ar gyfer gwaith ar rwydweithiau gwres;
- £1.9 miliwn o symudiad net ar gyfer darpariaethau na chânt eu hariannu drwy ffioedd trwyddedu, yn ymwneud yn bennaf â chostau cyfreithiol posibl;
- incwm gweithredu net o £13.0 miliwn ar gyfer yr Ardoll Nwy Gwyrdd;
- incwm cyfalaf o £3.1m wedi'i drosglwyddo gan BEIS.

Mae'r alldro hwn yn danwariant o £88.7 miliwn o gymharu â'r amcangyfrif cyllideb adnoddau, sef £82.4 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod gwerth y darpariaethau ariannol gryn dipyn yn is na'r amcangyfrifon ar eu cyfer a bod yr incwm o'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn uwch na'r amcangyfrif ar ei gyfer.

Mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter, er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Dechreuodd y ddau ym mis Tachwedd 2021, ond ni ddechreuodd daliadau'r Cynllun Cymorth tan 2022-23. Talwyd y costau sefydlu drwy drosglwyddiad cyllideb gan BEIS. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer Nwy Gwyrdd i'w gweld ar linell ar wahân yn Natganiad Ofgem o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol.

Mae incwm yr ardoll yn seiliedig ar sawl amcangyfrif, a bydd taliadau'r Cynllun Cymorth yn seiliedig ar y galw felly mae'n anochel y bydd incwm net yn y dyfodol yn ansicr.

Prif ffynhonnell incwm Ofgem yw'r ffioedd trwyddedu sy'n daladwy gan y sector. Caiff unrhyw warged (dros adennill ffioedd, lle mae'r gwariant yn llai na'r gyllideb) ei ad-dalu i'r sector. Mae gwarged o £6.9 miliwn o ffioedd trwyddedu 2020-21 a godwyd ar y sector (o gymharu â gwarged o £0.7 miliwn o ffioedd trwyddedu 2020-21).

Costau staff yw'r rhan fwyaf o gostau Ofgem. Yn gyffredinol, roedd gwariant Ofgem £8.8 miliwn (7%) yn fwy yn 2021-22 (£129.9 miliwn) o gymharu â 2020-21 (£121.1 miliwn), yn bennaf o ganlyniad i gynydd yn nifer y staff a gwariant ar wasanaethau ymgynghori er mwyn ymateb i argyfwng y marchnadoedd nwy a chynnal cynlluniau ynni adnewyddadwy newydd.

Gan mwyaf, roedd gwariant cyfalaf yn cynnwys cyfarpar TG a datblygu meddalwedd bwrpasol i gefnogi cynlluniau a weinyddir gan Ofgem, a'r gwariant oedd £3.6 miliwn o gymharu â chyllideb o £3.8 miliwn (gan gynnwys yr incwm cyfalaf a drosglwyddwyd gan BEIS).



Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nid yw aelodau'r bwrdd rheoli yn gyfarwyddwyr
mewn unrhyw gwmni arall nac yn meddu ar
fuddiannau arwyddocaol eraill a all wrthdaro â
chyfrifoldebau rheoli.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â
data personol yn ystod y flwyddyn.



Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan y Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ohonynt gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratwir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i hincwm a'i gwariant, ei Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'i llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratwir y cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Bwrdd Ofgem

Prif ffocws y Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn 2021-22 oedd diogelu cwsmeriaid yn ystod argyfwng costau byw na welwyd ei debyg o'r blaen. Yn arbennig: sicrwydd cyflenwad, cyflenwr pan fetho popeth arall a'r ymateb i'r argyfwng nwy.

Rôl y Bwrdd

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA) yw Bwrdd Ofgem. Cyfeirir at yr Awdurdod fel y Bwrdd yn y ddogfen hon. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys chwe aelod anweithredol, gan gynnwys Cadeirydd anweithredol, ac un aelod gweithredol, sef y Prif Weithredwr. Ceir rhestr o aelodau Bwrdd Ofgem ar [wefan Ofgem](#). Mae tri aelod gweithredol arall hefyd yn mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd, ac mae aelodau eraill o staff Ofgem yn bresennol ar gyfer eitemau penodol, yn ôl yr angen.

Darperir ar gyfer pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd drwy statud yn bennaf. Mae'r statud yn pennu mai Ofgem yw'r 'Awdurdod', ac wrth gyfeirio at yr Awdurdod, mae'n golygu Cadeirydd ac aelodau eraill Bwrdd Ofgem. Mae hyn yn golygu pan fydd deddfwriaeth yn rhoi pŵer penodol i Ofgem, mater i Fwrdd Ofgem yw arfer y pŵer hwnnw, oni bai bod dirprwyaeth ddilys ar waith.

Sut y gwneir penodiadau

Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yw penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swyddi gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch-swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd.

Ni wnaed unrhyw benodiadau i'r Bwrdd yn 2021-22. Ymddiswyddodd un aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Paul Grout.

Rhannu cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi cadw rhai penderfyniadau yn ôl. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn atodlen i Reolau

Trefniadaeth y Bwrdd a chyfeirir atynt hefyd fel "Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl."

Mater i'r Bwrdd yw gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw un o'r Swyddogaethau hyn a Gadwyd yn Ôl, oni bai bod y Bwrdd yn dirprwyo'r penderfyniad hwnnw i un o gyflogeion Ofgem, neu un o Bwyllgorau'r Bwrdd, yn benodol. Gall dirprwyaeth gan y Bwrdd fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau. Caiff unrhyw ddirprwyaeth ychwanegol gan y Bwrdd ei chofnodi yng nghofnodion y Bwrdd. Yr unig eithriad i hyn yw llunio Offeryn Statudol. Ni all y Bwrdd – yn ôl y gyfraith – wneud dirprwyaeth o'r fath.

Cyfeirir at holl swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt yn Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl, a ddirprwyir i un o Bwyllgorau'r Bwrdd, neu gan Drysorlys EM i'r Swyddog Cyfrifyddu, fel "Swyddogaethau Cyffredinol".

Ym mis Mawrth 2022, diweddarodd y Bwrdd ei Faterion a Gadwyd yn Ôl, er mwyn adlewyrchu arferion gorau ym maes llywodraethu corfforaethol, yn ogystal â chodeiddio arferion presennol Ofgem. O ganlyniad i hynny, ychwanegwyd y canlynol at Faterion a Gadwyd yn Ôl y Bwrdd:

- Cymeradwyo cynigion ar gyfer swyddogaethau newydd y bydd Ofgem yn eu cyflawni.
- Cymeradwyo strategaeth, nodau strategol neu amcanion sefydliadol cyffredinol Ofgem.
- Cymeradwyo'r ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar Ddatganiad Strategaeth a Pholisi drafft i'w ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Ynni 2013.
- Cymeradwyo unrhyw ddatganiad o ddiben neu werthoedd sefydliadol Ofgem.
- Cymeradwyo unrhyw newid sylweddol i drefniadau ariannu Ofgem.
- Cymeradwyo fframwaith rheoli risg Ofgem.
- Cymeradwyo datganiad o barodrwydd i dderbyn risg Ofgem.
- Cymeradwyo penodiad yr archwilydd mewnol, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



Hefyd, er mwyn adlewyrchu strwythur graddio newydd y sefydliad, pasiodd y Bwrdd benderfyniad cyffredin a oedd yn caniatáu i'w Swyddogaethau Cyffredinol gael eu dirprwyo i unrhyw un o gyflogeion Ofgem ar Lefel 2 neu uwch. Mae dwy swyddogaeth orfodi benodol yn parhau i fod wedi'u dirprwyo i bob cyflogai.

Yn ystod 2022-23, bwriedir gwneud rhagor o waith i ddiweddarau materion rheoleiddio a pholisi a gedwir yn ôl i'r Bwrdd.

Cyhoeddir Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd, gan gynnwys ei Faterion a Gadwyd yn Ôl, ar [wefan Ofgem](#).

Pwyllgorau'r Bwrdd

Cyfarfu Pwyllgor RIIO-2 bum gwaith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau y caiff proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd mewn perthynas â RIIO-2, sy'n gosod systemau rheoli prisiau ar y cwmnïau sy'n gweithredu'r rhwydweithiau nwy a thrydan ym Mhrydain Fawr, ei chynnal yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'n ystyried manylion y polisi ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â materion penodol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd wneud penderfyniad yn eu cylch. Mae hefyd yn cael budd o gynghorwyr annibynnol y pwyllgor, yn rhoi canllawiau ychwanegol i dîm RIIO-2 ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar adegau priodol yn ystod y broses rheoli prisiau.

Un o bwyllgorau'r Bwrdd yw'r Panel Penderfyniadau Gorfodi, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2014 er mwyn gwneud penderfyniadau gorfodi ar ran y Bwrdd ei hun. Cafodd ei sefydlu er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch achosion gorfodi fel bod gwahaniad gweladwy rhwng y swyddogaethau ymchwilio a'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau. Mae aelodau'r panel a'i ysgrifenyddiaeth yn gyflogeion Ofgem sy'n annibynnol ar dîm yr achos. Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, sydd ar gael ar [wefan Ofgem](#).

Cyhoeddir cylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd ar [wefan Ofgem](#).

Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod tua deg gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. Hefyd, yn ystod hydref a gaeaf 2021-22, cyfarfu'r Bwrdd yn amlach er mwyn goruchwyllo a chefnogi ymateb y sefydliad i'r argyfwng prisiau nwy byd-eang, a chymeradwyo penderfyniadau penodol.

Yn ei gyfarfodydd, mae'r Bwrdd fel arfer yn ystyried amrywiaeth o faterion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys diweddariadau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, diweddariadau gan Gadeiryddion ei Bwyllgorau ar unrhyw gyfarfodydd diweddar, trafodaethau am strategaeth Ofgem, ei hamcanion strategol a'r dirwedd ehangach, materion sefydliadol, gan gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant, a phenderfyniadau ynghylch materion penodol nad ydynt wedi'u dirprwyo.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi ystyried y materion canlynol:

- Adolygu risgiau strategol Ofgem a'i datganiad o barodrwydd i dderbyn risg.
- Cymeradwyo Blaenraglen Waith Ofgem.
- Adolygu perfformiad y sefydliad, gan gynnwys ystyried dangosfwrdd perfformiad sefydliadol newydd.
- Cynnal nifer o archwiliadau dwfn, gan gynnwys rhai ar amrywiaeth a chynhwysiant, data a digideiddio, a seiberddiogelwch.
- Gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, gan gynnwys mewn perthynas â'r cap ar dariffau diofyn a nifer o fesurau i ddiogelu defnyddwyr yn y farchnad ynni.

At hynny, ac fel arfer cyn pob cyfarfod ffurfiol, mae'r Bwrdd yn cynnal sesiwn frifio lai ffurfiol. Mae'r sesiwn hon yn gyfle i'r Bwrdd drafod materion sy'n dod i'r amlwg, cael gwybodaeth am agweddau penodol ar waith Ofgem, a chlywed gan randdeiliaid ar faterion amserol. Eleni, roedd y Bwrdd yn falch o groesawu nifer o randdeiliaid i'w gyfarfodydd, gan gynnwys National Energy Action, y Ganolfan Ynni Cynaliadwy, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Yn dilyn integreiddio'r gyfarwyddiaeth Cyflawni a Chynlluniau yn yr un broses lywodraethu â gweddill Ofgem, mae ei weithgareddau a'i waith bellach yn cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd gan y Bwrdd ei hun. Mae hyn yn cynnwys adroddiad misol ar weithgareddau Cyflawni a Chynlluniau, yn ogystal ag archwiliad manwl chwarterol newydd, lle mae'r Bwrdd yn cael cyfle i drafod materion strategol yn ymwneud â Chyflawni a Chynlluniau.

Cyhoeddir cofnodion ac agendâu'r Bwrdd ar [wefan Ofgem](#).

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau fel a ganlyn:

Aelodau	Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth	Pwyllgor RIIO 2
Barry Panayi	10/10	-	4/4	-
Christine Farnish	10/10	-	4/4	4/5
John Crackett	10/10	-	-	5/5
Jonathan Brearley	10/10	4/5	4/4	4/5
Lynne Embleton	10/10	5/5	4/4	5/5
Martin Cave	10/10	5/5	4/4	5/5
Myriam Madden	10/10	5/5	-	5/5
Paul Grout	7/7	-	-	3/3

Nodiadau:

- Ymddiswyddodd Paul Grout fel aelod o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2021
- Ymddiswyddodd Paul Grout fel Cadeirydd Pwyllgor RIIO 2 ym mis Tachwedd 2021. Wedyn, penodwyd John Crackett yn Gadeirydd Pwyllgor RIIO 2.

Gwerthuso'r Bwrdd

Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd ei werthuso'n flynyddol. Mae'n arfer dda o safbwynt llywodraethu corfforaethol cynnal Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Y llynedd, yn dilyn proses gaffael gystadleuol, penodwyd Campbell Tickell i gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd. Cyhoeddir yr adroddiad ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Nodi a Rheoli Achosion o Wrthdaro Buddiannau

Mae gan Ofgem bolisi gwrthdaro buddiannau, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Ofgem. Adolygwyd a diweddarwyd y polisi hwn yn 2021-22. Mae canllawiau pellach i'r staff hefyd ar gael ar fewnrwyd staff Ofgem. O dan y polisi, mae'n ofynnol i bob aelod o staff ein hysbysu am unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau pan fyddant yn ymuno â'r sefydliad, a'n hysbysu am unrhyw newidiadau wedi hynny.



Mae'r polisi'n gymwys i bob aelod o staff, ni waeth a yw'n aelod o staff parhaol, achlysurol, cyfnod penodol, asiantaeth neu gontractwr.

Caiff unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu hasesu gan y tîm Cyllid, Caffael a Risg, sy'n ystyried a oes achos o wrthdaro ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd, ac erbyn pryd. Mae'r polisi hefyd yn nodi y caiff camau disgyblu eu cymryd yn erbyn unrhyw aelod o staff y canfyddir nad yw wedi cydymffurfio â'r trefniadau hyn. Yn unol ag arfer dda, ar gyfer adolygiadau polisi rheolaidd, mae'r polisi hwn wrthi'n cael ei adolygu a disgwylir iddo gael ei ddiweddarau'n fuan.

Cyhoeddir cofrestr buddiannau aelodau ein Bwrdd ar wefan Ofgem.

Pan fydd staff yn gadael y sefydliad, mae gennym broses ar waith i ystyried a oes angen cais o dan y Rheolau Penodiadau Busnes cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil.

Diben hyn yw sicrhau na ddylai fod achos cyfiawn dros bryder, beirniadaeth na chamddehongliad cyhoeddus pan fydd cyn aelod o staff yn ymgymryd â phenodiad neu gyflogaeth allanol.

Eleni, rydym wedi adolygu a diweddarau ein trefniadau ar gyfer ystyried ceisiadau a wneir o dan y Rheolau Penodiadau Busnes.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Myriam Madden (Cadeirydd), Lynne Embleton a Martin Cave. Mae'n cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfod penodol i adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Cwnsler Cyffredinol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Risg, a'r Pennaeth Sicrwydd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

Gwahoddir cynrychiolwyr o Archwilwyr Allanol Ofgem, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chynrychiolwyr o Archwilwyr Mewnol Ofgem, Mazars, i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd. Yn unol ag arfer da, bydd aelodau anweithredol y Pwyllgor fel arfer yn cynnal sesiwn breifat â'r archwilwyr ar ddiwedd

pob cyfarfod. At hynny, mae'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn cynnal trafodaethau rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad uniongyrchol â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rôl a chyfrifoldebau

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gylch gorchwyl, sydd wedi'i gyhoeddi ar [wefan Ofgem](#). Cafodd ei ddiweddarau yn 2021-22, er mwyn cyd-fynd ag arferion da ym maes llywodraethu corfforaethol.

Ei brif gyfrifoldebau yw cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a threfniadau rheoli risg a llywodraethu Ofgem. Bydd yn archwilio'r ffordd y mae Ofgem yn sicrhau ac yn monitro digonolrwydd y systemau rheoli ariannol ac yn argymhell unrhyw welliannau angenrheidiol.

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ac yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y rhaglen o adolygiadau archwilio gan gwmpasu prosesau ariannol, arwain, rheoli a rheolaeth allweddol sy'n sail i uniondeb ac effeithiolrwydd Ofgem, gan ystyried y risgiau allweddol y mae Ofgem yn eu hwynebu.

Eleni mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio ar wreiddio arferion da yn y sefydliad mewn perthynas â sicrwydd a chydymffurfiaeth. Fel rhan o hyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro'r gwaith o gwblhau argymhellion archwilio yn agos – ac mae wedi bod yn falch o nodi bod y sefydliad wedi parhau i sicrhau y caiff argymhellion eu rhoi ar waith yn brydlon.

Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi parhau i oruchwyllo rhaglen o welliannau i fframwaith rheoli risg Ofgem ac, yn benodol, y ffordd y mae wedi cael ei gwreiddio yn y sefydliad. Er bod rhagor o waith i'w wneud i atgyfnerthu'r fframwaith hwn, mae'r Pwyllgor wedi bod yn falch o nodi bod trefniadau rheoli risg y sefydliad yn aeddfedu'n gynyddol.

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg oedd :

- Monitro cynnydd y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22, gan gynnwys ystyried a chymeradwyo newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r rhaglenni archwilio.

- Adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol, ac adroddiadau sicrwydd eraill a gomisiynwyd gan reolwyr, ac ymatebion rheolwyr i faterion, gan gynnwys: y Rhaglen Drawsnewid, systemau rheoli prisiau rhwydweithiau, rheoli risg a chyfathrebu allanol.
- Adolygu'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23.
- Adolygu fframwaith rheoli risg Ofgem, gan ystyried camau i atgyfnerthu arferion, a monitro cynnydd yn erbyn y cynllun er mwyn gwella aeddfedrwydd.
- Cynnal nifer o archwiliadau dwfn thematig o feysydd yng ngwaith Ofgem neu risgiau strategol, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith i reoli'r ymateb i'r argyfwng nwy, sicrwydd cyflenwad ac adolygiad o broses hawlio'r ardoll Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall, yn ogystal â fframwaith sicrwydd Cyflawni a Chynlluniau.
- Craffu ar ddiogelwch gwybodaeth, bwrw golwg dros adroddiad blynyddol y swyddogion Diogelu Data ac ystyried cynnal archwiliad dwfn o risg Seiberddiogelwch.

Adrodd

Rhennir cofnodion y Pwyllgor â'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf, a chaiff Cadeirydd y Pwyllgor gyfle i roi diweddariad i'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi.

Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Christine Farnish (Cadeirydd), Lynne Embleton a Barry Panayi. Mae Martin Cave, Cadeirydd y Bwrdd, hefyd yn mynychu'r Pwyllgor. Cynhelir pedwar prif gyfarfod bob blwyddyn ac, yn ystod 2021-22, cynhaliwyd cyfarfod bob mis, fwy neu lai, er mwyn cefnogi'r Rhaglen Drawsnewid sefydliadol a oedd yn mynd rhagddo.

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl ac Ystadau i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth hefyd, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

Rôl a chyfrifoldebau

Mae gan y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth gylch gorchwyl sydd wedi'i gyhoeddi ar [wefan Ofgem](#).

Cafodd ei ddiweddaru yn 2021-22, gan wneud nifer o fân newidiadau, gan gynnwys mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth ynghylch ceisiadau a wneir o dan y Rheolau Penodiadau Busnes.

Cyfrifoldebau allweddol eraill y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yw cynghori'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar gydnabyddiaeth yr Uwch-wasanaeth Sifil, a dulliau strategol o ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â phobl sy'n effeithio ar berfformiad a llwyddiant Ofgem, ynghyd â pholisïau ar faterion o'r fath.

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth oedd:

- Cymeradwyo amcanion blynyddol tîm gweithredol Ofgem.
- Adolygu perfformiad a chydnabyddiaeth tîm gweithredol Ofgem.
- Monitro a chynghori tîm gweithredol Ofgem ar y Rhaglen Trawsnewid sefydliadol barhaus.
- Adolygu canlyniadau'r Arolwg Pobl blynyddol ac ystyried meysydd i'w gwella.
- Cynnal nifer o archwiliadau dwfn thematig o faterion yn ymwneud â phobl, gan gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant.
- Adolygu dangosfwrdd Adnoddau Dynol ar ei newydd wedd, gyda metrigau allweddol ar gyfer materion yn ymwneud â phobl.

Adrodd

Rhennir cofnodion y Pwyllgor â'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf, a chaiff Cadeirydd y Pwyllgor gyfle i roi diweddariad i'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi.

Y Pwyllgor Gweithredol

Rôl a chyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cefnogi'r Prif Weithredwr yn y gwaith o redeg y sefydliad, ac nid yw'n un o bwyllgorau ffurfiol y Bwrdd. Caiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cyfarfod yn fisol. Mae hefyd yn cynnal sesiwn dal i fyny wythnosol anffurfiol.



Mae aelodau'r Pwyllgor Gweithredol wedi'u rhestru ar [wefan Ofgem](#). Gwahoddir aelodau eraill o staff Ofgem i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol yn ôl yr angen.

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnig un fforwm rheoli i drafod materion rheoleiddio a materion sefydliadol. Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Gweithredol oedd rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r canlynol:

- Sefydlu trefniadau llywodraethu dros dro gyda chyfarfodydd ddwywaith yr wythnos rhwng y cyfarwyddwyr perthnasol i gydgyssylltu gwaith, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywio polisi mewn ymateb i'r argyfwng ynni.
- Ystyried ymatebion y rheolwyr i adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau sicrwydd eraill a monitro cynnydd wrth roi argymhellion yr adroddiadau hynny ar waith.
- Adolygu risgiau strategol gan greu is-grŵp risg i gynghori ar briodoldeb risgiau, y camau lliniaru a'r gwelliannau y bydd angen eu gwneud i'r fframwaith rheoli risg ehangach.
- Ystyried materion pwysig sy'n ymwneud â phobl, a strategaeth a pholisïau amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad.
- Adolygu cynigion polisi neu reoliadol pwysig neu drawsbynciol, neu faterion pwysig sy'n ymwneud â threfniadau Ofgem ar gyfer rhoi cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar waith.
- Adolygu papurau a gyflwynir gan y rheolwyr i'r Bwrdd neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd.

Adrodd

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn darparu adroddiad misol i'r Bwrdd, gan grynhoi materion proffil uchel a materion llosg sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys gweithgareddau'r Pwyllgor Gweithredol fel y bo'n briodol.

Presenoldeb Ofgem yng Nghymru a'r Alban

Mae presenoldeb Ofgem yn yr Alban yn parhau i dyfu, gyda dros 500 o aelodau o'n timau yn gweithio o'n swyddfa yn Glasgow. Wrth i ni newid i ffordd hybrid newydd o weithio yn dilyn y pandemig, cwblhawyd y gwaith o adnewyddu'r swyddfa yn ystod hydref 2021 er mwyn rhoi gweithle modern, newydd i'n cydweithwyr yn Glasgow. Mae llawer o'n cydweithwyr yn y swyddfa yn Glasgow yn gweithio i gyflwyno cynlluniau ynni cynaliadwy ac amgylcheddol i ddefnyddwyr ledled Prydain Fawr fel rhan o'n hisadran Cyflawni a Chynlluniau. Rydym yn ymgysylltu'n aml â rhanddeiliaid ledled yr Alban, a gwnaethom helpu Pwyllgor Senedd yr Alban ar Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth i ffurfio rhai o'i syniadau cychwynnol yn dilyn etholiadau mis Mai 2021. Ar ben hynny, bydd arweinwyr Ofgem yn cwrdd yn aml ag arbenigwyr ynni, y diwydiant, arloeswyr a grwpiau defnyddwyr o bob cwr o'r Alban, ac rydym yn parhau i gynnal perthynas waith gadarn â nifer o is-adrannau Llywodraeth yr Alban.

Mae ein presenoldeb yng Nghymru yn parhau i gryfhau. Rydym yn falch o fod wedi sicrhau lle ychwanegol yn swyddfeydd hyb newydd y gwasanaeth sifil yn Nhŷ William Morgan yng nghanol Caerdydd, sydd wedi ein helpu i ehangu ein gweithgarwch recriwtio yng Nghaerdydd a chynyddu nifer y cydweithwyr a gyflogir gennym o bob cwr o Gymru. Mae meithrin cydberthnasau cydweithredol cadarn yn allweddol er mwyn i ni ddeall anghenion ein rhanddeiliaid ac, yn ei rôl fel uwch bwynt cyswllt ar lefel bwrdd i Gymru, mae ein Cadeirydd, Martin Cave, wedi parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o rhanddeiliaid ledled Cymru i wrando ar leisiau defnyddwyr yng Nghymru, yn ogystal â chlywed safbwyntiau arbenigwyr ynni a ffigurau dylanwadol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, diwydiant, arloeswyr a grwpiau cymunedol. Un o allbynnau uniongyrchol y gwaith partneriaeth estynedig hwn yw bod Prif Beiriannydd Ofgem, Peter Bingham, yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a chwmnïau rhwydwaith yng Nghymru i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer rhwydweithiau ynni yng Nghymru.

Rheoli Risg

Mae ein polisi Rheoli Risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem: sut y dylem nodi, gweinyddu a rheoli risgiau. Rydym yn cydnabod y gall amlygiad i risg arwain at ganlyniadau

negyddol ond hefyd ganlyniadau cadarnhaol: ein tasg yw rheoli nid yn unig y risgiau a all fod yn andwyol i ddefnyddwyr ond hefyd y cyfleoedd hynny a allai amlygu defnyddwyr i'r canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o gystadleuaeth a rheoleiddio gwell.

Mae'r Bwrdd yn defnyddio cyngor a chymorth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol am y Fframwaith Rheoli Risg a phennu ein parodrwydd i dderbyn risg. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn archwilio ein risgiau strategol a'r mesurau lliniaru a nodwyd ym mhob cyfarfod. Cymeradwydd ein Bwrdd Ddatganiad o Barodrwydd i Dderbyn Risg ym mis Ebrill 2022.

Ar ddiwedd 2021, gwnaethom sefydlu Is-grŵp y Pwyllgor Gweithredol ar risg i gwrdd bob mis i adolygu ein risgiau strategol a herio'r ffordd y cânt eu meintoli a'r mesurau lliniaru a nodwyd er mwyn sicrhau cysondeb sgorio ac y creffir yn briodol ar risgiau strategol newydd.

Yn ystod 2021-22, gwnaethom sefydlu Rhwydwaith Rheolwyr Risg sy'n cwrdd bob mis i sicrhau cysondeb yn ein dull gweithredu a rhannu arferion gorau.

Rydym wedi cynnal rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu ar gyfer y garfan hon ac wedi nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn gwella eu hyder a'u cymhwysedd i arwain ein gwaith rheoli risg mewn unedau busnes unigol.

Cynhaliodd yr archwilydd mewnol ddau adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd yn ystod 2021-22. Cwblhawyd Rhan 1 ym mis Mehefin 2021, gan ganolbwyntio ar ddylunio'r mesurau rheoli mewn perthynas â'r fframwaith rheoli risg, a chwblhawyd Rhan 2 ym mis Ionawr 2022 gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg, yn ogystal ag adolygiad o ddyluniad y mesurau rheoli mewn perthynas â'r Fframwaith Sicrwydd.

Daeth yr adolygiadau i'r casgliad bod dyluniad yr adnoddau a'r cynllun yn ddigonol, ond bod heriau o ran eu gwreiddio'n gyson ym mhob rhan o'r sefydliad.

Ein hasesiad risg

Yn ystod y flwyddyn, dyma'r risgiau strategol mwyaf sylweddol a nodwyd ac a liniarwyd:

Risg	Ymateb
Bygythiadau i sicrwydd cyflenwad. Mae'r risg hon yn un gymhleth sy'n cynnwys nifer o elfennau ac achosion, gan gynnwys a oes digon o gyflenwad i fodloni'r galw, a yw'r pibellau a'r gwifrau'n gweithio'n iawn, a ffactorau geowleidyddol.	Gwnaethom ymgysylltu â BEIS a gweithredwyr y system ynghylch nodi pryderon penodol ac opsiynau i'w lliniaru. Ymhlith yr opsiynau roedd: - Gofynion storio sylfaenol - Lleihau galw domestig a diwydiannol - Cyd-gontractau cyflenwi nwy Ewropeaidd - Mewnforion nwy amgen - Adolygiad o berchenogaeth seilwaith allweddol - Cynhyrchu mwy o fionwy a chyflymu prosiectau hydrogen - Cyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy
Rhagor o darfu ar y farchnad ynni oherwydd grymoedd geowleidyddol a natur anwadal prisiau cyfanwerthol. . O ganlyniad i ymosodiad Rwsia ar Wcráin, gan gynnwys prisiau nwy uchel ac anwadal ac effaith posibl sancsiynau, gan olygu y bydd rhagor o gyflenwyr yn ymadael â marchnad y DU.	Mae ein Pwyllgor Gweithredol a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynnal archwiliad dwfn o'r risg sylweddol hon, ac mae GEMA wedi ei harchwilio, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn rhan o dasglu trawslywodraethol sy'n edrych ar y mater hwn. Rydym yn ymgysylltu â'r farchnad lle mae angen strategaeth ymadael er mwyn sicrhau proses ymadael wedi'i rheoli sy'n achosi cyn lleied â phosibl o darfu. Rydym yn annog sefydliadau allweddol a rheoleiddwyr Ewropeaidd i fod yn barod.
Stiwardiaeth Data/Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Reoliadol. Rheoli neu amlygu gwybodaeth neu ddata heb awdurdod a/neu mewn ffordd amhriodol, gan arwain at effaith andwyol ar Ofgem, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant.	Rydym wedi rhoi polisiau ac arferion cadarn ar waith ar gyfer trin data ac wedi ategu'r rhain ag hyfforddiant a rolau a chyfrifoldebau clir. Rydym wedi gwella'r trefniadau ar gyfer monitro gweithgareddau trin data er mwyn nodi gwendidau a mynd i'r afael â nhw. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o Uwch Berchenogion Asedau Gwybodaeth ar gyfer pob cyfarwyddiaeth ac wedi adolygu ein hasedau gwybodaeth. Rydym yn cyflwyno adroddiadau misol ar achosion o dor diogelwch data a gwraidd y broblem er mwyn lleihau nifer yr achosion.



Risg	Ymateb
Dim digon o adnoddau i gyflawni gwaith allweddol	Gwnaethom barhau i gynnal rhaglen drawsnewid uchelgeisiol, gan gynnwys strwythur symlach a gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol. Gwnaethom gais llwyddiannus am gyllideb ychwanegol yn 2021-22 a 2022-23 er mwyn ymateb i ddigwyddiadau yn y farchnad. Rydym yn recriwtio staff ychwanegol i sicrhau arbenigedd digonol yn fewnol.
Cadernid Ariannol a Threfniadau Llywodraethu Annigonol ymhlith partïon a reoleiddir , gan arwain at darfu ar gwsmeriaid, costau uwch i ddefnyddwyr, effeithiau'n lledaenu i gwmnïau/rhwydweithiau eraill, problemau posibl o ran sicrwydd cyflenwad.	Rydym yn adeiladu ar y gwaith monitro sydd eisoes yn cael ei wneud i nodi mesurau eraill y gellir eu cyflwyno ym mhob rhan o'r diwydiant i nodi problemau posibl ac ymateb iddynt yn gynharach. Ymhlith y rhain mae clustnodi credyd cwsmeriaid a rhoi gofynion ar waith o ran cadernid ariannol a mesurau rheoli ar gyfer cyflenwyr newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli.
Mae'r broses o bontio i sero net yn arafach a/neu'n ddrutach nag sydd angen.	Fe wnaethom gyflawni nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys: a) sicrhau ein bod yn deall sut i sicrhau proses bontio am y gost isaf, a bod hynny wedi'i wreiddio yn strategaeth a rhaglenni gwaith Ofgem – mae datgarboneiddio am y gost isaf yn rhan benodol o'n blaenoriaethau strategol, a'n rhaglenni newid strategol, a diwygiadau tymor canolig/hirdymor allweddol a nodwyd yn Destination 2035 er mwyn hwyluso proses bontio am y gost isaf. b) ymgysylltu â Llywodraeth Ei Mawrhydi a'r Gweinyddiaethau Datganoledig lle y gallwn eu helpu i sicrhau proses bontio am y gost isaf, neu lle mae angen eu cymorth nhw arnom (e.e. deddfwriaeth) er mwyn i Ofgem sicrhau proses bontio am y gost isaf – ymgysylltu'n dda â Llywodraeth Ei Mawrhydi ar y materion polisi sero net allweddol. Bydd angen buddsoddiad parhaus (e.e. yn REMA) i sicrhau cysondeb o ran diwygiadau hirdymor/Destination 2035 ac ymgysylltu pellach â'r Gweinyddiaethau Datganoledig c) sicrhau bod effeithiau CO2 a newid trawsffurfiol yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn papurau polisi ac asesiadau effaith perthnasol, a monitro ein cynnydd o ran prif elfennau pontio am y gost isaf –
Mae digwyddiad seiber yn achosi toriad lleol, amlranbarthol neu genedlaethol yn y cyflenwad.	Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i sefydliadau allweddol yn yr is-sectorau trydan a nwy roi mesurau priodol a chymesur ar waith i reoli risgiau diogelwch. Mae Ofgem yn Awdurdod Cymwys ar y cyd â BEIS, sy'n rhoi hawliau gorfodi. Mae gofynion tebyg yn bodoli ar gyfer sefydliadau mesuryddion deallus. Gwnaethom ddefnyddio proses RIIO Ofgem i ariannu is-set o weithgareddau seiberddiogelwch sefydliadau'r sector ynni. Ar y cyd â BEIS, gwnaethom bennu'r meincnod i sefydliadau ei gyrraedd o ran risgiau seiber a rhoi canllawiau ar y rheoliadau. Aethom ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â sefydliadau'r sector ynni, ar bob lefel, i sicrhau eu bod yn cydnabod eu gofynion rheoleiddiol ac yn parhau i wneud newidiadau'n ddigon cyflym. Gwnaethom gynnal rhaglen arolygu er mwyn asesu pa mor addas yw mesurau rheoli seiber yn y sector.

Risg	Ymateb
Mae polisïau neu weithredoedd y llywodraeth yn cael effaith negyddol ar amcanion cyflawni rheoleiddiol a/neu gynlluniau; neu'n arwain at anghytuno cyhoeddus ag Ofgem ynghylch mater rheoleiddiol/polisi pwysig	Gwnaethom fuddsoddi mewn cydberthynas gadarn ac effeithiol â rhanddeiliaid ymhlith y llywodraeth a chyrrff y diwydiant gan sicrhau ein bod, ar lefel uwch ac ar lefel weithredol, yn cwrdd yn rheolaidd â Gweinidogion a swyddogion yn BEIS, Trysorlys Ei Mawrhydi, Rhif 10 ac eraill.
Cynnydd yn amllder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd a achosir gan newid yn yr hinsawdd gan arwain at fwy o darfu ar gyflenwadau ynni	Gwnaethom weithio gyda BEIS a Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu safonau ar gyfer meithrin gallu seilwaith cenedlaethol allweddol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, ac rydym yn ymgysylltu â rhwydweithiau ynghylch ffyrdd o ysgogi gwelliannau o ran cadernid rhwydweithiau.
Hen galedwedd a systemau TG neu rai nad ydynt yn addas at y diben yn arwain at doriadau yn y gwasanaeth TG i staff Ofgem a phartïon allanol sy'n defnyddio ein systemau.	Gwnaethom gynnal rhaglen adnewyddu ac amnewid ginhwysfawr er mwyn sicrhau rhagweladwydd a sefydlogrwydd yn ein gwasanaethau seilwaith craidd, ein system gyllid a chofrestrau cynlluniau'r llywodraeth. Rydym wedi gosod caledwedd newydd yn lle'r rhan fwyaf o hen ddyfeisiau defnyddwyr ac ar y trywydd iawn i symud cymwysiadau sydd ar weinyddion i'r cwmwl.



Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

Cwblhaodd ein Harchwilydd Mewnol, Mazars LLP, amserlen y cytunwyd arni o adolygiadau yn ystod y flwyddyn. Nodwyd yr adolygiadau hyn drwy waith cynllunio Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg a chyfweliadau â rheolwyr Ofgem a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd y rhaglen Archwilio Mewnol yn cynnwys wyth archwiliad, a chyhoeddwyd tri adroddiad a oedd yn rhoi 'Sicrwydd Cymedrol', pedwar a oedd yn rhoi 'Sicrwydd Cyfyngedig', ac un a oedd yn rhoi 'Sicrwydd Anfodddhaol'. Argymhellodd yr adolygiadau gyfanswm o wyth argymhelliaid â blaenoriaeth uchel a 57 o argymhellion eraill. Gwnaethom fonitro'r gwaith o roi'r camau dilynol ar waith, ac roedd yr holl gamau a oedd ar agor yn ystod y flwyddyn naill ai wedi'u cwblhau'n foddhaol erbyn 31 Mawrth 2022 neu'n dal i fynd rhagddynt o fewn y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn yr adroddiadau archwilio.

Rhoddodd Barn Archwilio Mewnol Mazars sicrwydd cymedrol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Ar y cyfan, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Tynnodd y gwaith archwilio sylw at rai gwendidau ac eithriadau penodol, lle y gwnaeth Mazars argymhellion Blaenoriaeth 1 a 2. Roedd un farn sicrwydd anfodddhaol (Systemau Rheoli Prisiau Rhwydwaith) a nododd Mazars y bydd angen i Ofgem sicrhau ei bod yn parhau ar ei thrywydd cadarnhaol o ran rhoi argymhellion ar waith er mwyn sicrhau y caiff risgiau hysbys eu lliniaru, yn enwedig lle mae argymhellion sylfaenol/sylweddol wedi cael eu gwneud.

Fodd bynnag, nododd Mazars fod Ofgem yn rhoi argymhellion ar waith yn gyflymach eleni, a'i fod wedi cael gwybodaeth fanwl am weithgarwch trawsnewid arfaethedig mewn perthynas â rheoli risg. Hefyd, cadarnhaodd Mazars fod argymhellion sylfaenol a wnaed yn ei adroddiad wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn.

Yn yr un modd, mae mesurau rheoli prosiectau yn parhau i fod yn thema allweddol ar gyfer gwella yn Ofgem a chafodd Mazars gyfle i fwrw golwg dros gynlluniau ynghylch pa newidiadau a gaiff eu gwneud yn y maes hwn, a'u trafod ag Ofgem.

Er bod Mazars yn cytuno ag Ofgem y dylid cynyddu ei gweithgarwch sicrwydd mewn ymateb i'r argyfwng ynni cyflenwyr, roedd yn fodlon ar yr hyn a wneir. Hefyd, cafodd gyfle i fwrw golwg dros gwmpas y gwaith sicrwydd a wneir a llwyddodd i asesu meysydd risg allweddol drwy bapurau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, megis risgiau caffael mewn perthynas â phrosesau un tendr.

Mae'r holl argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith, neu mae hynny'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Ffynonellau sicrwydd ychwanegol

Yn ychwanegol at Farn Sicrwydd Flynyddol yr Archwilydd Mewnol, rydym hefyd yn cynnal asesiad mewnol o amgylchedd rheoli Ofgem. Mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am lofnodi Datganiad Sicrwydd blynyddol, sy'n rhoi sicrwydd bod systemau rheoli Ofgem yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol yn ei adran berthnasol.

Mae asesiad y Datganiad Sicrwydd yn cwmpasu 38 o reolaethau mewnol allweddol. Eleni, roedd prif gasgliadau'r adolygiad yn cynnwys:

- Gwelliant sylweddol i ddull Ofgem o reoli gwybodaeth, gan gydnabod cynnydd tua diwedd y flwyddyn. Mae angen gwneud rhagor o waith i gynnal y sylfaen hon ac adeiladu arni, yn enwedig er mwyn ceisio bod yn fwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.
- Y fframwaith rheoli risg sydd wedi'i ddylunio'n dda, a'r adnoddau cysylltiedig, sydd wedi cael eu rhoi ar waith ym mhob cyfarwyddiaeth – ond, mewn rhai achosion, roedd cynnyrch sylfaenol hyfyw i adeiladu arno o hyd.
- Rhoddodd yr argyfwng nwy bwysau gwaith sylweddol ar lawer o dimau Ofgem, gan olygu nad oedd cydymffurfiaeth â phrosesau corfforaethol bob amser yn cyrraedd safonau cyson uchel.
- Gwnaeth timau corfforaethol reoli gwaith yn ofalus gan helpu i ddefnyddio adnoddau yn gyflym lle bo angen er mwyn ymateb i'r argyfwng nwy, gan gynnal lefel ddigonol o reolaeth.

Ar y cyfan, roedd mesurau lliniaru digonol ar waith i nodi a rheoli risg ym mhob rhan o'r sefydliad.

Hefyd, comisiynodd Bwrdd Ofgem adolygiad o achosion sylfaenol y methiannau cyflenwyr a ddigwyddodd yn ystod hydref a gaef 2021-22 ac, yn

benodol, y rhan a chwaraewyd gan y ffordd y caiff y diwydiant ei reoleiddio.

Yn dilyn proses gaffael gystadleuol, penodwyd Oxera, y cwmni ymgynghori ar economeg a chyllid, ym mis Ionawr 2022 i gynnal a chyflawni'r adolygiad yn gyflym, gydag ymrwymiad gan y Bwrdd y byddai'n cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y byddai wedi'i gwblhau'n derfynol. Cafodd yr adroddiad terfynol a'r argymhellion eu cyflwyno i Ofgem a'u cyhoeddi ym mis Mai 2022.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, yr oedd llawer ohonynt eisoes yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau y caiff yr holl argymhellion eu rhoi ar waith er mwyn atgyfnerthu'r gyfundrefn reoleiddio ymhellach, gan adeiladu ar waith gan gydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad.

Chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol Ofgem yn cynnig proses i'r staff godi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban ac yn cefnogi diwylliant lle mae cyflogaion yn teimlo'n hyderus i godi materion sy'n achos pryder. Mae'n gyson â'r argymhellion a'r arferion da a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Sifil a Public Concern at Work.

Ni chodwyd yr un mater o dan y polisi hwn yn ystod y flwyddyn.

Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Ni chafodd unrhyw achosion eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon Seneddol yn ystod y flwyddyn.

Casgliad

Gwnaed cryn dipyn o waith dros y flwyddyn i drawsnewid y sefydliad gan ymateb i argyfwng nwy digynsail ar yr un pryd, ac rwy'n falch ein bod wedi llwyddo i gynnal Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol gymedrol dan amgylchiadau heriol.

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r blaenoriaethu yr oedd ei angen ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn ymateb i'r argyfwng, gwnaed llai o gynnydd nag a fwriadwyd mewn perthynas ag amcanion corfforaethol. Mae'r polisïau, prosesau ac adnoddau yn gwella ond mae rhagor o waith i'w wneud, yn enwedig o ran rheoli prosiectau a risg, er mwyn cyfleu rhai o'r newidiadau a gwreiddio diwylliant o gydymffurfiaeth. Rwy'n hyderus y bydd y gwelliannau arfaethedig yn sicrhau ein bod yn parhau i gryfhau ein gallu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, a chynnig gwerth am arian iddynt.

Jonathan Brearley

Prif Swyddog Gweithredol

11 Gorffennaf 2022



Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff



Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff

Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod a thrwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi dan be amgylchiadau y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn nodi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y rheolwyr mwyaf profiadol (h.y. aelodau'r Bwrdd) yn yr adran.

Polisi Cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r Cadeirydd, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, mae pob un o'n huwch-gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob aelod parhaol o staff yn yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.



Cyfanswm cydnabyddiaeth gyfan (archwiledig)

Swyddogion	Cyflog (£'000)		Taliadau bonws (£'000)		Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf)		Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf) ⁴		Cyfanswm (£'000)	
	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21
Aelodau o Bwyllgor Gweithredol Ofgem⁵										
Jonathan Brearley Prif Weithredwr	185-190	185-190	10-15	15-20	-	-	63,000	108,000	260-265	305-310
Akshay Kaul	115-120	115-120	10-15	10-15	-	-	46,000	46,000	175-180	170-175
Amana Humayun⁶	-	85-90	-	-	-	-	-	36,000	-	120-125
Anna Rossington⁷	90-95	-	5-10	-	-	-	37,000	-	135-140	-
Anthony Pygram⁸	-	70-75	-	-	-	-	-	36,000	-	105-110
Cathryn Scott	120-125	120-125	-	15-20	-	-	41,000	64,000	160-165	195-200
Charlotte Ramsay⁹	70-75	0-5	-	-	-	-	28,000	2,000	100-105	5-10
Chris O'Connor¹⁰	225-230	-	-	-	-	-	-	-	225-230	-
Euan McVicar¹¹	10-15	130-135	-	-	-	-	6,000	52,000	20-25	180-185
Frances Warburton¹²	-	85-90	-	-	-	-	-	34,000	-	120-125
Jonathan Spence¹³	85-90	-	-	-	-	-	35,000	-	120-125	-
Mark Wiltsher¹⁴	-	95-100	-	5-10	-	-	-	38,000	-	140-145
Mary Starks¹⁵	-	70-75	-	-	-	-	-	29,000	-	100-105
Neil Kenward	100-105	100-105	-	-	-	-	32,000	133,000 ¹⁶	135-140	230-235
Neil Lawrence¹⁷	95-100	-	-	-	-	-	38,000	-	135-140	-
Patricia Dregghorn¹⁸	-	105-110	-	15-20	-	-	-	42,000	-	160-165
Peter Bingham¹⁹	105-110	-	-	-	-	-	38,000	-	140-145	-
Philippa Pickford	85-90	85-90	-	-	-	-	25,000	34,000	110,115	115-120

⁴ Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu leihad sydd i'w briodoli i drosglwyddo hawliau pensiwn.

⁵ Lle roedd cyfarwyddwyr yn eu swyddi yn 2020-21 ond ddim yn cael eu hystyried yn rhan o'r strwythur rheoli ar y pryd, nid yw'n ofynnol datgelu ffigurau cymharol.

⁶ Gadawodd Ofgem ym mis Ionawr 2021

⁷ Bu'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol rhwng mis Chwefror 2021 a mis Gorffennaf 2021

⁸ Gadawodd Ofgem ym mis Tachwedd 2020, a chafodd gyfanswm iawndal o £230,000 - £235,000

⁹ Ymunodd ag Ofgem ym mis Chwefror 2021

¹⁰ Ymunodd ag Ofgem ym mis Awst 2021

¹¹ Gadawodd Ofgem ym mis Mai 2021

¹² Gadawodd Ofgem ym mis Rhagfyr 2020, a chafodd gyfanswm iawndal o £55,000 - £60,000

¹³ Bu'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Gorffennaf 2021, a gadawodd Ofgem ym mis Rhagfyr 2021

¹⁴ Bu'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021

¹⁵ Gadawodd Ofgem ym mis Medi 2020, a chafodd gyfanswm iawndal o £45,000 - £50,000

¹⁶ Effeithiodd codiad cyflog oherwydd dyrchafiad ar werth 2020-21

¹⁷ Ymunodd ag Ofgem ym mis Gorffennaf 2021

¹⁸ Gadawodd Ofgem ym mis Ionawr 2021

¹⁹ Bu'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol o fis Ionawr 2022



Swyddogion	Cyflog (£'000)		Taliadau bonws (£'000)		Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf)		Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)		Cyfanswm (£'000)	
	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21
Aelodau o Bwyllgor Gweithredol Ofgem										
Priya Brahmabhatt-Patel²⁰	100-105	15-20	-	-	-	-	116,000	29,000	220-225	45-50
Richard Smith²¹	70-75	10-15	-	-	-	-	29,000	5,000	100-105	15-20
Simon Wilde²²	155-160	150-155	-	5-10	-	-	60,000	20,000	215-220	175-180
Sinead Murray²³	75-80	-	-	-	-	-	71,000	-	145-150	-
Stephanie Broadribb²⁴	40-45	95-100	-	10-15	-	-	18,000	39,000	60-65	145-150
Aelodau anweithredol o'r Awdurdod										
Martin Cave Chair	160-165	160-165	-	-	-	-	-	-	160-165	160-165

Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod	2021-22		2020-21	
	Honorariwm	Lwfans	Honorariwm	Lwfans
Paul Grout ²⁵	£13,500	£2,000	£20,000	£3,000
Christine Farnish	£20,000	£3,000	£20,000	£3,000
Lynne Embleton	£20,000	-	£20,000	-
John Crackett	£20,000	£1,250 ²⁶	£20,000	-
Ann Robinson ²⁷	-	-	£10,500	-
Myriam Madden	£20,000	£3,000	£20,000	£3,000
Barry Panayi	£20,000	-	£20,000	-

Cydnabyddiaeth i aelodau o'r Panel Penderfyniadau Gorfodi		
	2021-22 (£'000)	2020-21 (£'000)
Megan Forbes	20-25	40-45
Amelia Fletcher	5-10	5-10
Elizabeth France	0-5	0-5
Andrew Long	5-10	0-5
Dr Ulrike Hotopp	0-5	10-15
Ali Nikpay	0-5	0-5
Dr Philip Marsden	0-5	5-10
Peter Hinchliffe	0-5	5-10

²⁰ Ymunodd ag Ofgem ym mis Ionawr 2021²¹ Ymunodd ag Ofgem ym mis Chwefror 2021²² Ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Rhagfyr 2020²³ Ymunodd ag Ofgem ym mis Awst 2021²⁴ Gadwodd Ofgem ym mis Medi 2021²⁵ Left Ofgem in November 2021²⁶ Gadawodd Ofgem ym mis Tachwedd 2021²⁷ Left Ofgem in September 2020



Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros; goramser; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronrus a wnaed gan yr Adran ac a gofnodwyd felly yn y cyfrifon hyn.

Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan yr Adran ac a gaiff eu trin gan Cyllid a Thollau EM yn dâl trethadwy.

Taliadau Bonws (archwiliedig)

Mae taliadau bonws yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddir a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae taliadau bonws yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn pan ddônt yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau yr adroddwyd arnynt yn 2021-22 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2020-21 ac mae'r bonysau cymharol yr adroddwyd arnynt yn 2020-21 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2019-20.

Yn 2021-22 roedd 910 o staff (2020-21: 777 o staff) a gafodd fonws. Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,301 (2020-21: £1,336) a'r cyfanswm a dalwyd mewn taliadau bonws oedd £1,184,060 (2020-21: £1,038,277). Cafodd dau unigolyn y bonws mwyaf, sef £14,000 (2020-21: cafodd tri unigolyn y bonws mwyaf, sef £15,000.

Luosrifau Cyflog (archwiliedig)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydabyddiaeth ariannol chwarterl isaf, ganolrifol a chwarterl uchaf gweithlu'r sefydliad. Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r Cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf ym mlwyddyn ariannol 2021-22 oedd £325,000-£330,000 (2020-21: £200,000-205,000).

Mae'r tabl isod yn dangos cymarebau pwynt canol cydnabyddiaeth wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf, i ffigurau cyflog a buddiannau'r cyflogaion y mae eu cyflog a'u buddiannau ar 25ain, 50fed a 75ain ganradd cyflogaion Ofgem ar gyfer 2021-22:

Cymhareb tâl y 25 ^{ain} Ganradd (Chwarterl Isaf)	Cymhareb tâl yr 50 ^{fed} Ganradd (Canolrifol) ²⁸	Cymhareb tâl y 75 ^{ain} Ganradd (Chwarterl Uchaf)
11.18:1	8.54:1 (2020-21: 5.3:1)	5.95:1

Mae cyfanswm tâl a buddion 2021-22 ac elfen gyflog cyfanswm tâl a buddion y gweithwyr ar y 25ain, 50fed a 75ain canradd i'w gweld isod:

	25 ^{ain} Ganradd (Chwarterl Isaf) £	50 ^{fed} Ganradd (Canolrifol) £	75 ^{ain} Ganradd (Chwarterl Uchaf) £
Cyfanswm tâl a buddiannau	29,298	38,357	55,067
Elfen gyflog y cyfanswm tâl a buddiannau	29,035	37,229	53,751

Y newid canrannol cyfartalog o gymharu â 2020-21 yng nghyflog a lwfansau cyflogaion Ofgem gyda'i gilydd oedd gostyngiad o 0.1% ac, mewn taliadau perfformiad a bonws a oedd yn daladwy, ostyngiad o 1.3%.

Yn 2021-22, ni chafodd dim un (2020-21: dim) o gyflogaion Ofgem gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £18,182 i £202,477 (2020-21: £18,182 i £205,000). Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

²⁸ 2020-21: 5.3:1

Buddiannau Pensiwn (wedi'u harchwilio)

	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/22 a chyfandaliad cysylltiedig	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/22	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/21	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
Officials	£000	£000	£000	£000	£000
Jonathan Brearley Prif Weithredwr	45 - 50 ynghyd â chyfandaliad o 70 - 75	2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad o 0	705	633	28
Akshay Kaul	10 - 15	2.5 - 5	154	120	22
Anna Rossington	25 - 30	0 - 2.5	387	346	22
Cathryn Scott	40 - 45	0 - 2.5	695	636	22
Charlotte Ramsay	0 - 5	0 - 2.5	19	1	12
Chris O'Connor	-	-	-	-	-
Euan McVicar	5 - 10	0 - 2.5	96	93	3
Jonathan Spence	20 - 25	0 - 2.5	243	220	17
Neil Kenward	30 - 35 ynghyd â chyfandaliad 55 - 60	0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad 0	543	499	13
Neil Lawrence	0 - 5	0 - 2.5	25	-	18
Peter Bingham	10 - 15	0 - 2.5	146	111	22
Philippa Pickford	25 - 30 ynghyd â chyfandaliad 45 - 50	0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad 0	430	396	9
Priya Brahmbhatt- Patel	30 - 35	5 - 7.5	412	323	66
Richard Smith	0 - 5	0 - 2.5	24	3	15
Simon Wilde	10 - 15	2.5 - 5	164	115	33
Sinead Murray	30 - 35 ynghyd â chyfandaliad 60 - 65	2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad 5 - 7.5	511	436	51
Stephanie Broadribb	0 - 5	0 - 2.5	55	42	9



Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y cynllun bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol (**classic, premium neu classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Am fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodir gan y llysoedd yn y ffordd y cafodd diwygiadau pensiwn 2015 eu cyflwyno i rai aelodau, disgwyl y gall aelod cymwys â chyfnod perthnasol o wasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i gael buddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw maes o law (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a welir yn yr adroddiad hwn - gweler isod). Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i **alpha** wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha yn briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur

a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu gyfraniad diffiniedig (prynu arian) sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyfloggeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddiannau **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau premium yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth ar gyfer **premium**. Yn wahanol i'r cynllun **classic**, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun **classic plus** yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **classic** a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun **premium**. Bydd aelod o gynllun **nuvos** yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Mae buddiannau yn y cynllun **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd Gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o gynllun Mastertrust Legal & General. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy hefyd i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).



Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau **classic**, **premium a classic plus**, 65 oed ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oeddrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan

www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun.

Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Lawndal am golli swydd (wedi'i archwilio)

Ni chafodd yr un aelod o'r Pwyllgor Gweithredol iawndal am golli swydd yn ystod 2021-22.



Adroddiad staff

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (archwiledig)

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

			2021-22	2020-21
	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Rheoleiddio	349	22	371	395
Cyflawni a Chynlluniau	429	48	477	423
Gweithrediadau	326	72	398	369
Cyfanswm	1,104	142	1,246	1,187

Roedd 51 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 37 ym mand cyflog 1, 13 ym mand cyflog 2, ac 1 ym mand cyflog 3.

Costau staff (archwiledig)

Mae costau staff yn cynnwys			2021-22 £000	2020-21 £000
	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogau	53,617	11,194	64,811	57,516
Costau nawdd cymdeithasol	6,032	373	6,405	5,630
Costau pensiwn eraill	13,649	902	14,551	12,911
Costau staff eraill	74	16	90	257
Lefi Prentisiaethau (gwariant treth)	266	2	268	234
Cyfanswm	73,638	12,487	86,125	76,548

Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha”, ond ni all Ofgem nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actiwari'r cynllun gynllun PCSPS ar 31 Mawrth 2016. Rhoddir manylion yng nghyfrifon.

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £14,375,547 yn daladwy i'r PCSPS (2020-21: £12,729,324) ar un o'r pedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandau cyflog. Mae actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir y cyfraddau

cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2021/22 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn **partneriaeth**, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £180,587 (2020-21: £175,202) i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac roeddent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy.

Yn ogystal, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £7,023 (2020-21: £6,798), sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu'r gost o ddarparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd salwch.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £21,795 (2020-21: dim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalau ar y dyddiad hwnnw.

Ni wnaeth neb (2020-21: neb) ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; ni chronnwyd unrhyw rwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn (2020-21: dim).

Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2021-22 oedd £23.4 miliwn, yn unol â nodyn 3 o'r cyfrifon (2020-201: £18.7 miliwn; 2019-20: £15.8 miliwn). Rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarvoud cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

Penodiadau nad ydynt ar y gyflogres

Penodiadau gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres am dâl uchel ar 31 Mawrth 2022, yn ennill £245 y dydd neu fwy:

	Nifer
Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2022	1
O'r rhai hynny, y nifer a oedd yn bodoli:	
am lai na blwyddyn	1
rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-
rhwng dwy a thair blynedd	-
rhwng tair a phedair blynedd	-
am bedair blynedd neu fwy	-

Yr holl weithwyr nad ydynt ar y gyflogres a benodwyd am dâl uchel ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, yn ennill £245 y dydd neu fwy:

	Nifer
Nifer y gweithwyr dros dro nad ydynt ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	1
O'r cyfanswm hwnnw:	
Heb fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ar gyfer gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres	-
Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ar gyfer gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres ac yn cael ei ystyried o fewn cwmplas IR3526	1
Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael ei ystyried o fewn cwmplas IR35	-
Nifer y penodiadau a ailaswyd at ddiben cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-
O'r cyfanswm hwnnw: Nifer y penodiadau a welodd newid i statws IR35 ar ôl yr adolygiad	-

Ar gyfer unrhyw benodiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

	Nifer
Nifer penodiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol ²⁷	1
Cyfanswm nifer yr unigolion sydd ar y gyflogres ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol	2

²⁹ Mae'r trothwy £245 wedi'i bennu i fod yn agos at bwynt isaf y raddfa gyflog ar gyfer Uwch Was Sifil.

³⁰ Bydd gweithiwr sy'n darparu ei wasanaethau drwy ei gwmni cyfyngedig ei hun neu fath arall o gyfryngwr i'r cleient yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ar gyfer gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres a bydd rhaid i'r endid gynnal asesiad er mwyn darganfod p'un a yw'r gweithiwr hwnnw o fewn cwmplas deddfwriaeth cyfryngwyr (IR35) neu y tu allan i'r cwmplas at ddibenion treth.

³¹ Roedd yr ymgyrchoedd recriwtio i benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Trawsnewid sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol yn aflwyddiannus. Daeth asesiad gwerth am arian i'r casgliad y byddai penodi contractwr arbenigol i gyflawni'r ddwy rôl yn sicrhau arbedion hirdymor ac yn galluogi Ofgem i gynnal rhaglen drawsnewid hollbwysig ac uchelgeisiol. Llofnodwyd contract 18 mis ym mis Awst 2021. Roedd y contract am gyfnod cychwynnol o 3 mis gydag opsiwn i ymestyn am 15 mis arall (a manteisiwyd ar yr opsiwn hwn ym mis Tachwedd 2021).



Amser cyfleuster undeb llafur

Daeth Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 i rym ar 1 Ebrill 2017. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod gofyniad deddfwriaethol ar gyflogwyr perthnasol yn y sector cyhoeddus i gasglu a chyhoeddi amrywiaeth o ddata ar gyfanswm a chost amser cyfleuster o fewn eu sefydliad yn flynyddol.

Swyddogion undeb perthnasol

Cyfanswm nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

	Nifer
Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol	9
Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn	8.7

Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, canran eu horiau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster:

	Nifer
0%	-
1-50%	9
51-99%	-
100%	-

Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster:

	£ / %
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£8,257
Cyfanswm y bil cyflogau	£85.767 miliwn
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	0.01%

Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur.

	Canran
Canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl (%)	19.92%

Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael (archwiledig)

Band costau pecyn ymadael	2021-22			2020-21		
	Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau	Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau
<£10,000	-	-	-	-	1	1
£10,000 - £25,000	-	1	1	1	1	2
£25,000 - £50,000	-	3	3	-	1	1
£50,000 - £100,000	-	9	9	-	2	2
£100,000 - £150,000	-	3	3	-	-	-
£150,000 - £200,000	-	-	-	-	-	-
£200,000 - £250,000	-	-	-	-	1	1
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	-	16	16	1	6	7
Cyfanswm y gost £000	-	1,269	1,269	16	413	429

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac a gyfrifwyd yn 2021-22 (rhoddir ffigurau cymharol ar gyfer 2020-21 hefyd).

Lle mae'r adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Cyfansoddiad y staff	Menywod		Dynion	
Pob cyflogai	587	47%	674	53%
Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil	17	46%	20	54%
Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil	8	53%	7	47%
Band Cyflog 3 yr Uwch Wasanaeth Sifil	0	0%	1	100%



Cynnwys cyflogeion

Eleni, cafodd ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 76%, a mynegai ymgysylltu o 59%, sef gostyngiad o chwe phwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ein staff yn parhau i nodi bod eu rolau yn ddiddorol (78%), gan gredu bod eu gwaith yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad personol iddynt (72%), a byddent yn argymhell Ofgem fel lle gwyh i weithio (61% – gostyngiad o chwe phwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

Polisi cyfle cyfartal

Rydym yn recriwtio staff ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag egwyddorion recriwtio'r Gwasanaeth Sifil a lywodraethir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, heb ystyried:

- hil;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- oedran;
- statws priodasol;
- anabledd;
- crefydd a chred;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth; neu
- batrwm gweithio.

Caiff yr holl weithgarwch recriwtio ei archwilio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn yr egwyddorion recriwtio.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith: wrth recriwtio ac mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu

gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Yn arolwg ymgysylltu â staff 2021 cawsom sgôr o 79% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg.

Yn 2021-22 rhoddwyd ffocws ar ddatblygu gweithlu amrywiol a chynhwysol. Rydym wedi dechrau defnyddio prosesau recriwtio dall a phaneli cyfweld amrywiol. Rydym wedi cynnal rhaglen i fenywod mewn rolau arwain, a rhaglen hyfforddi ar gyfer cydweithwyr Du ac Ethnig Leiafrifol.

Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd ein targedau uchelgeisiol o sicrhau gweithlu cytbwys o ran y rhywiau, a chynyddu cynrychiolaeth pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Hefyd, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth sy'n cwmparu menywod, LGBT+, ethnigrwydd ac anabledd.

Yn 2021-22, parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a chynhwysiant i staff. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn mhopeth a wnânt. Ar 31 Mawrth 2022:

- roedd yn hysbys bod gan 6% (2020-21: 4.3%) o'r staff anabledd.
- roedd 46% (2020-21: 46%) o'r staff yn fenywod.
- roedd 44% (2020-21: 43%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3) yn fenywod.
- roedd 43% (2020-21: 45%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod.
- roedd yn hysbys bod 22% (2020-21: 19%) o'r staff yn dod o darddiad ethnig lleiafrifol.
- roedd yn hysbys bod 30% (2020-21: 35%) o'r staff o darddiad ethnig lleiafrifol yn gweithio mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3).

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

Gellir gweld data ar fwllch cyflog Ofgem yn:

<https://gender-pay-gap.service.gov.uk/Employer/LkznjGE/2020>



Roedd Amrywiaeth a Chynhwysiant yn agwedd allweddol ar ein gwaith ymgysylltu y flwyddyn hon. Gwnaethom barhau â'n partneriaeth â Phrosiect Cydraddoldeb y BBC, 50/50, gan fonitro a sicrhau cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth ar draws ein cynnwys a'n gwaith ymgysylltu a chyrraedd ein targed 50:50 erbyn Ch4. Ym mis Ebrill 2021, roedd yn bleser gennym weithio mewn partneriaeth ag Energy UK i gynnal ein cynhadledd flynyddol gyntaf ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, gyda'r nod o sicrhau newidiadau cadarnhaol ym mhob rhan o'r sector ynni, ac un o'r allbynnau oedd creu Tasglu traws-sector.

Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Rydym wir yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaedd yn ein helpu i'w cadw a denu pobl newydd. Mae ein proses o ddyrannu'r gyllideb yn darparu swm fesul cyflogai ar gyfer gweithgarwch dysgu a datblygu.

Yn ddiweddar, rydym wedi lansio strategaeth Dysgu a Datblygu Sefydliadol gyda'r nod o sicrhau newid sylfaenol yn null gweithredu Ofgem ar gyfer dysgu a datblygu sefydliadol drwy greu, gweithredu, cyflawni a gwreiddio Strategaeth Dysgu a Datblygu Sefydliadol sy'n gyson ag uchelgais a chanlyniadau Trawsnewid Ofgem. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ein harweinwyr a'n rheolwyr y sgiliau, y gallu a'r hyder i ddatblygu timau sy'n perfformio i safon uchel ac sy'n cyflawni'n gyflym, a bod gan ein pobl y sgiliau, y gallu a'r hyder i gyflawni nodau strategol Ofgem.

Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogaion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae aelodau o'n staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy gynllun mentora. Yn 2018, gwnaethom hefyd dreialu gweithio gyda'r Prince's Trust yn ein swyddfa yn Glasgow. O ganlyniad i lwyddiant y treial hwn, mae Cyflawni a Chynlluniau wedi ymrwmo i gydberthynas barhaus drwy gynnig mentora a phrofiad gwaith i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd drwy waith y Prince's Trust.

Yn Llundain, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned drwy Ganolfan Bromley-by-Bow (BBC). Elusen leol yw BBC sy'n rhoi cymorth cymunedol a chyfleoedd i ddysgu a gwella llesiant i drigolion Tower Hamlets. Yn Glasgow, rydym wedi ymgysylltu â Chymuned Simon. Mae Cymuned Simon yn canolbwyntio ar frwydo yn erbyn achosion ac effeithiau digartrefedd.

Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogaion o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

Yn ein swyddfeydd yn Commonwealth House a Canary Wharf, rydym wedi llwyddo i ddarparu amgylcheddau gwaith i gefnogi llesiant ein staff. Mae hyn yn cynnwys cynnig amgylcheddau gwaith gwahanol, desgiau eistedd/sefyll ac offer arbenigol eraill.

Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2021-22, collwyd 3.1 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2020-21: 2.7 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 6.1 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai.

Jonathan Brearley

Prif Weithredwr

11 Gorffennaf 2022



Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwiliad



Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol

Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2021-22

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodwyd yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn eu Hamcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn manylu ar y cyflenwad ac mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo drwy bleidlais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd dros y terfynau a bennir gan eu Hamcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd barn amodol yn cael ei rhoi ar eu cyfrifon.

Mae fformat y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu'r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae Senedd y DU wedi'u cymeradwyo drwy bleidlais, arian parod a wariwyd (lunnir cyllidebau ar sail cronïadau ac felly ni fyddai alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell o'r Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gysylltu'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy at y Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y bydd Senedd y DU yn ei chymeradwyo drwy bleidlais. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd, yn cynnwys trafodaeth gryno ar alldro yn erbyn yr amcangyfrif ac mae'n gweithredu fel cyflwyniad i ddatgeliadau'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol.



Tablau cryno – yn adlewyrchu rhan 1 o'r Amcangyfrifon

Tabl cryno, 2021-22, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd

Alldro				Amcangyfrif				Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad		Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2020-21
Math o Wariant	Nodyn SoPS	Cymeradwywyd drwy bleidlais	Nis cymeradwywyd drwy bleidlais	Cyfanswm	Cymeradwywyd drwy bleidlais	Nis cymeradwywyd drwy bleidlais	Cyfanswm	Cymeradwywyd drwy bleidlais	Cyfanswm	
Terfyn Gwariant Adrannol										
Adnodd	1.1	(9,807)	-	(9,807)	78,645	-	78,645	88,452	88,452	11,994
Cyfalaf	1.2	3,567	-	3,567	3,791	-	3,791	224	224	2,199
Cyfanswm Gwariant yn y Gyllideb		(6,240)	-	(6,240)	82,436	-	82,436	88,676	88,676	14,193
Gwariant Heb fod yn y Gyllideb		-	-	-	-	-	-	-	-	2,388
Cyfanswm yn y Gyllideb a Heb fod yn y Gyllideb		(6,240)	-	(6,240)	82,436	-	82,436	88,676	88,676	16,581

Mae'r ffigurau yn y meysydd wedi'u hamlinellu â llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU. Gweler y llawlyfr canllawiau ar Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, am fanylion llawn y terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU.

Gofyniad arian parod net 2021-22, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd

Math o wariant	Nodyn SoPS	Alldro	Amcangyfrif	Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2020-21
Gofyniad arian parod net	3	(10,762)	24,316	35,078	6,812

Costau gweinyddol 2021-22, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd

Math o wariant	Nodyn SoPS	Alldro	Amcangyfrif	Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2020-21
Administration costs	1.1	(10,449)	77,111	87,560	11,994

Er nad yw hwn yn derfyn a gymeradwyir drwy bleidlais ar wahân, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddol hefyd yn arwain at bleidlais ar gostau ychwanegol.

SOPS1. Manylion yr alldro, fesul llinell o'r Amcangyfrif

SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau fesul Llinell o'r Amcangyfrif

Alldro Adnoddau – Gweinyddiaeth				Rhaglen			Cyfanswm
Math o Wariant (Adnodd)	Gros	Incwm	Cyfanswm net	Gros	Incwm	Cyfanswm net	
Gwariant o fewn Terfynau							
Gwariant Adrannol (DEL)							
Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais							
A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu	96,398	(94,574)	1,824	642	-	642	2,466
B E-Serve Ofgem: gweinyddu	31,571	(30,885)	686	-	-	-	686
C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu	1,261	(14,220)	(12,959)	-	-	-	(12,959)
Cyfanswm yr adnoddau	129,230	(139,679)	(10,449)	642	-	642	(9,807)

Type of Spend (Resource)	Amcangyfrif			Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2020-21
	Cyfanswm	Trosglwyddiadau	Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau		
Gwariant o fewn Terfynau					
Gwariant Adrannol (DEL)					
Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais					
A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu	76,600*	-	76,600	74,134	11,296
B E-Serve Ofgem: gweinyddu	1,266	-	1,266	580	698
C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu	779	-	779	13,738	-
Cyfanswm yr adnoddau	78,645	-	78,645	88,452	11,994

*Yn cynnwys £77,111,000 o weinyddiaeth a £1,534,000 o amcangyfrifon cyllideb y rhaglen

**SoPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul Llinell o'r Amcangyfrif**

Math o Wariant (Cyfalaf)	Alldro			Amcangyfrif			Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif, arbediad	Flwyddyn Flaenorol Cyfanswm Alldro 2020-21
	Gros	Incwm	Cy-fan-sw m net	Cy-fan-sw m	Trosglwy-ddiadau	Cyfan-sw m gan gynnwys trosglwy-ddiadau		
Gwariant o fewn Terfynau								
Gwariant Adrannol (DEL)								
Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais								
A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu	2,049	-	2,049	2,100	-	2,100	51	2,199
B E-Serve Ofgem: gweinyddu	3,133	(3,133)	-	-	-	-	-	-
B Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu	1,518	-	1,518	1,691	-	1,691	173	-
Cyfanswm cyfalaf	6,700	(3,133)	3,567	3,791	-	3,791	224	2,199

Mae colofnau cyfanswm yr Amcangyfrif yn cynnwys amrywiannau. Amrywiannau yw ailddyrranu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod seneddol ar eu cyfer (am nad yw Senedd y DU yn pleidleisio ar lefelau mor fanwl â hynny ac yn dirprwyo i Drysorlys EM). Rhoddir rhagor o wybodaeth am amrywiannau yn y Llawlyfr ar Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, sydd ar gael yn gov.uk.

Mae'r golofn alldro v amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm, gan gynnwys amrywiannau. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn amrywiannau wedi'i gynnwys fel y gall defnyddwyr gysylltu'r amcangyfrif â'r Amcangyfrifon a osodwyd gerbron Senedd y DU.

SoPS2 Cysoni alldro â'r (incwm)/gwariant gweithredu net

		Cyfanswm Alldro	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2020-21
		£000	£000
Cyfanswm Alldro Adnoddau	SoPS1.1	(9,807)	11,994
Ychwanegu: Incwm cyfalaf gan BEIS	SoPS 1.2	(3,133)	-
(Incwm)/Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr	SOCNE	(12,940)	11,994

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond yn wahanol iddynt. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau â'r (incwm)/gwariant gweithredu net, gan gysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol.

Caiff incwm cyfalaf ei gyllidebu fel cyfalaf DEL ond rhoddir cyfrif amdano fel incwm ar wyneb y SOCNE ac felly mae'h eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau ac (incwm)/gwariant gweithredu net.

SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

Eitem	Cyfeiriad	Cyfanswm alldro	Am-cangyfrif	Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif, arbediad/(dros ben)
	Nodyn	£000	£000	£000
Cyfanswm Alldro Adnoddau	SoPS1.1	(9,807)	78,645	88,452
Cyfanswm alldro cyfalaf	SoPS1.2	3,567	3,791	224
Addasiadau i dynnu eitemau anariannol:				
▪ Dibrisiant a lleihad mewn gwerth	3	(1,337)	(2,094)	(757)
▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol	3	(3,966)	(74,500)	(70,534)
▪ Eitemau anariannol eraill		(920)	(85)	835
Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:				
▪ Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy	10	8,156	5,505	(2,651)
▪ (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy	11	(9,958)	1,000	10,958
▪ Defnydd o ddarpariaethau	12	3,503	12,054	8,551
Gofyniad arian parod net		(10,762)	24,316	35,078

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, yn hytrach nag ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio rhwng yr alldro adnoddau a chyfalaf a'r gofyniad arian parod net.

SoPS4 Dadansoddiad o incwm i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2021-22.

Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol (archwiliedig)

Ffioedd a thaliadau

Caiff gweithgarwch rheoleiddio Ofgem ei ariannu drwy dreth, ar ffurf ffi trwydded a delir gan y diwydiant. Roedd costau ac incwm ar gyfer y flwyddyn am dreth yn gysylltiedig â ffi trwydded yn £91.3 miliwn.

Caiff cost gweinyddu cynlluniau ynni a chynlluniau amgylcheddol ar ran llywodraethau ei hariannu naill ai gan gyrff llywodraethol, neu gan y cynlluniau eu hunain. Roedd incwm ar gyfer y flwyddyn ar gyfer cynlluniau a gwasanaethau eraill yn £51.5 miliwn ac roedd costau yn £38.6 miliwn.

Ceir dadansoddiad o gostau ac incwm ar gyfer y flwyddyn yn nodyn 4, ar dudalen 89. Nid oedd unrhyw gymorthdaliadau nac achosion o godi gormod.

Rheoleiddio gwariant

Cymhwyswyd gwariant Ofgem at y dibenion a fwrriadwyd gan Senedd y DU. Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.

Jonathan Brearley
Prif Weithredwr



Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Ofgem:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Ofgem ar 31 Mawrth 2022 a'i gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn;

- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs UK), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynol ar Ofgem yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i gynnig sail dros fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod Ofgem yn gwneud defnydd priodol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau nac achosion a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuan sylweddol ar allu



Ofgem i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail gyfrifyddu busnes gweithredol Ofgem wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blyneddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na thystysgrif yr archwilydd wedi hynny. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif.

Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol fel arall.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os dof i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau

Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ofgem a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi o ran y materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi yn eu cylch os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Ofgem, neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a ragnodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM wedi cael eu gwneud, na'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff i'w harchwilio, yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.



Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynnyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- y rheolaethau mewnol sydd eu hangen ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- asesu gallu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ofgem yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau posibl o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriais y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys llunio polisiau cyfrifyddu Ofgem, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau Ofgem mewn perthynas â'r canlynol:
 - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - o canfod ac ymateb i'r risg o dwyll a ph'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu honedig o dwyll.
 - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys mesurau rheoli Ofgem mewn perthynas â chydymffurfiaeth Ofgem â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, a Deddf Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2021.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Ofgem ar gyfer twyll a nodais fod y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod reffeni, cyhoeddi cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a



thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae hefyd yn ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y gall rheolwyr ddiystyru rheolaethau.

Gwnes i hefyd ddeall fframwaith awdurdod Ofgem yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Ofgem yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y symiau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ofgem. Ymhlith y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyddestun hwn roedd Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2021, cyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth treth berthnasol.

Hefyd, ystyriais gydymffurfiaeth â rheolaethau Trysorlys Ei Mawrhydi dros gymeradwyo taliadau cymeradwyaeth i uwch gyflogeion a rheolaethau Swyddfa'r Cabinet dros contractau ar gyfer gwariant.

Ymateb archwilio i'r risgiau a nodwyd

O ganlyniad i wneud yr uchod, roedd y gweithdrefnau a roddais ar waith i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd, ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg y byddai'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion o bwys sy'n anarferol neu'r tu hwnt i fusnes arferol;
- casglu tystiolaeth o gymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi i daliadau cydnabyddiaeth i uwch gyflogeion a chydymffurfiaeth â rheolaethau Swyddfa'r Cabinet dros contractau.

Hefyd, rhannais y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll â holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ac nad aed uwchlaw'r cyfansymiau hynny. Mae'r cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Derfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), (Adnodd) Nad yw'n Gyllidebol a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmplas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London SW1W 9SP

13 Gorffennaf 2022



Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm na gwariant eto.

		2021-22 £000	2020-21 £000
	Nodyn		
Incwm Gweithredu	4	(142,812)	(109,119)
Cyfanswm yr incwm gweithredu		(142,812)	(109,119)
Costau staff	3	86,125	76,548
Gwariant gweithredu arall	3	43,747	44,565
Cyfanswm y gwariant gweithredu		129,872	121,113
(Incwm)/gwariant gweithredu net am y flwyddyn	2	(12,940)	11,994
(Incwm)/gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(12,940)	11,994



Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr adran. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, sef gwerth gweddilliol yr endid.

		2021-22	2020-21
Nodyn		£000	£000
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	5	2,999	2,285
Asedau anniriaethol	6	4,651	-
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		7,650	2,285
Asedau cyfredol:			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	10	23,731	15,575
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	9	14,366	3,604
Cyfanswm asedau cyfredol		38,097	19,179
Cyfanswm yr asedau		45,747	21,464
Rhwymedigaethau cyfredol:			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	11	(43,857)	(23,137)
Darpariaethau	12	(15,278)	(14,308)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(59,135)	(37,445)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		(13,388)	(15,981)
Rhwymedigaethau anghyfredol:			
Darpariaethau	12	(1,791)	(2,298)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(1,791)	(2,298)
Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau		(15,179)	(18,279)
Ecwiti trethdalwyr:			
Cronfa gyffredinol		(15,179)	(18,279)
Cyfanswm ecwiti		(15,179)	(18,279)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 83 i 99 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol.

		2021-22 £000	2020-21 £000
Nodyn			
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:			
Incwm/(gwariant) gweithredu net	SoCNE	12,940	(11,994)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod	SoPS3	6,223	12,432
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	10	(8,156)	(7,873)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	20,720	(5,153)
Ilai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE	11	(10,762)	8,665
Defnydd o ddarpariaethau	12	(3,503)	(690)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		17,462	(4,613)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:			
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd	5	(2,049)	(2,199)
Asedau anniriaethol a brynwyd	6	(4,651)	-
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi:		(6,700)	(2,199)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:			
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol	SOCiTE	-	6,893
Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn		37,600	27,000
Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn		(37,600)	(27,000)
Ariannu net		-	6,893
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cynaddasiadau ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol		10,762	81
Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol		-	(8,746)
Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Y Gronfa Gyfunol		10,762	(8,665)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod	9	3,604	12,269
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod	9	14,366	3,604

Mae'r nodiadau ar dudalennau 83 i 99 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr adran, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm asedau adran llai rhwymedigaethau, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn nac eitemau ariannu eraill.

		Cronfa gyffredinol
	Nodyn	£000
Balans ar 31 Mawrth 2020		(13,189)
Cydnabyddiaeth yr archwilwyr	3	100
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn	SoCNE	(11,994)
Cyllid Seneddol Net – tybiedig		3,523
Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd		6,893
Addasiad taladwy i'r cyflenwad		(3,604)
Derbyniadau arian parod o 2019-20 nad ydynt yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol		(8)
Balans ar 31 Mawrth 2021		(18,279)
Cydnabyddiaeth yr archwilwyr	3	107
Incwm net cynhwysfawr am y flwyddyn	SoCNE	12,940
Cyllid Seneddol Net – tybiedig		3,604
Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd		-
Addasiad taladwy i'r cyflenwad		(14,366)
Incwm gohiriedig a ryddhawyd i'r gronfa gyffredinol		442
Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill		373
Balans ar 31 Mawrth 2022		(15,179)

Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Ofgem wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 69.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau hyn ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir y cyfrifon i'r £'000 agosaf.

Busnes gweithredol

Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwr yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2022-23 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Rydym yn disgwyl parhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.2 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Ofgem yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

▪ **Ffioedd trwydded** - Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Ofgem fantoli ei wariant â'i incwm. Mae'n ofynnol i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddo er mwyn talu'r costau y mae Ofgem yn mynd iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwydd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei gostau gan drydydd partion. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thyrdan, ac fel y nodir yn y Flaenraglen Waith. Cydnabyddir referniw yn y flwyddyn pan eir i'r rhwymedigaeth perfformiad (cost).

▪ **Taliadau a ailgodir drwy gynlluniau** - O dan gytundebau lefel gwasanaeth/contractau â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a chyrrff eraill y llywodraeth, mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni ac amgylcheddol ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau/contractau lefel gwasanaeth gael eu bodloni dros amser. Mae costau gweinyddol a dalir yn uniongyrchol gan BEIS, yn hytrach na'r cynllun ei hun neu gan lywodraethau eraill, wedi'u nodi ar wahân yn Nodyn 4 a'u hesbonio yn Nodyn 14.

▪ **Ardoll nwy gwyrdd** - Mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter, er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, sef cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy. Nid oes rhwymedigaethau i drosglwyddo nwyddau na gwasanaethau i'r rhai sy'n talu'r ardoll (caiff ei thrin fel math o drethiant), oherwydd caiff y cyllid hwnnw ei ddefnyddio i dalu am daliadau a chostau rhedeg y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Felly, caiff incwm o'r ardoll ei gydnabod pan ddaw'n ddyledus. Mae'r FRoM yn addasu IFRS 15 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod referniw o drethiant nad yw'n ad-daladwy o gwbl ac nad yw'n arwain at unrhyw rhwymedigaethau: pan fydd mater cyfatebol i ddigwyddiad trethadwy wedi digwydd; pan ellir mesur y referniw yn ddibynadwy; ac mae'n debygol y bydd y buddiannau economaidd a gynorthwyr o'r digwyddiad trethadwy yn llifo i'r endid sy'n casglu. Ystyrir bod y meini prawf hyn wedi'u bodloni ar gyfer yr Ardoll Nwy Gwyrdd pan ddarperir y data pwyntiau mesuryddion i Ofgem gan gyflenwyr nwy.

▪ **Incwm Arall** - Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.



1.3 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn yr Adroddiad ar Staff. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

1.4 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Ofgem dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Darparwyd ar gyfer y gost lawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi a'i bod yn gyfrwymol.

1.5 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Delir eiddo, offer a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol, gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

Gwelliannau lesddaliadol	Oes y brydles
Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa	Pedair blynedd
Cyfarpar TG	Tair blynedd.

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Caiff cyfarpar TG a dodrefn, lle y gall asedau unigol gostio llai nag £2,000, eu cyfalafu ar sail grŵp.

1.6 Asedau anniriaethol ac amorteiddiad

Caiff asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â meddalwedd bwrpasol a ddatblygwyd gan Ofgem i'w defnyddio i redeg amryw gynlluniau eu cydnabod fel costau hanesyddol a'u hamorteiddio dros oes y cynllun, neu bedair blynedd, pa un bynnag sydd fyrraf. Wrth iddynt gael eu datblygu, cânt eu dosbarthu fel asedau sy'n cael eu hadeiladau ac ni chânt eu hamorteiddio nes y cânt eu comisiynu. Caiff costau datblygu sy'n uniongyrchol briodoladwy i'r gwaith o ddylunio a phrofi'r feddalwedd bwrpasol eu cyfalafu pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 Asedau Anniriaethol (fel y'u haddaswyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol). Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ei gydnabod fel gwariant pan eir iddo.

1.7 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o (incwm)/gwariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg.

Bydd hyn yn newid yn 2022-23. Gweler nodyn 1.15.

1.8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn cynnwys arian parod yn y banc ac mewn llaw. At ddiben y datganiad llif arian parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod yn unig.

1.9 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i dalu rhai costau, bydd Ofgem yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o werth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol. Er bod mwy o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif yn gysylltiedig â darpariaethau cyfreithiol, bydd rheolwyr yn llunio eu hamcangyfrif gorau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael.

Pan fo gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio safonol y Llywodraeth (sef cyfradd enwol o 0.47% am y pum mlynedd cyntaf, 0.70% ar ôl pum mlynedd a hyd at a chan gynnwys 10 mlynedd, a 0.95% ar ôl 10 mlynedd a hyd at a chan gynnwys 40 mlynedd). Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o (incwm)/gwariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

1.10 Treth ar werth

Dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o (incwm)/gwariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

1.11 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

1.12 Risgiau ariannol

Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei gweithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei hariannu, ni chaiff ei hamlygu i'r un graddau o risg ariannol ag y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

1.13 Rhwymedigaethau wrth gefn

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol), cyflwynir adroddiad ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol. Digwydd hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

1.14 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 15 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gan Ofgem unrhyw fudd ynddynt.

1.15 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

▪ IFRS 16

Bydd IFRS 16 Prydlesau yn gymwys o 1 Ebrill 2022 (gohiriedig ers 1 Ebrill 2021) i gyrff FReM ac yn disodli IAS 17 Prydlesau. Mae IFRS 16 Prydlesau yn cynnig model cyfrifyddu un prydlesai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni fydd tymor y brydles yn para 12 mis neu lai, neu os bydd yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased "gwerth isel".

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod ar werth wedi'i ddisgowntio'r isafswm taliadau prydles. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau (asedau hawl defnyddio) a rhwymedigaethau (rhwymedigaethau prydles) ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Ar ôl cael eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl defnyddio eu hamorteiddio ar sail llinell syth a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. O ganlyniad, bydd amseriad cydnabod cyfanswm costau prydlesau yn newid, gan y bydd costau llog yn uwch ar ddechrau prydles.

Rhoddir IFRS 16 ar waith gan ddefnyddio'r dull dal i fyny cronrus, sy'n golygu na chaiff y ffigurau cymharol ar gyfer 2021-22 eu hailddatgan ac y caiff yr addasiad i asedau net ei wneud i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2022. Mae'r dull hwn wedi'i fandadu gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae prydlesau perthnasol Ofgem yn gysylltiedig â rhentu eiddo ar gyfer swyddfeydd. Amcangyfrifir mai effaith rhoi hyn ar waith fydd cynnydd mewn asedau a rhwymedigaethau o tua £24 miliwn yn seiliedig ar ragdybiaethau, cyfraddau llog a chyfraddau disgowntio 2021-22. Amcangyfrifir mai effaith rhoi hyn ar waith fydd cynnydd mewn asedau a rhwymedigaethau o tua £24 miliwn ar 1 Ebrill 2022 a chynnydd mewn taliadau yn y Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr o oddeutu £0.9 miliwn yn ystod 2022-23 (yn seiliedig ar ragdybiaethau, cyfraddau llog a chyfraddau disgowntio 2021-22).

▪ IFRS 17

Nid yw'n debygol y caiff IFRS 17 Contractau yswiriant ei mabwysiadu gan y sector cyhoeddus tan 2023 neu ar ôl hynny. Ni ddisgwyllir i'r effaith fod yn berthnasol i'r adran.

1.16 Penderfyniadau cyfrifyddu hanfodol ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

▪ Darpariaethau

Mae darpariaethau yn dibynnu ar arfer barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwyllir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Lle y bernir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu ac y gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Datgelir rhagor o wybodaeth yn nodyn 12.

▪ Oes ddefnyddiol asedau anghyfredol

Ceir ansicrwydd ynglŷn ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddarau os bydd disgwyliadau yn wahanol i'r amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul, darfodiad technegol neu fasnachol neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar y defnydd a wneir ohonynt.

2. Datganiad o wariant/(incwm) gweithredu yn ôl cylchran weithredu

2021-22				
	Gweithgareddau Rheoleiddio £000	Cyflawni a Chynll- uniau* £000	Gwasanaethau Corfforaethol £000	Cyfanswm £000
Gwariant gros	46,120	32,832	50,920	129,872
Incwm	(44,055)	(48,238)	(50,519)	(142,812)
Gwariant/(incwm) net	2,065	(15,406)	401	(12,940)

2020-21				
	Gweithgareddau Rheoleiddio £000	Cyflawni a Chynll- uniau* £000	Gwasanaethau Corfforaethol £000	Cyfanswm £000
Gwariant gros	44,340	29,100	47,673	121,113
Incwm	(44,340)	(28,402)	(36,377)	(109,119)
Gwariant net	-	698	11,296	11,994

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

*Cyflawni a Chynlluniau Ofgem yw enw E-Serve Ofgem bellach.



3. Gwariant

		2021-22	2020-21
	Nodyn	£000	£000
Costau staff:*			
Cyflogau		64,811	57,516
Costau nawdd cymdeithasol		6,405	5,630
Costau pensiwn eraill		14,551	12,911
Costau staff eraill		90	257
Lefi Prentisiaethau		268	234
		86,125	76,548
Rhenti o dan brydlesau gweithredu:			
Prydlesau gweithredu (tir ac adeiladau)	7	2,294	2,792
		2,294	2,792
Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:			
Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr**		107	100
Dibrisiant	5	1,337	1,416
Addasu tâl gwyliau		(490)	1,310
		954	2,826
Gwariant arall:			
Ymgynghoriaeth		23,364	18,689
Costau llety		2,762	2,594
Recriwtio a hyfforddiant		1,504	1,132
Teithio a chynhaliaeth		196	31
Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa		5,993	4,831
Gwasanaethau proffesiynol		1,817	929
Costau sy'n ymwneud â staff		233	254
Gwariant arall		664	484
		36,533	28,944
Darpariaethau:			
Symudiad mewn darpariaethau	12	3,966	10,003
cyfanswm		129,872	121,113

*Ceir rhagor o ddadansoddiad o gostau staff yn yr Adroddiad ar Staff ar dudalen 62.

** Nid oedd unrhyw gydabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

4. Dadansoddiad o incwm gweithredu

2021-22				2020-21		
	Incwm	Costau llawn	Gwarged	Incwm	Costau llawn	Gwarged
Ffioedd trwydded (allanol)	91,284	91,284	-	77,301	77,301	-
Arall	51,528	38,588	12,940	31,818	43,812	(11,994)
Cyfanswm	142,812	129,872	12,940	109,119	121,113	(11,994)

		2021-22	2020-21
Mae incwm arall yn cynnwys:	Nodyn	£000	£000
Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir		2,442	2,638
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)	14	27,685	24,269
Ardoll Nwy Gwyrdd		6,258	4,045
Amrywiol*		14,220	-
Miscellaneous*		923	866
		51,528	31,818

* Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill.



5. Eiddo, offer a chyfarpar

	Dodrefn	Swyddfa offer	TG	Lesddaliadol gwelliannau	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2021	229	443	3,193	6,104	9,969
Ychwanegiadau	-	44	937	1,068	2,049
Ailddosbarthu	-	(222)	-	222	-
Gwarediadau	-	-	(390)	(4,106)	(4,496)
Ar 31 Mawrth 2022	229	265	3,740	3,288	7,522
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2021	180	50	1,704	5,750	7,684
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	32	47	944	314	1,337
Ar warediadau	-	-	(392)	(4,106)	(4,498)
Ar 31 Mawrth 2022	212	97	2,256	1,958	4,523
Swm cario ar 31 Mawrth 2022	17	168	1,484	1,330	2,999
Swm cario ar 31 Mawrth 2021	49	393	1,489	354	2,285

	Dodrefn	Swyddfa offer	TG	Lesddaliadol gwelliannau	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2020	229	121	1,382	6,038	7,770
Ychwanegiadau	-	322	1,811	66	2,199
Ar 31 Mawrth 2021	229	443	3,193	6,104	9,969
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2020	114	8	827	5,319	6,268
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	66	42	877	431	1,416
Ar 31 Mawrth 2021	180	50	1,704	5,750	7,684
Swm cario ar 31 Mawrth 2021	49	393	1,489	354	2,285
Swm cario ar 31 Mawrth	116	113	555	718	1,502

Mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn eiddo i Ofgem.

6. Asedau anniriaethol

Asedau meddalwedd gyfrifiadurol bwrpasol a grëwyd yn fewnol i'w defnyddio wrth redeg amryw gynlluniau Ofgem yw'r asedau anniriaethol. Cânt eu dosbarthu i ddechrau fel asedau sy'n cael eu hadeiladau ac ni cânt eu hamorteiddio nes y cânt eu comisiynu.

	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£000	£000
Cost		
Ar 1 Ebrill 2021	-	-
Ychwanegiadau	4,651	4,651
Ar 31 Mawrth 2022	4,651	4,651
Amorteiddio		
Ar 1 Ebrill 2021	-	-
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	-	-
Swm cario ar 31 Mawrth 2022	4,651	4,651
Swm cario ar 31 Mawrth 2021	-	-

7. Prydlesau gweithredu

£2.3m (2020-21: £2.8m) wedi'i gynnwys fel traul ar brydlesau gweithredu yn y Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr. Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	2021-22	2020-21
	£000	£000
Adeiladau:		
O fewn blwyddyn	2,139	2,218
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	8,192	8,222
Ar ôl pum mlynedd	13,422	14,014
	23,753	24,454

Mae'r swyddfa yn Llundain o dan contract tan fis Mehefin 2032. Yn ystod 2021-22, bu lleihad yn nifer y swyddfeydd a brydlesir gan Ofgem, ac mae'r gwariant ar brydlesau wedi lleihau'n unol â hynny.

Mae'r swyddfa yn Glasgow o dan brydles tan 2026-27 gyda thoriadau blynyddol o 2021-22. Dim ond taliadau hyd at 2022-23 sydd wedi cael eu cynnwys yn ffigur yr isafswm taliadau prydles uchod.

Mae'r swyddfa yng Nghaerdydd dan contract tan 2026 gydag opsiwn i ymestyn y cytundeb tan 2045.



8. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyltiedig yr Adran ac felly fel arfer nid yw'r Adran yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

Caiff y gwarannau a'r llythyrau credyd a ddisgrifir yn Nodyn 15 eu dal er mwyn rheoli risg yn y broses tendro ar y môr a gynhelir gan Ofgem ar ran y llywodraeth. Nid yw Ofgem yn agored i risg yn gysylltiedig â'r gwarannau a ddeler ganddi mewn perthynas â'r broses hon.

9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	2021-22	2020-21
	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	3,604	12,269
Newid net mewn balansau arian parod:	10,762	(8,665)
Balans ar 31 Mawrth	14,366	3,604
Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	14,366	3,604
Balans ar 31 Mawrth	14,366	3,604

Yn ogystal â'r balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i hynny a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â gwarannau datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, cronfeydd y Tariffau Cyflenwi Trydan, y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a'r cynlluniau Cymorth Nwy Gwyrdd. Disgrifir y rhain yn nodyn 15.

10. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	2021-22	2020-21
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:	£000	£000
Incwm a gronnwyd	20,395	12,987
Symiau masnach derbyniadwy	549	793
Rhagdaliadau	2,034	1,309
TAW	735	468
Symiau derbyniadwy eraill	18	18
Balans ar 31 Mawrth	23,731	15,575

Y symiau derbyniadwy eraill yw benthychiadau staff sy'n ddyledus, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r cynllun beicio i'r gwaith.

11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2021-22	2020-21
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:	£000	£000
Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn	14,366	3,604
Ffioedd trwydded gohiriedig	6,880	745
Croniadau	13,749	5,502
Incwm gohiriedig arall	2,233	5,477
Symiau taladwy eraill	2,618	3,108
Trethiant a nawdd cymdeithasol	3,475	2,952
Symiau masnach taladwy	536	1,749
Balans ar 31 Mawrth	43,857	23,137

Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni o fewn "symiau taladwy eraill".

12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Ymddeol yn gynnar	Ymadael gwirfod- dol	Rhwy- medi- gaethau pensiwn	Dadfeiliadau	Cyfre- ithiol	TAW	Arall	Cyfan- swm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2021	130	400	-	2,184	10,064	2,521	1,307	16,606
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	-	208	-	-	4,734	-	225	5,167
Darpariaethau diangen a adferwyd	-	-	-	(479)	-	(405)	(305)	(1,189)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(15)	(400)	-	-	-	(2,116)	(972)	(3,503)
Newidiadau yng nghyfradd y disgownt	(12)	-	-	-	-	-	-	(12)
Balans ar 31 Mawrth 2022	103	208	-	1,705	14,798	-	255	17,069

	Ymddeol yn gynnar	Ymadael gwirfod- dol	Rhwy- medi- gaethau pensiwn	Dadfeiliadau	Cyfre- ithiol	TAW	Arall	Cyfan- swm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2020	131	-	838	1,899	-	2,388	1,116	6,372
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	-	400	-	285	10,064	133	1,298	12,180
Darpariaethau diangen a adferwyd	-	-	(838)	-	-	-	(435)	(1,273)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(18)	-	-	-	-	-	(672)	(690)
Newid yng nghyfradd y disgownt	17	-	-	-	-	-	-	17
Balans ar 31 Mawrth 2021	130	400	-	2,184	10,064	2,521	1,307	16,606

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau arian parod wedi'u disgowntio ar 31 Mawrth 2022

O fewn blwyddyn	17	208	-	-	14,798	-	255	15,278
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	61	-	-	1,705	-	-	-	1,766
Ar ôl pum mlynedd	25	-	-	-	-	-	-	25
Balans ar 31 Mawrth 2022	103	208	-	1,705	14,798	-	255	17,069

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau arian parod wedi'u disgowntio ar 31 Mawrth 2021

O fewn blwyddyn	16	400	-	-	10,064	2,521	1,307	14,308
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	62	-	-	2,184	-	-	-	2,246
Ar ôl pum mlynedd	52	-	-	-	-	-	-	52
Balans ar 31 Mawrth 2021	130	400	-	2,184	10,064	2,521	1,307	16,606

Ymdeol yn gynnar

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogaion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

Ymadael gwirfoddol

Mae darpariaethau diswyddo yn gysylltiedig ag achosion o ymadael gwirfoddol a drafodwyd â'r aelodau o staff dan sylw cyn 31 Mawrth 2022 ond na ddisgwyllir iddynt ddigwydd tan 2022-23.

Dadfeiliadau

Mae darpariaethau dadfeiliadau yn rhagweld cost adfer eiddo a brydlesir gan yr adran i'w gyflwr fel yr oedd ar ddechrau'r brydles yn y dyfodol.

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r ddarpariaeth pensiwn yn gysylltiedig â rhwymedigaethau pensiwn heb eu talu ar gyfer cyn-brif swyddog gweithredol a chyfarwyddwr cyffredinol. Yn ystod 2020-21, cadarnhawyd nad oedd y rhwymedigaeth bosibl hon yn ofynnol mwyach a bod y ddarpariaeth wedi'i rhyddhau'n llawn.

Cyfreithiol

Roedd nifer o'n penderfyniadau o ran system rheoli prisiau RIIO-2 ar gyfer y sectorau dosbarthu a thrawsyrro nwy yn destun apêl ger bron yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA). Cyhoeddwyd penderfyniad terfynol a gorchymyn ar 1 Tachwedd 2021 ac mae gennym bellach sefyllfa gychwynnol o ran costau hawlwr, ond ceir rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r amcangyfrif hwn a chredwn fod y ddarpariaeth bresennol yn dal yn berthnasol i'r sefyllfa gyffredin ar 31 Mawrth 2022.

Cododd nifer o risgiau cyfreithiol o ganlyniad i ymateb Ofgem i argyfwng y farchnad nwy yn ystod 2021-22. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, effeithiau ar y cap ar brisiau a heriau cyfreithiol mewn perthynas i'r broses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall. Amcangyfrifwyd gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar yr asesiad gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol o'r tebygolrwydd o her a pha mor llwyddiannus y gallai fod. Mae'r amcangyfrif o'r gost yn ystyried ffactorau fel y lefel o gymhlethdod ac amcangyfrif o'r adnoddau y bydd eu hangen i ymateb i her.

Darpariaethau eraill

Ymhlith y darpariaethau eraill mae costau eiddo hanesyddol sy'n gysylltiedig â phrydlesu'r swyddfa yn 10SC, nad yw Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth wedi cytuno arnynt eto, a darpariaeth ar gyfer costau heb eu talu sy'n gysylltiedig â diffyg hanesyddol mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer rhai aelodau o staff a chyn-aelodau o staff.

13. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol y mae'n ofynnol eu datgelu o dan IAS 37.

14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £12.303 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) (2020-21: £10.498 miliwn). Roedd £11.440 miliwn o'r swm hwn ar gyfer gwasanaethau eirioli (2020-21: £9.489 miliwn). Trosglwyddwyd y £0.863 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg (2020-21: £1.009 miliwn). Caiff yr arian hwn ei gasglu gan Ofgem drwy ffi'r drwydded, ar ran BEIS.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran BEIS, ac yn secondio staff i'r adran honno. Cyfanswm yr incwm oddi wrth BEIS a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £24.552 miliwn, yr oedd £4.834 miliwn ohono wedi'i Gronni ar 31 Mawrth 2022 (incwm o £27.685 miliwn yn 2020-21 gyda £7.921 miliwn wedi'i Gronni ar 31 Mawrth 2021).

Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Cydnabuwyd incwm o £1.084 miliwn yn ystod y flwyddyn oddi wrth Awdurdod Rheoleiddio Cyfleustodau Gogledd Iwerddon (£0.447 miliwn yn 2020-21), ac £1.240 miliwn o incwm gan Adran yr Economi (£1.811 miliwn yn 2020-21). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrrff llywodraeth ganolog.

Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn a nodir ar dudalen 55.

15. Asedau trydydd partïon

Gwarannau Datblygyr Tendrau ar y Môr

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal sicred at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r sicred hwn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2022 roedd Ofgem yn dal £10.95m mewn llythyrau credyd (31 Mawrth 2021: £8.85 miliwn)

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Mae'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU, a gweinyddir y cynllun gan Ofgem. Caeodd y cynllun i ymgeiswyr yn 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn <https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/ro/about-ro>

Defnyddir sawl cyfrif banc i weinyddu'r cynllun:

- Cronfeydd allbrynu – Gall cyflenwyr gyflawni eu rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy drwy dalu i mewn i'r gronfa allbrynu. Caiff enillion y gronfa allbrynu eu had-dalu ar sail pro-rata i'r cyflenwyr hynny sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.
- Taliadau hwyr – Bydd unrhyw daliadau sy'n dod i law ar ôl 31 Awst yn daliadau hwyr. Mae'r rhain yn destun cosb llog ddyddiol flynyddol (5% a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr).
- Cilyddu – Pan fydd diffyg cyffredinol yn swm y rhwymedigaeth, mae'n ofynnol i gyflenwyr wneud taliad tuag at gilyddu. Caiff cronfeydd cilyddu eu hailddosbarthu i gyflenwyr sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.

Roedd cyfanswm o £14.84m o arian parod yn cael ei ddal yn y cyfrifon banc hyn ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021: £25.43 miliwn). Cydnabuwyd incwm o

£6.96 miliwn yn 2021-22 mewn perthynas â chynlluniau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, yr oedd £1.06 miliwn ohono wedi'i gronni ar 31 Mawrth 2022. Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

Cronfeydd Iefelu Tariff Cyflenwi Trydan

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2022 oedd £0.05 miliwn (31 Mawrth 2021: £0.85 miliwn).

Cynlluniau cymhelliant gwres adnewyddadwy (RHI) domestig ac annomestig

Mae'r cynllun RHI domestig yn gynllun ariannol gan y Llywodraeth i annog newid i systemau gwresogi adnewyddadwy. Mae'n ffordd o helpu'r DU i leihau allyriadau carbon ac mae ar gael i gartrefi oddi ar y grid nwy ac ar y grid nwy. Mae'r cynllun RHI annomestig yn rhaglen amgylcheddol gan y Llywodraeth sy'n rhoi cymhellion ariannol i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r ddau gynllun ar ran BEIS ym Mhrydain Fawr, ac yn gweinyddu'r cynllun RHI annomestig yng Ngogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi. Y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau ar 31 Mawrth 2022 oedd: RHI domestig: £4.540 miliwn; RHI annomestig Prydain Fawr: £9.673 miliwn; RHI annomestig Gogledd Iwerddon: £0.021 miliwn (31 Mawrth 2021: £4.919 miliwn; £3.077 miliwn; £0.168 miliwn)

Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd

Cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy yw'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Agorwyd y cynllun i gyfranogwyr ar 30 Tachwedd 2021 a bydd ar agor i geisiadau am bedair blynedd. Gwneir taliadau bob chwarter i gyfranogwyr cofrestredig dros gyfnod o 15 mlynedd, ar sail y swm o fiofethan cymwys y bydd cyfranogwr yn ei gyfrannu at y grid nwy.

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd 2021, mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter i Ofgem er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Rhaid i gyflenwyr nwy trwyddedig hefyd gynnig yswiriant credyd, naill ai ar ffurf arian parod neu drwy gyflwyno llythyr credyd dilys, er mwyn helpu i sicrhau y caiff yr arian ei gasglu'n brydlon ac er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen digwyddiadau cilyddu. Rhaid i'r yswiriant credyd bara o leiaf chwarter a'r pedair wythnos dilynol. Pan fydd ar waith, gall Ofgem ddefnyddio yswiriant credyd cyflenwyr mewn achosion pan fydd cyflenwr yn peidio â thalu taliad ardoll neu daliad cilyddu cyfan neu ran ohono erbyn y dyddiad dyledus. Caiff yswiriant credyd nas defnyddiwyd ei gyflwyno o hyd, a'i ystyried wrth gadarnhau a fydd angen cyflwyno yswiriant credyd ychwanegol ar gyfer y chwarter canlynol. Yn y dyfodol, caiff unrhyw yswiriant credyd arian parod dros ben a ddelir y tu hwnt i'r lefelau gofynnol ar gyfer pob cyflenwr ei ddychwelyd i'r cyflenwyr ym mis Mawrth fel mater o drefn. Ar 31 Mawrth 2022, roedd Ofgem yn dal £5.958m mewn yswiriant credyd arian parod ac £11.171 miliwn mewn llythyrau credyd.

BEIS sy'n pennu'r polisi ar gyfer y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd a'r Ardoll Nwy Gwyrdd gysylltiedig, ond Ofgem sy'n gweinyddu'r cynllun.

16. Ardollau tanwydd ffosil a chosbau ariannol

Nid yw'n ofynnol i Ofgem baratoi Datganiad Ymddiriedaeth mewn perthynas â'r ardollau tanwydd ffosil na'r cosbau ariannol a roddir mwyach.

a) Ardollau tanwydd ffosil

Caewyd y cynlluniau ardollau tanwydd ffosil yn 2019. Yn ystod 2021-22, trosglwyddwyd balans arian parod gweddilliol o £31.995 miliwn i Gronfa Gyfunol y DU (balans ardollau Cymru a Lloegr) a throsglwyddwyd balans arian parod gweddilliol o £43.724 miliwn i Gronfa Gyfunol yr Alban (balans ardollau'r Alban).

b) Cosbau ariannol

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi, gan gynnwys rhoi cosbau ariannol, mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r Gronfa Gyfunol. Mae crynodeb o'r ymchwiliadau a'r camau gorfodi ar gyfer y flwyddyn i'w weld yn Atodiad II.

	2021-22	2020-21
	£000	£000
Cosbau a roddwyd	-	26,560
	-	26,560

17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Ar 29 Ebrill 2022, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol asesiad dosbarthu ar gyfer Taliadau Cyflenwad Pan Fetho Popeth Arall (a elwir hefyd yn ardoll Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall) gan ddod i'r casgliad y bydd Taliadau Cyflenwad Pan Fetho Popeth Arall yn cael eu dosbarthu'n fath o dreth. Mae hyn yn golygu y bydd cyllidebau ac amcangyfrifon Ofgem yn y dyfodol yn cynnwys Taliadau Cyflenwad Pan Fetho Popeth Arall, ond nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi penderfynu ar y dyddiad y daw hyn i rym eto. Mae Taliadau Cyflenwad Pan Fetho Popeth Arall yn talu am rai costau penodol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cwsmeriaid drwy'r broses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall, a chânt eu hadennill drwy lwfansau ar gyfer costau rhwydwaith. Mae costau Taliadau Cyflenwad Pan Fetho Popeth Arall wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y cynnydd mewn prisiau nwy cyfanwerthol, gan achosi i nifer o gyflenwr adael y farchnad. Cyfanswm costau'r Taliadau Cyflenwad Pan Fetho Popeth Arall ar gyfer 2022-23 yw £1.84 biliwn. Ni fydd dim arian yn cael ei drosglwyddo drwy Ofgem yn uniongyrchol, ac ni fydd Ofgem yn cynnwys y dreth mewn cyllidebau ac amcangyfrifon nes y bydd y dyddiad dod i rym wedi'i bennu.



Atodiadau (heb ei archwilio)

Atodiad I

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Cystadleuaeth Effeithiol			
Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targedau blynyddol gyfer 2021-22	Gwirioneddol
Proses Trawsyrru ar y Môr	Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgynghoriadau Adran 8A5	70 diwrnod	47.5 diwrnod
Proses Trawsyrru ar y Môr	Dewis Cynigydd a Ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno'r "Gwahoddiad i Dendro" (heb gynnwys y cynnig "Gorau" a "Therfynol")	120 diwrnod	78.5 diwrnod
Ceisiadau am drwydded	Gwneud penderfyniadau ar Geisiadau am Drwydded o fewn 45 diwrnod	100%	100% ³¹
Addasiadau i'r Cod	Gwneud penderfyniadau ynghylch addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod (neu dri mis os "ystyrir" bod angen ymgynghoriad asesiad o'r effaith)	90%	
Cysylltiadau cwsmeriaid	Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid	80% - 10 diwrnod gwaith	85.47%
Chwythwyr Chwiban	Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau chwythwr chwiban	100% - 1 diwrnod gwaith i gael ymgysylltiad cychwynnol	100%

Pennir dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ein cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar y cyd â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Economi Gogledd Iwerddon, y cânt eu cyflawni ar eu cyfer. Bob blwyddyn, mae Ofgem yn ymrwmo i gynnal lefelau gwasanaeth penodol ar gyfer cynlluniau RHI Domestig ac Annomestig Prydain Fawr, Tariffau Cyflenwi Trydan, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Cwmni Ynni a Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Nodir y canlyniadau yn erbyn y rhain ar gyfer 2021-22 isod.

³¹ Mae'r cyfnodau amser penodedig yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o geisiadau ac fe'u cyhoeddir yn y canllawiau ar gyfer gwneud cais am drwydded nwy a thrydan. Diwygiwyd y cyfnod amser penodedig ar gyfer [ceisiadau](#) am drwyddedau cyflenwi yn ystod y flwyddyn. Gall Ofgem ymestyn y cyfnod amser penodedig ar gyfer ceisiadau unigol unwaith pan gaiff ei gyfiawnhau gan gymhlethdod y mater.

**DPAau Cynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol**

Metrig (DPAau)	Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur	Targedau blynyddol gyfer 2021-22	Gwiri-oneddol
Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig (RHI Domestig)	Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith	80%	99%
Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith	80%	98.7%
Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy	Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith	80%	99.7%
Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT)	Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith	80%	99.7%
Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO)	Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith	80%	99.3%
Gostyngiad Cartrefi Cynnes	Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith	80%	95.1%
Gostyngiad Cartrefi Cynnes	Ymateb i barti o dan rwymedigaeth a gyflwynir i'r cynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes	100%	100%
RHI Domestig	Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes	99%	99.9%
Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes	99%	99.4%
Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy	Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes	99%	99.8%
Tariff Cyflenwi Trydan	Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes	99%	99.8%
ECO	Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes	99%	99.8%
RHI Domestig	Gwneud taliadau o fewn 30 diwrnod gwaith	95%	98.20
Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig	Gwneud taliadau o fewn 40 diwrnod gwaith	90%	96.5%
Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy annomestig Gogledd Iwerddon	Gwneud taliadau o fewn 40 diwrnod gwaith	95%	93.4%
Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy	Cyhoeddi'r brif gyfres o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar ôl dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu hallbwn data, o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebr-Meh) a 12 diwrnod gwaith (Gor-Maw)	95%	98.3%
Tariff Cyflenwi Trydan	Cwblhau'r broses "lefelu" o fewn 22 diwrnod gwaith	100%	100%
ECO	Prosesu'r mesurau a gyflwynwyd mewn un mis calendr erbyn diwedd y mis canlynol	100%	100%

Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau a wnaed drwy gamgymeriad yn ystod 2021-22 o dan Gynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr yw £10.4 miliwn (1.1 y cant o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfng hyder o £6.2 miliwn i £14.6 miliwn. Caiff hyn ei ddatgelu yn adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22 BEIS hefyd.

Atodiad II - Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi 2021-22

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan³² yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi.³³ Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan,³⁴ er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad³⁵ ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT)³⁶ a Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018³⁷ Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai o fudd i ddefnyddwyr.

Cwmni	Mater	Penderfyniad	Dyddiad y penderfyniad
Utility Warehouse Ltd	Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Utility Warehouse ag Amodau Trwydded Safonol 25C/0, 27.5, 27.8, 28B a 32.	Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod, wedi cau drwy gamau gweithredu amgen, gwnaed taliad unioni o £1.5m i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. Cymerodd Utility Warehouse gamau gwella boddhaol yn ystod yr ymchwiliad.	Tachwedd 2021
PayPoint plc	Ymchwiliad i ganfod a gafodd amodau Pennod II o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 eu torri mewn perthynas â chamddefnydd posibl o sefyllfa flaenllaw gan gwmni sy'n darparu gwasanaethau i'r diwydiant ynni.	Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod, wedi cau drwy dderbyn ymrwymïadau, gan gynnwys cael gwared ar gymalau cyfyngol. Gwnaed taliad unioni o £12.5m i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol.	Tachwedd 2021
National Grid Electricity Transmission plc (NGET) and Scottish Power Transmission plc (SPT)	Ymchwiliad i ganfod a dorrodd NGET ac SPT amodau eu trwyddedau a rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â darparu a gweithredu cyswllt tanfor Western High Voltage Direct Current ("WHVDC") rhwng yr Alban a Chymru.	Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod, wedi cau drwy gamau gweithredu amgen. Cytunodd NGET ac SPT ar becyn unioni gwerth cyfanswm o £158m, y cafodd £15m ohono ei dalu i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. Caiff y gweddill ei ddychwelyd i ddefnyddwyr drwy daliadau trawsyrru is.	Tachwedd 2021

³² Cydymffurfio a gorfodi - Ymchwiliadau, gorchmynion a chosbau | Ofgem ; Cydymffurfio a gorfodi - Ymchwiliadau, gorchmynion a chosbau - REMIT
Ymchwiliadau, gorchmynion a chosbau | Ofgem

³³ Canllawiau Gorfodi | Ofgem

³⁴ Nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.

³⁵ Rheoliad 1227/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor 25 Hydref 2011

³⁶ Mae ein Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer REMIT i'w gweld yn: Decision on changes to REMIT Penalties Statement and REMIT Procedural Guidelines | Ofgem

³⁷ Ymgynghoriad ar Ganllawiau Gorfodi a Pholisi Cosbau NIS newydd arfaethedig Ofgem | Ofgem



Cwmni	Mater	Penderfyniad	Dyddiad y penderfyniad
National Grid Electricity Transmission plc (NGET) / Gweithredwr System Trydan y Grid Cenedlaethol (NGESO)*	Ymchwiliad i NGET a'i gydymffurfiaeth â'r rwyngedigaethau o dan Amod Trwydded Safonol 16 o'r Drwydded Trawsyrro	Caewyd yr achos, canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Rhoesom ddirwy o £1 i Weithredwr System Trydan y Grid Cenedlaethol (NGESO). Mae hyn yn ychwanegol at daliad o £1,499,999 a wnaed gan NGESO i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol.	Mai 2021
*Gwahanodd NGESO oddi wrth NGET yn swyddogol ar 1 Ebrill 2019.			
Symbio Energy Ltd	Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Symbio Energy ag Amod Trwydded Safonol 33 o'r Drwydded Cyflenwi Trydan, Gorchymyn Tariff Cyflenwi Trydan 2012, Erthyglau 68 a 74 o Orchymyn Rhwyngedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 49 o Rwyngedigaeth Ynni Adnewyddadwy (Yr Alban) 2009.	Caewyd yr achos, canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Rhoesom gosb ariannol o £100,000 i Symbio. Fodd bynnag, rhoddodd Symbio y gorau i fasnachu ar 29 Medi 2021 ac ni wnaeth y taliad hwn cyn ymadael â'r farchnad a mynd i ddwylo gweinyddwyr.	Mai 2021

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau'n gyflym i ddefnyddwyr heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

Cwmni	Mater	Penderfyniad	Dyddiad y penderfyniad
EDF Energy	Mae Amodau Trwydded Safonol 0 a 25.4 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr (a'u cynrychiolwyr) beidio â charnawain defnyddwyr wrth farchnata neu werthu eu cynhyrchion, er mwyn galluogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth (ynghylch newid cyflenwr). Un o gynrychiolwyr y cyflenwr EDF Energy yw Selectra, ac mae'n gwerthu cynhyrchion cyflenwi EDF Energy. Codwyd pryderon ynghylch Amodau Trwydded Safonol 0 a 25.4 ag EDF Energy, mewn perthynas â phrosesau gwerthu Selectra a roddwyd ar waith rhwng mis Mehefin 2000 a mis Mawrth 2021.	Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gwnaeth EDF y gwelliannau y gofynnwyd amdanynt i'r prosesau gwerthu a chytunodd i roi £163,000 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni, er mwyn cydnabod colled ariannol bosibl i gwsmeriaid.	Hydref 2021
ESB Independent Generation Trading Ltd and Carrington Power Ltd	Cyflwyno data anghywir i Weithredwr System Trydan y Grid Cenedlaethol ('NGESO') ar 'baramedrau dinamig' gorsaf ynni Carrington, a roddodd arwyddion anghywir neu gamarweiniol ynglŷn â chyflenwi ynni cyfanwerthol.	Camau gweithredu amgen. Cyfaddefodd ESB Independent Generation Trading a Carrington Power eu bod wedi torri Erthygl 5 o REMIT yn anfwriadol, yn ogystal â rhwyngedigaethau Cod y Grid i gyflwyno data cywir i NGESO. Cydnabu'r cwmnïau fod eu gweithredoedd wedi peri i NGESO brynu mwy na'r angen o bŵer a gwario mwy na'r angen o arian ar adegau er mwyn cydbwysu'r system, a gwnaethant gytuno i wneud taliad ar y cyd o £6m i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol.	Awst 2021

Cwmni	Mater	Penderfyniad	Dyddiad y penderfyniad
Green Star Energy Ltd (Shell Energy UK Ltd)	Fel rhan o adolygiad busnes Shell, datgelodd Shell fod datganiadau o gyfrifon a/neu filiau terfynol heb gael eu hanfon at tua 97,000 o gwsmeriaid neu, os cawsant eu hanfon atynt, eu bod yn anghywir.	Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Mae Shell wedi cynnig pecyn unioni gwerth cyfanswm o £1,532,000. Talodd Shell £1,215,000 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £317,000 mewn iawndaliadau i gwsmeriaid.	Awst 2021
SSE Energy Services (now part of Ovo Energy Ltd)	Daeth SSE (Ovo bellach) o hyd i rai 'cyfrifon yn yr arfaeth' â statws dros dro, lle y cafodd cyfrifon eu creu ac arian ei gymryd drwy ddebyd uniongyrchol, ond ni chyflenwyd dim ynni. Yn dilyn archwiliad o'r system, canfuwyd mai problem hanesyddol oedd hon.	Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cynigiodd SSE (Ovo bellach) becyn unioni gwerth cyfanswm o £589,754.84. Talodd Ovo £281,085.73 mewn ad-daliadau uniongyrchol i gwsmeriaid; £77,845.93 mewn iawndaliadau i gwsmeriaid; a thalwyd swm o £230,823.18 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol.	Gorffennaf 2021
Utilita Energy Ltd	Rhoddodd cwmni Utilita wybod ei fod wedi codi gormod ar rai cwsmeriaid nwy o ganlyniad i gymhwyso'r gwerth caloriffig anghywir am na chafodd rhagosodiad cyfrifo ei gymhwyso'n awtomatig.	Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cynigiodd Utilita becyn unioni gwerth cyfanswm o £821,560.36. Talodd Utilita £776,607.54 mewn ad-daliadau uniongyrchol i gwsmeriaid; talwyd £775 mewn iawndaliadau i gwsmeriaid; a thalwyd swm o £44,177.82 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol.	Mehefin 2021
EON UK plc	Cymerodd EON daliadau Debyd Uniongyrchol yn gynharach na'r hyn y cytunwyd arno gan 1.6 miliwn o gwsmeriaid. Cytunwyd y byddai'r taliadau'n cael eu cymryd ar ddechrau mis Ionawr ond cymerodd E.ON y taliadau Debyd Uniongyrchol hyn ar 24 Rhagfyr 2020 drwy gamgymeriad. Rhoddodd E.ON wybod am y broblem hon ei hun.	Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Dywedodd E.ON wrthym ei fod wedi gwneud taliadau unioni ac ewyllys da gwerth cyfanswm o £55,039 i gwsmeriaid a wynebodd daliadau banc neu gostau ychwanegol yn sgil y camgymeriad. Amcangyfrifodd E.ON y niwed mwyaf y gallai'r camgymeriad hwn fod wedi'i achosi i gwsmeriaid, a thalodd yr hyn a oedd yn cyfateb i tua £427,312 i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol. Gwaeth E.ON hefyd dalu £200,000 i'r gronfa er mwyn cydnabod y ffaith ei fod wedi methu mynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol yn ei system a'i drefniadau llywodraethu. Cyfanswm y taliad a wnaed i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol oedd £627,312.	Ebrill 2021

Yn ogystal â'r achosion a welir yn y tabl, arweiniodd achosion eraill o ymgysylltu ynghylch cydymffurfio at y canlynol.

Math o effaith	Gwerth
Ad-daliadau i gwsmeriaid	£115,000
Taliadau iawndal i ddefnyddwyr	£51,000
Taliadau unioni i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol	£91,000
Cyfanswm	£257,000

**Achosion agored**

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT a Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

Cwmni	Dyddiad Agor	Mater
National Grid Electricity Transmission plc (NGET)	Mawrth 2022	Ymchwiliad i NGET a'i gydymffurfiaeth ag Adran 9 o Ddeddf Trydan 1989 ac Amod Trwydded Safonol B7 o'i Drwydded Trawsyrru Trydan mewn perthynas ag is-orsaf Harker.
Energetický a průmyslový South Humberside Bank (EP SHB)	Hydref 2021	Ymchwiliad i ganfod a wnaeth EP SHB fethu â chydymffurfio â gofynion amod 20A o'r Amodau Trwydded Safonol Cynhyrchu Trydan (y cyfeirir ato fel yr Amod Trwydded Cyfyngu ar Drawsyrru, neu "TCLC").
SSE Generation Ltd	Hydref 2021	Ymchwiliad i ganfod a wnaeth SSE Generation Ltd fethu â chydymffurfio â gofynion amod 20A o'r Amodau Trwydded Safonol Cynhyrchu Trydan (y cyfeirir ato fel yr Amod Trwydded Cyfyngu ar Drawsyrru, neu "TCLC").
Community Energy Scheme (CES) UK Ltd	Awst 2021	Ymchwiliad i ganfod a yw CES wedi mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr drwy ei arferion gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid.
Scottish Power Ltd	Tachwedd 2020	Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Scottish Power ag Amod Trwydded Safonol 38 o'r Drwydded Cyflenwi Nwy ac Amod Trwydded Safonol 44 o'r Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedai bennu a chyrraedd cerrig milltir blynyddol ar gyfer gosod mesuryddion deallus.
United Gas and Power Ltd	Gorffennaf 2020	Ymchwiliad i weithgareddau bilio a chyfathrebu United Gas and Power Ltd.
Hudson Energy Supply UK Ltd	Gorffennaf 2020	Ymchwiliad i ganfod a wnaeth Hudson Energy Supply UK Ltd dorri rheolau yn ymwneud â bilio, darllen mesuryddion a chyfathrebu mewn perthynas â'r camau a gymerwyd ar ei ran gan United Gas and Power Ltd.
Western Power Distribution plc	Chwefror 2020	Ymchwiliad i Western Power Distribution plc a'i gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

Gorchymyn Terfynol

Isod ceir manylion y gorchymyn terfynol a wnaed yn ystod y flwyddyn o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022. Rhoesom ddau orchymyn terfynol i'r cyflenwyr a nodir isod.

Gorchymyn Terfynol a roddwyd	Cwmni	Pryder
Hydref 2021	Whoop Energy Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £56,306.25.
Hydref 2021	AmpowerUK Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £3,590,236.65.

Yn ogystal â hyn, rhestrir isod fanylion am yr hysbysiadau ymgynghori ar gyfer gorchymyn terfynol lle na roddwyd gorchymyn terfynol gennym.

Dyddiad codi ymgynghoriad	Cwmni	Pryder	Canlyniad
Hydref 2021	Colorado Energy Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £858,357.50, mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a £24,824.80 mewn perthynas â Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban.	Rhoddodd Colorado Energy y gorau i fasnachu ar 13 Hydref 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. Mae'r taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ddyledus o hyd.
Hydref 2021	GoTo Energy Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £2,124,372.25, mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a £347,997.65 mewn perthynas â Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban.	Rhoddodd GoTo Energy Ltd y gorau i fasnachu ar 18 Hydref 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. Mae'r taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ddyledus o hyd.
Hydref 2021	Home Energy Trading Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £2,202.20, mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a £50.05 mewn perthynas â Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban.	Talodd Home Energy ei Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 2020-21 yn llawn ar 5 Hydref 2021. Penderfynodd yr Awdurdod beidio â rhoi gorchymyn terfynol.
Awst 2021	Symbio Energy Ltd	Gwrthododd Symbio gyflwyno gwybodaeth ariannol y gofynnodd Ofgem amdani o dan Amod Trwydded Safonol 5. Mae Amod Trwydded Safonol 5 yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth gan drwyddedeion.	Rhoddodd Symbio Energy y gorau i fasnachu ar 29 Medi 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu.



Gorchymyn Terfynol a ddaeth i ben	Cwmni	Canlyniad y Gorchymyn Terfynol
Hydref 2021	Whoop Energy Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £56,306.25. Rhoddodd Whoop Energy y gorau i fasnachu ar 18 Chwefror 2022 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi trydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn terfynol a roddwyd i Whoop Energy ar 28 Hydref 2021 yn weithredol mwyach. Mae'r taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ddyledus o hyd (yn ogystal â llog a gronnwyd).
Medi 2021	Nabuh Energy Ltd	Peidio â gwneud taliadau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am swm o £2,683,631.70. Trosglwyddwyd holl gwsmeriaid Nabuh Energy i Centrica PLC. Dirymodd yr Awdurdod drwyddedau Nabuh Energy ar 17 Medi 2021. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn terfynol yn weithredol mwyach. Mae'r taliadau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ddyledus o hyd (yn ogystal â llog a gronnwyd).
Ebrill 2021	Robin Hood Energy Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am swm o £12,057,879.42 a pheidio â gwneud y Taliad Lefelu Blynnyddol ar gyfer Blwyddyn 10 y Tariff Cyflenwi Trydan am swm o £33,945.51. Rhoddodd Robin Hood y gorau i fasnachu ar 5 Ionawr 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu ar 12 Ebrill 2021. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn terfynol yn weithredol mwyach. Mae'r taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ddyledus o hyd (yn ogystal â llog a gronnwyd).
Tachwedd 2021	AmpowerUK Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £3,590,236.65. Rhoddodd Ampower y gorau i fasnachu ar 8 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn terfynol yn weithredol mwyach. Mae'r taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ddyledus o hyd (yn ogystal â llog a gronnwyd).

Rydym hefyd wedi nodi canlyniadau'r gorchymynion terfynol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn hon. Rhoddwyd y gorchymynion terfynol i Nabuh Energy a Robin Hood yn ystod y flwyddyn flaenorol ond daethant i ben yn ystod y flwyddyn hon.

Gorchmynion Dros Dro

Isod ceir manylion y gorchmynion terfynol a wnaed yn ystod y flwyddyn o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022. Rhoesom 18 o orchmynion dros dro. Gwelsom achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Tariff Cyflenwi Trydan a'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn parhau, gyda nifer o'r cyflenwyr hynny'n rhoi'r gorau i fasnachu ac yn gadael y farchnad wedyn.

Gorchmyn dros dro a roddwyd	Cwmni	Pryder
Mawrth 2022	UK Energy Incubator Hub Ltd	Ni roddodd UK Energy Incubator Hub Ltd wybodaeth y gofynnodd Ofgem amdani o dan Amod Trwydded Safonol 5. Mae Amod Trwydded Safonol 5 yn rhoi'r pŵer i Ofgem ofyn am wybodaeth gan drwyddedeion.
Tachwedd 2021	Delta Gas and Power Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 am swm o £46,701.23. Gwnaeth Delta ei daliad ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 y Tariff Cyflenwi Trydan yn llawn ar 17 Ionawr 2022. O ganlyniad i hynny, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chadarnhau'r gorchmyn dros dro.
Tachwedd 2021	Social Energy Supply Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 am swm o £28,735.97. Rhoddodd Social Energy Supply Ltd y gorau i fasnachu ar 16 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchmyn dros dro a roddwyd i Social Energy Supply Ltd ar 12 Tachwedd 2021 yn weithredol mwyach.
Tachwedd 2021	Whoop Energy Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 am swm o £19,013.51. Rhoddodd Whoop Energy y gorau i fasnachu ar 18 Chwefror 2022 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi trydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchmyn dros dro a roddwyd i Whoop Energy ar 12 Tachwedd 2021 yn weithredol mwyach. Mae Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan yn ddyledus o hyd.
Hydref 2021	Entice Energy Supply Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £152,252.10 ar gyfer Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy; a £21,671.65 ar gyfer Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban. Rhoddodd Entice Energy y gorau i fasnachu ar 25 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchmyn dros dro a roddwyd i Entice ar 29 Hydref 2021 yn weithredol mwyach.
Hydref 2021	Simply Your Energy Ltd (yn masnachu dan yr enw Entice Energy Supply Ltd)	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 am swm o £28,353.75 erbyn y terfyn amser, sef 10 Tachwedd 2021. Rhoddodd Simply Your Energy Ltd (yn masnachu dan yr enw Entice Energy Supply Ltd) y gorau i fasnachu ar 25 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchmyn dros dro a roddwyd i Entice ar 12 Tachwedd 2021 yn weithredol mwyach.
Hydref 2021	Orbit Energy Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 am swm o £451,296.14. Rhoddodd Orbit Energy y gorau i fasnachu ar 25 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchmyn dros dro a roddwyd i Orbit Energy ar 12 Tachwedd 2021 yn weithredol mwyach.
Hydref 2021	Neon Reef Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £349,148.80. Rhoddodd Neon Reef Ltd y gorau i fasnachu ar 16 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchmyn dros dro a roddwyd i Neon Reef Ltd ar 28 Hydref 2021 yn weithredol mwyach.



Gorchymyn dros dro a roddwyd	Cwmni	Pryder
Hydref 2021	MA Energy Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £941,835.25. Rhoddodd MA Energy Ltd y gorau i fasnachu ar 8 Tachwedd 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i MA Energy Ltd ar 28 Hydref 2021 yn weithredol mwyach.
Hydref 2021	Together Energy (Retail) Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm o £11,440,979.55, mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a £961,410.45 mewn perthynas â Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban. Rhoddodd Together y gorau i fasnachu ar 18 Ionawr 2022 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi trydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad i hynny, penderfynodd yr Awdurdod beidio â chadarnhau'r gorchymyn dros dro.
Hydref 2021	Igloo Energy Supply Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn 12 am swm o £316,582.44. Rhoddodd Igloo y gorau i fasnachu ar 29 Medi 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu ar 3 Hydref 2021. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Igloo ar 21 Medi 2021 yn weithredol mwyach.
Hydref 2021	Delta Gas and Power Ltd	Peidio â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am swm dyledus o £78,664.29. Gwnaeth Delta Gas and Power y taliad, a chaiff y gorchymyn dros dro ei ddirymu cyn bo hir.
Hydref 2021	Symbio Energy Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu blynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Blwyddyn 11 am swm o £146,238.66 erbyn y terfyn amser, sef 17 Medi 2021. Rhoddodd Symbio Energy y gorau i fasnachu ar 29 Medi 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Symbio Energy ar 21 Medi 2021 yn weithredol mwyach.
Medi 2021	Colorado Energy Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Blwyddyn 11 am swm o £261,406.12. Rhoddodd Colorado y gorau i fasnachu ar 13 Hydref 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Colorado ar 21 Medi 2021 yn weithredol mwyach.
Medi 2021	Avro Energy Ltd	Peidio â chyflwyno gwybodaeth o dan Amod Trwydded Safonol 5. Rhoddodd Avro y gorau i fasnachu ar 22 Medi 2021 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi nwy a thrydan eu dirymu ar 26 Medi 2021. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Avro ar 14 Medi 2021 yn weithredol mwyach.
Medi 2021	Whoop Energy Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu blynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Blwyddyn 11 am swm o £3,780.22. Rhoddodd Whoop Energy y gorau i fasnachu ar 18 Chwefror 2022 a chafodd ei drwyddedau i gyflenwi trydan eu dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Whoop Energy ar 21 Medi 2021 yn weithredol mwyach. Mae taliad lefelu blynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan yn ddyledus o hyd.
Medi 2021	Neon Reef Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu Blynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Blwyddyn 11 am swm o £37,350.76 erbyn y terfyn amser, sef 17 Medi 2021. Talodd Neon Reef y swm a oedd yn ddyledus ac, o ganlyniad i hynny, nid yw gofynion y gorchymyn dros dro ar waith mwyach.
Awst 2021	Symbio Energy Ltd	Peidio â gwneud Taliad Lefelu'r Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer Chwarter 1 Blwyddyn 12 am swm o £449,025.79. Rhoddodd Symbio Energy y gorau i fasnachu ar 29 Medi 2021 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. O ganlyniad, nid yw'r gorchymyn dros dro a roddwyd i Symbio Energy ar 18 Awst 2021 yn weithredol mwyach.

Atodiad III - Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5(1) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y canlynol:

- gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn;
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy gydol yr adroddiad hwn. [Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt]

Mae Adran 5(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol
 - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau;
 - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan;
(Cyfeirir at y datblygiadau hyn yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno;
(Rhoddir adroddiad ar gynnydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;
(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Crynodeb o'r cosbau a roddwyd gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;
(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan GEMA yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno;
(Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 5(2A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad blynyddol

- (a) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni);
- (b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfen arall fel y pethau roedd yr Awdurdod yn bwriadu eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi.

(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dynodi datganiad strategaeth a pholisi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn adrodd hon)

Mae Adran 5(3) o'r Ddeddf Cyfleustodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989.

(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)

